# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
| --- | --- | --- |
| PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO | | GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE |
| DYDD IAU, 29 MEHEFIN 2023 am 2.00 y. p. | | THURSDAY, 29 JUNE, 2023 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHOL DRWY ZOOM | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Dyfed Wyn Jones, Euryn Morris ***(Diprwy Gadeirydd),*** Margaret M. Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Sedd Wag/Vacant Seat

**LLAFUR CYMRU/WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Liz Wood

**AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Dilwyn Evans ***(Cadeirydd),*** William Parry, Sharon Warnes, Michael Wilson

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol -

- 18 Ebrill, 2023
- 23 Mai, 2023 (ethol Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd)

**3** **DIWEDDARIAD NEWID HINSAWDD**

Derbyn cyflwyniad gan y Rheolwr Newid Hinsawdd.

**4** **ADRODDIAD HUNAN-ASESIAD CYNGOR SIR YNYS MÔN 2023** (Tudalennau 13 - 28)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

**5** **ARCHWILIO ALLANOL: CYNGOR SIR YNYS MÔN - CYNLLUN ARCHWILIO AMLINELLOL 2023** (Tudalennau 29 - 40)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru.

**6** **ARCHWILIO ALLANOL : DIWEDDARIAD CHWARTEROL AR RAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU** (Tudalennau 41 - 60)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru.

**7** **ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2022/23** (Tudalennau 61 - 84)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**8** **ADRODDIAD YSWIRIANT BLYNYDDOL 2022/23** (Tudalennau 85 - 96)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**9** **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2022/23** (Tudalennau 97 - 122)

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**10** **ASESIAD ANSAWDD ALLANOL O GYDYMFFURFIAETH GYDA SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR CYHOEDDUS** (Tudalennau 123 - 128)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**11** **ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH 2023/24** (Tudalennau 129 - 134)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 18 Ebrill, 2023

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Euryn Morris (Dirprwy Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Dyfed Wyn Jones, Geraint Bebb, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Margaret M. Roberts, Liz Wood.<br><br>Aelodau Lleyg: William Parry, Sharon Warnes, Michael Wilson |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>Prif Swyddog Archwilio (NW)<br>Rheolwr Risg ac Yswiriant (JJ) (ar gyfer eitem 8)<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (ar gyfer eitemau 3 a 4)<br>Rheolwr Gwasanaeth (Tai Cymunedol) (LlW) (ar gyfer eitem 7)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Alun Roberts (Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), Y Cynghorydd Neville Evans (Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth ac Arforol), Alan Hughes (Arweinydd Perfformiad Archwilio - Archwilio Cymru), Yvonne Thomas (Rheolwr Archwilio Cyllid- Archwilio Cymru), Bethan H. Owen (Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg), Andrew Lewis (Uwch-archwiliwr), Bryn Owen (Uwch-archwiliwr) |

---

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd 7 Chwefror, 2023 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Mewn perthynas â'r camau pellach dan eitem 8 ar y cofnodion ynghylch statws y Gofrestr Risg Strategol fel eitem eithriedig ynteu gyhoeddus ar raglen y Pwyllgor, cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg ei fod wedi cymryd cyngor gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro yn ôl y gofyn ac, wrth symud ymlaen, byddai’r Gofrestr Risg Strategol yn cael ei thrafod mewn sesiwn agored.

## 3. ARCHWILIO ALLANOL: CYNGOR SIR YNYS MÔN – CRYNODEB ARCHWILIO BLYNYDDOL 2022

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor er gwybodaeth adroddiad Archwilio Cymru, oedd yn crynhoi'r gwaith a gwblhawyd gan Archwilio Cymru ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf yn 2021,. Roedd y crynodeb yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru oedd yn cwmpasu gwelliant parhaus; archwilio cyfrifon; gwerth am arian a'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Rhoddodd Yvonne Thomas, Rheolwr Archwilio Ariannol Archwilio Cymru drosolwg o'r gwaith archwilio ariannol a wnaed yn ystod y cyfnod, gan gadarnhau bod yr Archwilydd Cyffredinol, 31 Ionawr, 2023, wedi rhoi barn wir a theg ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Cyngor. Roedd yr Archwilydd Cyffredinol, hefyd, yn gyfrifol am ardystio nifer o hawliadau grant. Roedd gwaith archwilio'r ffurflenni Pensiwn Athrawon a Threthi Annomestig bellach wedi'i gwblhau. Ardystiwyd Cymhorthdal Budd-daliadau Tai 2019-20 ar 22 Rhagfyr, 2022, a, bellach, roedd cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar archwilio Cymhorthdal Budd-daliadau Tai 2020-21.

Cyfeiriodd Alan Hughes, Arweinydd Perfformiad Archwilio Cymru at waith a wnaed i adolygu trefniadau gwerth am arian y Cyngor oedd yn canolbwyntio ar agweddau yn ymwneud â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a chynlluniau lleihau carbon. Yn ystod 2021-22, cynhaliwyd gwaith i archwilio sut roedd cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y modd y darperid gwasanaethau, gan ganolbwyntio, yma ar Ynys Môn, ar reolaeth strategol y Cyngor o'i asedau a'i weithlu trwy'r adolygiad 'Llamu Ymlaen'. Adolygwyd, hefyd, gynnydd y Cyngor wrth brosesu'r hawliad Cymhorthdal Budd-daliadau Tai'n gywir a'i ardystio'n amserol. Roedd canfyddiadau'r gwaith adolygu ac ymateb y Cyngor iddynt, ac eithrio Llythyr Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, wedi'u hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a byddai diweddariad ar yr eitem oedd yn disgwyl sylw'n cael ei roi maes o law. Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob cyngor, cynhelid astudiaethau ar draws y sector llywodraeth leol er mwyn gwneud argymhellion i wella gwerth am arian ac roedd disgwyl i gynghorau ystyried yr argymhellion hynny a'u rhoi ar waith, lle y bo'n berthnasol. Roedd yr astudiaethau a gyhoeddwyd ers yr adroddiad gwella blynyddol diwethaf wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Wrth ystyried adroddiad cryno'r archwiliad, cododd y Pwyllgor y pwyntiau a ganlyn yn benodol mewn perthynas â'r datganiad o ffeithiau allweddol -

- Eglurhad o'r ail ffaith allweddol lle dywedwyd yr ystyriwyd bod 2.3% o 44 ardal Cyngor Sir Ynys Môn yn cael ei ystyried o fewn 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.
- Effaith bosibl poblogaeth sy'n lleihau - rhagwelwyd y byddai poblogaeth yr Ynys yn gostwng 1% rhwng 2020 a 2040 - ar gynllunio a darparu gwasanaethau.
- Cydnabod bod cynnydd a ragwelwyd o 23% yn nifer y bobl 65 oed a throsodd yn debygol o achosi her i ddarparu gwasanaethau awdurdodau lleol

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod gan Awdurdod Lleol Ynys Môn 44 "ardal", y cyfeirid atynt, hefyd, yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA). Roedd un o'r 44 LSOA yn Ynys Môn o fewn 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, oedd yn cyfateb i 2.3%. Cadarnhawyd bod y ffigyrau yn seiliedig ar y wybodaeth orau oedd ar gael, bod niferoedd y boblogaeth yn amrywio a nifer o ffactorau a digwyddiadau gan gynnwys ffyniant economaidd, oedd yn eu tro yn effeithio ar fudo, yn dylanwadu arnynt.

**Penderfynwyd nodi Crynodeb Archwilio Blynyddol 2022.**

## 4. ARCHWILIO ALLANOL: RHAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU - CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad Archwilio Cymru yn ymgorffori'r diweddariad chwarterol, 31 Rhagfyr 2022, ar gynnydd rhaglen waith ac amserlen Archwilio Cymru. Wedi ei gynnwys yn yr adroddiad, hefyd, roedd diweddariad ar statws gwaith gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Rhoddodd Yvonne Thomas, Rheolwr Archwilio Ariannol Archwilio Cymru'r sefyllfa ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch cynnydd y gwaith archwilio ariannol, gan gadarnhau bod gwaith archwilio datganiadau ariannol y Cyngor wedi'i gwblhau ym mis Ionawr, 2023; y ffurflen ar gyfer Trethi Annomestig wedi'i hardystio ym mis Mawrth, 2023 a chyfraniadau Pensiwn Athrawon ar gyfer 2021-22 wedi'u harchwilio ddechrau mis Ebrill, 2023. Roedd gwaith ardystio'r ffurflen Grant Cymhorthdal Budd-daliadau Tai ar gyfer 2020-21 yn dal i fynd rhagddo ac roedd gwaith ar Ffurflen Grant Cymhorthdal Budd-daliadau Tai ar gyfer 2021-22 wedi dechrau.

Cadarnhaodd Alan Hughes, Arweinydd Perfformiad Archwilio Cymru, fod y rhan fwyaf o waith archwilio perfformiad 2021-22 wedi'i gwblhau a bod y gwaith dan raglen archwilio perfformiad 2022-23 yn mynd rhagddo ar wahanol gamau, fel y'i dogfennid yn yr adroddiad, gydag amserlen y rhaglen wedi llithro ychydig. Fodd bynnag, roedd yn disgwyl y byddai'n adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y misoedd nesaf ar ganlyniad yr adolygiadau a restrwyd.

Wrth nodi nad oedd ardystiad y Cymhorthdal Grant Budd-daliadau Tai yn dal i fod yn gyfredol, gofynnodd y Pwyllgor i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 egluro'r sefyllfa.

Cyfeiriodd y Swyddog Adran 151 at broses ardystio ffurflenni hawlio cymhorthdal grant Budd-daliadau Tai ac eglurodd fod canlyniad gwaith archwilio'r cyfryw ffurflen yn dylanwadu ar waith y flwyddyn ddilynol cymaint â bod gwallau a nodwyd gan yr archwilwyr ar ddiwedd archwiliad un flwyddyn yn golygu y gofynnir i'r Cyngor gynnal profion CAKE ychwanegol y flwyddyn ganlynol. Roedd hyn yn golygu gwaith ychwanegol ac os byddai unrhyw wallau pellach yn cael eu hadnabod, yn arwain at brofion ychwanegol y flwyddyn nesaf mewn patrwm ailadroddus oedd wedi cyfrannu at yr ôl-groniad yn y blynyddoedd diwethaf. Hefyd, bu'n her cydlynu capasiti ac amser yr archwilydd allanol a'r Gwasanaeth Cyllid fel bod modd gwneud y gwaith ychwanegol. Er bod ffurflen hawlio grant cymhorthdal Budd-daliadau Tai 2019-20 wedi'i hardystio bellach, bu'n ofynnol cynnal profion pellach arni ar ddechrau proses ardystio 2020-21. Roedd y gwaith hwn i raddau helaeth bellach wedi'i gwblhau ac roedd yr archwilwyr hefyd wedi cwblhau eu profion sampl cychwynnol; roedd angen mynd i'r afael â rhai ymholiadau yn codi o hynny. Er bod y Cyngor yn cynnal profion pellach ar elfennau penodol o wallau a nodwyd o'r profion sampl cychwynnol, y gobaith oedd y gellid ardystio'r hawliad erbyn diwedd mis Mai, 2023. Roedd y Cyngor, hefyd, wedi bod yn gweithio'r un pryd ar ffurflen hawlio cymhorthdal Budd-daliadau Tai 2021/22 ac roedd wedi datblygu elfennau o'r profion CAKE, gyda'r nod o fynd i'r afael â chanlyniadau profion sampl yr archwilwyr dros fisoedd yr haf. Os byddai adnoddau'n caniatáu, dylid cwblhau gwaith ardystio'r hawliad erbyn diwedd mis Medi. Yr amserlen a osodwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer cwblhau archwiliad 2022/23 oedd diwedd mis Tachwedd, 2023 oni bai y caniateid estyniad i'r amserlen eto yn sgil pwysau oedd yn gysylltiedig â Covid. Er ei bod yn annhebygol y byddai gwaith archwilio hawliad cymhorthdal 2022/23 wedi'i gwblhau erbyn y terfyn amser

hwn, byddai'r Cyngor mewn sefyllfa lawer gwell a byddai'n cwblhau'r archwiliad yn gynnar yn 2024. Yn dilyn ymadawiad y swyddog oedd yn gyfrifol am gymhorthdal Budd-daliadau Tai, roedd staff asiantaeth wedi'u cyflogi i wneud y gwaith gyda chefnogaeth secondiad. Roedd y strwythur staffio'n cael ei adolygu i gryfhau'r adnoddau a ddyrennid i waith cymhorthdal y Bwrdd Iechyd a rhoi trefn wirio barhaus ar waith gyda'r bwriad o leihau nifer y gwallau a, thrwy hynny, gyflymu'r broses gan hefyd leihau faint o brofion CAKE oedd eu hangen y flwyddyn ganlynol.

Mewn ymateb i gwestiynau pellach gan y Pwyllgor ynghylch archwiliad 2022/23 ac ystyriaethau cysylltiedig, eglurodd Archwilio Cymru'r isod -

- Bod diwygiadau i ISA 315, oedd yn gofyn i archwilwyr ymgymryd â phroses adnabod ac asesu risg cyn rhoi'r cynllun archwilio at ei gilydd, wedi cael effaith ar y cylch archwilio ac yn golygu na fyddai'r cynllun archwilio manwl terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor tan yr haf. Roedd cynllun amlinellol drafft wedi'i lunio a'i rannu gyda'r Cyngor, iddo gytuno arno ac, wedi hynny câi ei gyflwyno i'r Pwyllgor.
- Bod cynnal y gwaith asesu risg a'r hyn yr oedd hynny'n ei olygu o ran adnoddau staff yn golygu ffi archwilio uwch ar gyfer 2022/23. Roedd llythyr yn amlinellu'r newidiadau a'r hyn y maent yn ei olygu ar gyfer yr amserlen archwilio wedi'i anfon i'r Cyngor.
- O ran y gwaith asesu risg yn ychwanegu at y pwysau ar archwilwyr a'r broses archwilio ac o bosib, yn arwain at lithriad ar adeg pan fo ymdrechion yn cael eu gwneud i glirio'r ôl-groniad gyda gwaith hawlio cymhorthdal Budd-daliadau Tai, roedd y gofynion newydd wedi arwain at ail-werthuso sut yr ymdrinnid â'r gwaith a'i gyflawni ar draws y sector archwilio, gan gynnwys pa sgiliau oedd ei hangen ar wahanol gamau o'r broses a pha wersi gâi eu dysgu o roi'r newidiadau mewn arfer ar waith.
- Bod cwblhau archwiliad ariannol 2022/23 erbyn diwedd Tachwedd, 2023 yn parhau'n amcan.

**Penderfynwyd nodi'r sefyllfa ddiweddaraf ynghylch Rhaglen ac Amserlen Archwilio Cymru.**

## 5. STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL 2023-24

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgorffori'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24 i'r Pwyllgor ei ystyried a'i gymeradwyo.

Rhoddodd y Pennaeth Archwilio a Risg rywfaint o wybodaeth gyd-destunol i'r strategaeth gan nodi bod digwyddiadau a chynnwrf byd-eang dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi llunio'r amgylchedd risg i'r Cyngor, oedd yn golygu bod cyflwr o argyfwng wedi datblygu i fod y normal newydd. O ran y dull archwilio, tynnodd sylw at y ffaith y byddai Archwilio Mewnol yn defnyddio dull seiliedig ar risg, yn unol â Safon 2010 Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, gan gysoni gweithgarwch archwilio mewnol â chofrestr risg strategol y Cyngor a chanolbwyntio ar y risgiau cynhenid a raddiwyd yn goch a lle'r oedd y risg weddilliol wedi'i graddio'n goch neu'n oren (roedd rhestr o archwiliadau arfaethedig dan Atodiad A i'r adroddiad). Mabwysiadwyd methodoleg archwilio ystwyth, hefyd, oedd yn caniatáu i'r Archwilwyr Mewnol ymateb i newid wrth i risgiau newydd ddod i'r amlwg neu wrth i flaenoriaethau newid. O ystyried bod seiberddiogelwch a diogelwch data yn parhau i gael eu gweld yn brif fygythiadau mewn arolwg o brif weithredwyr archwilio, roedd Archwilio Mewnol yn cynnig, yn ystod 2023/24, y dylid cynnal rhaglen waith oedd yn cwmpasu'r elfennau TG penodol a nodid yn yr adroddiad gyda chefnogaeth Archwilwyr TG Cyngor Dinas Salford i roi sicrwydd i'r Cyngor y câi ei wendidau TG eu rheoli'n effeithiol. Fel maes risg uchel arall, câi dull y Cyngor o atal twyll ei adolygu'n barhaus a'r Cynllun Ymateb i Dwyll ei ddiweddaru yn unol â hynny. Roedd gwaith archwilio arall, oedd wedi'i gynllunio ar gyfer 2023/24, yn cynnwys rhoi sicrwydd o ran rheoli risgiau partneriaeth ac asesu parodrwydd y Cyngor am y Ddeddf Caffael newydd.

Cyfeiriodd y Pennaeth Archwilio a Risg at nifer staff y Gwasanaeth gan gadarnhau y cafwyd aelod newydd o'r tîm yn sgil ymarfer recriwtio llwyddiannus yn ddiweddar a olygai mai dim ond un swydd wag (yn cyfateb ag un swydd llawn amser) ar lefel yr Uwch-archwiliwr oedd gan y gwasanaeth bellach oherwydd secondiad a ddefnyddid i gomisiynu arbenigedd archwilio allanol. Byddai'r penodiad hefyd yn fodd i ailddechrau gwaith ar rai o'r meysydd blaenoriaeth is oedd yn weddill o 2022/23, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad. Gyda lefel cynhyrchiant o 72%, roedd tua 700 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i roi barn sicrwydd blynyddol. Byddai'r gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn hyfforddiant a datblygiad gyda 115 diwrnod yn cael eu clustnodi i'r perwyl hwnnw yn 2023/24.

Er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, roedd rhaglen sicrhau ansawdd a gwelliant wedi ei sefydlu a chyfres symlach o fesurau perfformiad a thargedau wedi eu mabwysiadu fel y'u hadlewyrchi
d yn y tabl ar dudalen 16 yr adroddiad.

Roedd trafodaeth y Pwyllgor a ddilynodd yn canolbwyntio ar yr isod -

- Y cyfrifoldeb am archwilio partneriaethau'n fewnol. Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg y câi'r cyfrifoldeb archwilio mewnol ei gyflawni gan yr awdurdod lletya mewn perthynas â phartneriaethau awdurdodau lleol. Lle'r oedd partneriaethau'n cynnwys sefydliadau eraill a/neu endidau ar wahân yn absenoldeb adroddiad blynyddol gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, ni allai gadarnhau pwy ymgymerodd â'r swyddogaeth archwilio mewnol yn yr achosion hynny, a dyna oedd y rheswm am y darn arfaethedig o waith gan Archwilio Mewnol ar y sicrwydd a threfniadau llywodraethu partneriaethau neu gydweithrediadau arwyddocaol yr oedd y Cyngor yn ymwneud â nhw.
- O ran y ddeddfwriaeth gaffael newydd, p'run a oedd gwaith rheoli rhaglen/prosiect contractau mawr yn dod o fewn cwmpas Archwilio Mewnol. Wrth gadarnhau eu bod yn gwneud hynny, dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg nad oedd unrhyw waith archwilio prosesau rheoli rhaglenni a phrosiectau mewnol wedi'i gynllunio ar gyfer eleni, er y byddai maes cysylltiedig a gâi ei archwilio yn ymwneud â gwydnwch sefydliadol, sef gallu'r Cyngor i ymateb i wasanaethau allanol newidiadau a'r trefniadau oedd ganddo ar waith i'w helpu i wneud hynny.
- P'run a oedd absenoldeb adroddiad blynyddol o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio'n golygu nad oedd partneriaethau'n cael eu craffu. Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y ffaith nad oedd yna adroddiad blynyddol i'w briodoli i swydd wag ar lefel swyddog craffu, oedd yn golygu na fu'n bosibl cynhyrchu'r adroddiad blynyddol am y ddwy flynedd ddiwethaf ond nad oedd yn golygu na fu craffu ar bartneriaethau o fewn rhaglen y pwyllgor. Yn gyn-aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, cyfeiriodd y Cynghorydd Dafydd Roberts at gofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor oedd ar gael, oedd yn gofnod o'r materion a drafodwyd yn ystod y cyfnod ac oedd wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor.
- O ran y risg strategol na allai' Cyngor addasu i fod yn awdurdod carbon niwtral erbyn 2030, p'run a ddylai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn derbyn gwybodaeth fanylach am y prosesau/trefniadau a fyddai'n fodd i gyflawni'r amcan hwn. Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod Gwiriad Iechyd Newid Hinsawdd gan Zurich Municipal, ynghyd ag adroddiad Archwilio Cymru, ar a oedd y sector cyhoeddus yn barod am garbon sero net erbyn 2030, wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor hwn ym mis Rhagfyr, 2022. Câi diweddariad ar gynnydd y Cyngor wrth weithio tuag at darged 2030 ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin, 2023.

**Penderfynwyd cymeradwyo’r dull a’r blaenoriaethau a amlinellwyd yn y Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2023-24 yn rhai sy’n cyflawni anghenion sicrwydd y Cyngor.**

## 6. ARCHWILIO MEWNOL – Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF

Cyflwynwyd i sylw’r Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a roddai’r wybodaeth ddiweddaraf hyd at 31 Mawrth, 2023 am yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad blaenorol i’r Pwyllgor 31 Ionawr, 2023. Roedd yr adroddiad, hefyd, yn nodi llwyth gwaith presennol Archwilio Mewnol a'i flaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canolig wrth symud ymlaen. Rhoddwyd copïau i aelodau'r Pwyllgor o'r pum darn o waith sicrwydd a gwblhawyd yn y cyfnod mewn perthynas ag Adennill Dyledion y Cyngor ac Effaith Covid-19 (Yr Ail Ddilyniant) (Sicrwydd Cyfyngedig); Cydymffurfiaeth Rheoleiddio Diogelwch Nwy (Tai) (Sicrwydd Rhesymol), Archwiliad TG – Rheoli’r Cwmwl (Sicrwydd Rhesymol); Taliadau cynhaliaeth cyflenwyr a thaliadau dyblyg (Sicrwydd Rhesymol) ac effeithiolrwydd y Cyngor o ran rheoli ei risg strategol YM11 – Tlodi (Sicrwydd Rhesymol) dan yswiriant ar wahân.

Rhoddodd y Pennaeth Archwilio a Risg drosolwg o'r adroddiad gan gynnwys crynodeb o ganlyniad y gwaith a gwblhawyd a'r meysydd gwaith oedd ar y gweill ar hyn o bryd, fel y gwelid yn y tabl ym mharagraff 38 yr adroddiad. Cyfeiriodd at yr Ail adolygiad o’r dilyniant ar Sicrwydd Cyfyngedig mewn perthynas ag Adennill Dyledion y Cyngor ac Effaith Covid-19 oedd wedi ceisio sefydlu a oedd y rheolwyr wedi mynd i'r afael â'r materion/risg oedd yn disgwyl sylw ac a godwyd yn yr adroddiad Sicrwydd Cyfyngedig, dyddiedig Tachwedd, 2021. Er i’r adolygiad ganfod fod y Gwasanaeth wedi gwneud rhywfaint o gynnydd cadarnhaol, ni allai’r Archwilwyr Mewnol gynyddu’r sgôr sicrwydd o Cyfyngedig oherwydd bod y cwmni ymgynghori TG a gomisiynwyd i weithio gyda’r Gwasanaeth i fynd i’r afael â’r materion a’r risgiau a godwyd a gwella prosesau o fewn yr adran Incwm wedi cael eu symud i weithio ar uwchraddio system Capita Revenue. Cadarnhaodd fod Uwch-archwilydd newydd wedi’i benodi ac wedi dechrau yn ei swydd 1 Ebrill, 2023. Dywedodd y câi'r arbedion cyllidebol o’r un swydd wag oedd yn weddill ar lefel yr Uwch-archwiliwr eu defnyddio i gomisiynu cymorth allanol, gan gynnwys gwaith archwilio TG technegol gan Dîm Archwilio yng Nghyngor Salford. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi gwasanaethau i roi'r holl gamau gweithredu oedd yn disgwyl sylw ar waith, gan gyflwyno gwybodaeth fanylach am statws y camau gweithredu oedd yn disgwyl sylw mewn adroddiad ar wahân i'r cyfarfod.

Gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y sefyllfa gyda dyledion drwg yng nghyd-destun adroddiad yr ail Ddilyniant (Sicrwydd Cyfyngedig) ar Adennill Dyled y Cyngor ac Effaith Covid-19.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y bu gostyngiad bychan yn Nhreth y Cyngor a gasglwyd yn ystod y flwyddyn oherwydd yr argyfwng costau byw, yn ôl pob tebyg. Nid proses blwyddyn oedd casglu Treth y Cyngor, o gymryd i ystyriaeth yr ystod o gamau adennill a gorfodi a'r amser yr oedd y rheiny'n ei gymryd i'w gweithredu. Fodd bynnag, nid oedd y gosb o garchar a weithredid pe bai pob opsiwn arall yn methu, ar gael yng Nghymru bellach ac roedd wedi'i gwneud hi'n anoddach fyth ymdrin â dyledion problemus. Roedd y Cyngor, yn gynyddol, wedi cyflwyno taliadau ar-lein ymlaen llaw am wasanaethau, gan gynnwys casglu gwastraff gardd gwyrdd a ffioedd cynllunio ac er bod yna ddyledion oedd yn dal yn anodd eu casglu, megis ffioedd gofal cymdeithasol a gordaliadau budd-daliadau tai, nid oedd y Cyngor wedi gweld cynnydd sylweddol mewn dyled hyd yn hyn. Roedd ailstrwythuro’r drefn staffio wedi arwain at greu swydd Rheolwr Adfer benodedig ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i wneud y broses adennill incwm trwy ei holl gamau yn fwy effeithlon ac effeithiol, gan gynnwys gwella dangosyddion perfformiad y gwasanaeth. Mewn ymateb i ymholiad pellach ynglŷn â chyllideb ar gyfer dyledion drwg, eglurodd y Swyddog Adran 151, o ran Treth y Cyngor, bod sylfaen y dreth wedi’i gosod ar 98.5% o’r cyfanswm oedd yn caniatáu ar gyfer darpariaeth o 1.5% i warchod rhag dyledion

DRAFT

drwg, yn ogystal â newidiadau yn y flwyddyn o ran gostyngiadau ac eithriadau, er nad oedd cyllideb benodol fel y cyfryw. Gan y câi ardrethi annomestig eu cronni'n ganolog, y gronfa yn hytrach na'r Cyngor oedd yn dioddef y golled am beidio â thalu a châi mân ddyledion eraill eu hadlewyrchu yng nghyllidebau incwm gwasanaethau pan osodid y rheiny.

**Penderfynwyd derbyn y diweddariad a nodi darpariaeth sicrwydd a blaenoriaethau Archwilio Mewnol ar gyfer y dyfodol.**

## 7. MATERION A RISGIAU SY'N DISGWYL SYLW

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg ar y cynnydd o ran mynd i'r afael â materion a risgiau oedd yn disgwyl sylw.

Dywedodd y Prif Archwilydd wrth y Pwyllgor am yr isod -

- Roedd 49 o gamau gweithredu oedd yn disgwyl sylw yn cael eu holrhain yn y system pedwar cam hyd at 31 Mawrth, 2023, gyda 12 ohonynt wedi'u graddio'n "bwysig" (ambr) a 37 yn "gymedrol" (melyn) mewn blaenoriaeth risg. Ni chodwyd unrhyw faterion/risgiau "coch" yn ystod y flwyddyn ac nid oedd yr un ohonynt yn disgwyl sylw ar hyn o bryd.
- Roedd un mater/risg mawr â sgôr, bellach, yn hwyr ac roedd yn ymwneud ag archwilio dyraniadau Tai, yn benodol i ddatblygu a gwella'r broses ymgeisio am dai.
- Bod Graff 3 yn yr adroddiad yn dangos statws yr holl gamau gweithredu oedd yn disgwyl sylw, waeth pryd oedd y dyddiad rhoi sylw iddynt ac yn dangos bod y rheolwyr bellach wedi mynd i'r afael â 73% a bod Archwilio Mewnol wedi gwirio 70% gyda'r 3% oedd yn disgwyl sylw yn ymwneud ag archwilio gwaith Rheoli Trwydded Meddalwedd a gâi ei ddilyn i fyny ym mis Ebrill, 2023.
- Roedd y rhan fwyaf o'r camau gweithredu oedd yn dangos nad oeddynt wedi'u dechrau yn ymwneud â sawl archwiliad a gwblhawyd yn ddiweddar, lle nad oedd y camau gweithredu a nodwyd wedi cyrraedd eu dyddiadau cwblhau disgwyliedig eto.
- Roedd Graff 4 yn dangos statws yr holl gamau gweithredu oedd wedi cyrraedd eu dyddiad targed ac yn dangos yr aethpwyd i'r afael â 99% lle'r oedd angen.
- O'r 49 o faterion/risgiau oedd yn disgwyl sylw, roedd un oedd wedi'i raddio'n gymedrol neu'n felyn mewn blaenoriaeth risg yn dyddio'n ôl i 2018/19 ac yn ymwneud â gwella gosodiadau cymhlethdod cyfrinair ar gyfer system archebu Hamdden allanol y Cyngor. Bu oedi wrth gytuno ar ddyddiad i fynd yn fyw gyda'r cyflenwr meddalwedd oherwydd materion technegol yr oedd y tîm TG yn gweithio i'w datrys gyda'r cyflenwr.
- Roedd diweddariad statws manwl o bob un o'r 12 mater/risg fawr oedd yn disgwyl sylw yn cael eu holrhain ar hyn o bryd mewn pedwar cam, i'w gweld yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth (Tai Cymunedol) y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y sefyllfa o ran mynd i'r afael â'r materion/risgiau a nodwyd mewn archwiliad o'r broses Ceisiadau Tai ym mis Medi, 2021 lle 50% yn unig ohonynt oedd wedi'u cwblhau ac oedd 12 mis dros y dyddiad targed gwreiddiol, sef Mawrth, 2022. Eglurodd y Swyddog fod y ffurflen gais bapur a anfonwyd at ddarpar ymgeiswyr am dai yn hir a manwl a chanfu'r archwiliad fod y broses ymgeisio yn cymryd llawer o amser a'i fod yn aneffeithlon. Argymhellodd y dylid defnyddio'r system ar-lein yn ei lle. Er mai'r nod oedd ymgorffori'r broses o fewn system CRM oedd newydd ei lansio gan y Cyngor, roedd y Gwasanaeth TG yn awyddus i sicrhau bod y system newydd wedi'i gwreiddio'n llawn, yn gweithio'n effeithiol a bod unrhyw broblemau cychwynnol yn cael eu datrys cyn ychwanegu swyddogaethau newydd ati. Roedd y Gwasanaeth Tai yn bwriadu datblygu cais PDF yn fuan lle gallai ymgeiswyr drosysgrifo ar y ffurflen PDF ac, er bod y broses ymgeisio ar bapur yn dal i gael ei defnyddio ar hyn o bryd, roedd y ffurflen gais yn sylweddol llai ers hynny o ran ei hyd a'i chymhlethdod. Gan ddibynnu

ar ba mor dda yr oeddid yn bwrw ymlaen gyda'r CRM, ei gobaith oedd y gellid mynd i'r afael â'r mater o fewn y chwe mis nesaf. Yn y cyfamser, roedd y Gwasanaeth yn gallu cynorthwyo unrhyw un oedd yn cael anhawster i wneud cais i gael eu cynnwys ar y gofrestr tai.

Gan ymateb i ymholiad am ragolygon y broses Ceisiadau Tai'n mynd ar y platfform CRM unrhyw bryd yn fuan, dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y ffurflen adrodd ar dwyll ymhlith y ceisiadau oedd yn aros i gael eu hychwanegu at y system CRM ar hyn o bryd a'i bod yn cyfarfod â TG yn ystod yr wythnos nesaf i drafod y mater a deall y sefyllfa.

**Penderfynwyd nodi cynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r Materion/Risgiau Archwilio Mewnol oedd yn disgwyl sylw.**

## 8. ADOLYGU'R FFRAMWAITH RHEOLI RISG

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgorffori Polisi a Strategaeth Rheoli Risg newydd arfaethedig ynghyd â Chanllawiau Rheoli Risg cysylltiedig.

Cyfeiriodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant at brif agweddau'r Polisi Rheoli Risg oedd yn cydnabod y gall risgiau gael effaith ar nodau, amcanion a darpariaeth gwasanaeth; eu bod yn fygythiad a, hefyd, yn darparu cyfleoedd a bod angen eu hadnabod a'u rheoli er mwyn llywio'r broses gwneud penderfyniadau. Roedd y Strategaeth Rheoli Risg yn egluro sut y câi'r polisi ei gyflawni ac yn nodi'r datganiad o ran bod yn barod i dderbyn risg, sef lefel y risg yr oedd y Tîm Arwain yn teimlo bod y Cyngor yn ceisio gweithredu oddi mewn iddi. Roedd y Canllawiau Rheoli Risg yn rhoi manylion y broses i'w dilyn ac yn egluro'r gwahanol ystyriaethau oedd eu hangen, gan ddibynnu ar natur y risg. Roedd y canllawiau'n cynnwys adran newydd ar agweddau cadarnhaol neu gyfleoedd risg. Roedd fersiwn newydd o'r feddalwedd rheoli risg yn cael ei chyflwyno, oedd hefyd yn golygu newid yn y ffordd y câi risg ei sgorio o'r dull alffa-rifol o sgorio risgiau i'r dull rhifol traddodiadol, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Wrth ystyried y dogfennau'r oedd y Pwyllgor yn cydnabod eu bod yn gynhwysfawr, codwyd y pwyntiau a ganlyn -

- Ystod y gosodiadau parodrwydd i dderbyn risg ar gyfer y gwahanol gategorïau risg yn y Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg a sut y penderfynwyd ar y rhain. Dywedodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant y gofynnwyd i bob aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol werthuso'n unigol y parodrwydd i dderbyn risg ar gyfer pob categori risg. Wedi hynny, casglwyd y wybodaeth a ddeilliodd o hynny, diystyrwyd y gwerthoedd uchaf ac isaf a chymerwyd gwerth canolrif y gweddill a gynhyrchodd y gwerthoedd, fel y'u nodir yn y datganiad parodrwydd i dderbyn risg.
- Y dull a ddefnyddid i reoli risg contract, yn enwedig y rhai yn y sector adeiladu er mwyn lleihau'r risg o golledion ariannol a gorwariant. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod contractau adeiladu y mae'r Cyngor yn ymrwymo iddynt yn seiliedig ar asesiad o allu contractwr i gyflawni yn ogystal ag ystyriaethau pris a gwerth am arian ac y gwneid gwiriadau diwydrwydd dyladwy. Roedd rheolaethau lliniarol fel arfer ar ffurf bond perfformiad oedd yn cwmpasu cost ail-dendro ac unrhyw gostau uwch a godai o hynny pe na fyddai contractwr yn gallu cwblhau prosiect. Cyflawni lefel o wariant cyfalaf yn unol â dyheadau'r Cyngor e.e. gall adeiladu 45 o gartrefi cyngor newydd bob blwyddyn fod yn anodd oherwydd problemau capasiti contractwyr lleol ac roedd ymgysylltu â chontractwyr o ymhellach i ffwrdd, fel arfer, yn golygu costau uwch. Roedd y Cyngor yn ceisio gweithio gyda chontractwyr lleol mewn ysbryd partneriaid contract ac fel ffynhonnell fusnes tymor hir dibynadwy.
- Y diffyg cyfeiriad yn y Strategaeth Rheoli Risg at ddysgu gwersi o risgiau oedd wedi dod i'r amlwg a sut y câi hynny ei gyfathrebu a'i gymhwyso ar draws y Cyngor. Wrth

gydnabod y pwynt, dywedodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant fod dysgu o risgiau yn rhan o'r broses reoli ond y câi ystyriaeth ei rhoi i egluro'r agwedd honno yn y strategaeth.

**Penderfynwyd nodi'r Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risg.**

**9. Y FLAENRAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd, i'w ystyried a'i adolygu, adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgorffori'r Blaenraglen Waith arfaethedig ar gyfer 2023/24, yn seiliedig ar gylch gorchwyl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ynghyd â rhaglen hyfforddi.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch amserlennu hyfforddiant newid hinsawdd, dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y pecyn hyfforddi newid hinsawdd yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau'r ffordd orau o gyflawni'r amcanion hyfforddi.

**Penderfynwyd derbyn bod y Blaenraglen Waith arfaethedig yn bodloni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.**

**Mr Dilwyn Evans**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 23 Mai 2023

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Margaret Murley Roberts, Geraint Bebb, T Ll Hughes MBE, Dyfed Wyn Jones, Euryn Morris, Dafydd Roberts, Keith Roberts<br><br>Aelodau Lleyg – Mr Dilwyn Evans, Mr William Parry, Mrs Sharon Warnes |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Democrataidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Liz Wood |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Y Cynghorydd Margaret M Roberts – Cadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd Mr Dilwyn Evans yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**3 ETHOL DIRPRWY GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Euryn Morris yn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**Y CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS**
**FEL CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 29 Gorffennaf 2023 |
| **Pwnc / Testun:** | Hunan Asesiad Corfforaethol 2023 |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn AD a Trawsnewid<br>01248 752502<br>CarysEdwards@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Gethin Morgan<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Perfformiad<br>01248 752511<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |

**Natur a Rheswm dros Adrodd:**

Dyma'r ail Hunanasesiad a gynhaliwyd gan y Cyngor Sir yn dilyn mabwysiadu'r cyntaf ym mis Medi 2022.

Fel rhan o ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 cydnabyddir y dyletswydd canlynol ar Gyngor Sir Ynys Môn –

**... i adolygu ei berfformiad yn barhaus**

(1) Rhaid i brif gyngor adolygu'n barhaus i ba raddau—

(a) y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol,
(b) y mae'n defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol, ac
(c) y mae ei drefniadau llywodraethu yn effeithiol o ran cyflawni'r materion a nodir ym mharagraffau (a) a (b) uchod
**ac, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol,**

lunio adroddiad sy'n nodi ei gasgliadau ynglŷn ag i ba raddau y gwnaeth fodloni'r gofynion perfformiad ((a), (b) & (c) uchod) yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

I ddiwallu'r disgwyliad uchod, yr hyn sydd wrth law yw Hunan-Asesiad 2023 y Cyngor Sir. Mae'n tystiolaethu allbwn y fframwaith cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad y Cyngor Sir ac yn ddiweddglo proses sydd yn cyd-blethu amryw o wahanol agweddau at ei gilydd.

Yn ystod eu trafodaeth ar gynnydd Meusydd Gwelliant Hunan-Aseiad 2022 yn eu cyfarfod ar 19 Ebrill 2023, cytunodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'r cynnig y dylid parhau â rhai camau gwella nad oeddent wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn yn yr adroddiad drafft o dan ystyriaeth heddiw.

Cytunodd y Cyngor ar y 23 Mai i fabwysiadu'r fersiwn hon fel drafft gweithredol ac mae'n gofyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried ei gynnwys.

## Argymhelliad

1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu'r Hunanasesiad drafft a naill ai'n cytuno â'r cynnwys neu'n cynnig diwygiadau iddo, i'w ystyried gan y Cyngor llawn ar 12 Medi 2022 pan fydd y Cyngor yn mabwysiadu'r adroddiad terfynol.

# Hunanasesiad - 2023

Hunanasesiad y Cyngor Sir, fel y disgwylir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021

DRAFFT

**Paratowyd gan –** Y Gwasanaeth Trawsnewid

**Dyddiad Cyhoeddi:** Ebrill 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

## Hunanasesiad y Cyngor o ganlyniad i –

## Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth (APGau) / Adroddiadau Perfformiad / Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) / Adolygiadau Allanol / Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

| Categori'r Hunanasesiad | Perfformiad | Rhesymeg |
|---|---|---|
| Rheoli Perfformiad | Da | Perfformiad da yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol sydd wedi'u hamlygu yn yr Adroddiad Cerdyn Sgorio Corfforaethol chwarterol<br><br>Darpariaeth gwasanaeth i gwsmeriaid sy'n cael ei wella a'i foderneiddio'n barhaus drwy'r CRM newydd |
| Defnyddio Adnoddau | Da | Cynnydd islaw chwyddiant yn y Dreth Gyngor, cyllideb gytbwys a balansau iach yn ystod yr argyfwng costau byw presennol<br><br>Cydweithio i wella'r raddfa ragorol yn ystod y flwyddyn flaenorol |
| Rheoli Risg | Da | Nifer o adroddiadau cadarnhaol gan arolygwyr allanol ar ddarpariaeth y Cyngor drwyddo draw yn cynnwys Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Archwilio<br><br>Strategaeth rheoli risg newydd ar waith |

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu ail hunanasesiad Cyngor Sir Ynys Môn fel y disgwylir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'n adlewyrchu allbwn y fframwaith cynllunio a rheoli perfformiad corfforaethol ac yn darparu sail dystiolaethol o ran -

- y modd y mae'r Cyngor wedi perfformio
- gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddo wrth
- reoli a llinau risgiau cysylltiedig

yn ystod cyfnod heriol ac ansicr i lywodraeth leol.

Bwriad y fframwaith perfformiad a llywodraethu cenedlaethol newydd yw cefnogi newid diwylliannol a sefydliadol o fewn llywodraeth leol. Y nod yw adeiladu ar gryfderau presennol a chreu sector mwy arloesol, agored, gonest, tryloyw ac uchelgeisiol, sy'n herio ei hun, a lle mae cynghorau ar y cyd yn mynd ati i wella canlyniadau a safonau mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt ledled Cymru. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod ac yn cadw at ddisgwyliadau o'r fath ac mae'r adroddiad hwn wedi cael ei ddrafftio felly.

Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion perfformiad', hynny yw, i ba raddau:

- y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
- y mae'n defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- y mae ei lywodraethiant yn effeithiol er mwyn cyflawni'r uchod.

Yr asesiad y llynedd oedd ein hasesiad cyntaf, ac mae camau breision wedi cael eu cymryd yn ystod 2022 i gyflawni'r gwelliannau cysylltiedig. Mae hyn yn galonogol ac yn dangos aeddfedrwydd y trafodaethau gwleidyddol a gweithredol a aeth rhagddynt yn gyflym yn ystod blwyddyn lle cafodd Tîm Arweinyddiaeth newydd ei sefydlu o fewn y Cyngor ynghyd â gweinyddiaeth newydd (clymblaid) dan arweiniad Plaid Cymru.  Mae'r gwelliannau cysylltiedig i'w gweld mewn adroddiad diweddar a gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ym mis Ebrill 2023.

Ar ôl ystyried yr adroddiad cydnabuwyd y bydd y ffrydiau gwaith canlynol yn parhau i gael eu gyrru yn eu blaen a'u datblygu fel rhan o'r Hunanasesiad hwn yn 2023 -

**Rheoli Perfformiad** -

- Gwella'r dangosydd o ran canran y gwastraff a gaiff ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, a chyflawni targedau Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl

- Defnyddio meddalwedd i ddod yn fwy ymwybodol o ddata ac yn fwy gwybodus i wneud penderfyniadau hyd yn oed mwy effeithiol yn seiliedig ar dystiolaeth

- Moderneiddio ein dulliau gweithio, o wasanaethau i gwsmeriaid i brofiad mwy cyflawn i gwsmeriaid

- Datblygu modd i gyfathrebu perfformiad y Cyngor i gynulleidfa ehangach o ran staff

DRAFT

**Defnyddio Adnoddau** -

- Lleihau'r achosion o fethu â chwblhau gwaith ar yr hawliadau Cymhorthdal Budd-dal Tai yn y dyfodol trwy gytuno ar amserlen gyda'r archwilwyr allanol, ynghyd ag adolygu capasiti o ran staff

- Rhoi mwy o gyfleoedd i breswylwyr a rhanddeiliaid i sicrhau y clywir eu llais trwy fabwysiadu strategaeth cyfranogiad y cyhoedd sydd wedi'i hadolygu a'i hailwampio ar gyfer y cyfnod ar ôl y pandemig

**Rheoli Risg** -

- Gweithredu'r model 'tair llinell sicrwydd' fel un dull o gasglu gwybodaeth i gynorthwyo i fapio sicrwydd i'r Cyngor

Wrth ddod i gasgliadau ynglŷn â'r asesiad ar gyfer eleni, unwaith eto fe ddefnyddiodd y Cyngor elfennau craidd y Fframwaith Cynllunio a Rheoli Perfformiad Corfforaethol (CPPMF), ac roedd swyddogaeth a phwrpas y broses adolygu perfformiad gwasanaethau yn greiddiol i'r trefniadau llywodraethu corfforaethol cryf a fabwysiadwyd.

Mae hunanwerthuso'n rhan annatod o unrhyw broses sydd ar waith i wella sefydliad, a'i brif bwrpas yw gweithredu fel modd o hunan sicrhau; fodd bynnag, cydnabyddir o fewn Cyngor Sir Ynys Môn, trwy hunanwerthuso mewn modd effeithiol, y gall hefyd roi sicrwydd i gynulleidfaoedd allanol, gan gynnwys partneriaid, rheoleiddwyr ac, yn wir, preswylwyr.

Gofynnwyd i bob Gwasanaeth (y mae gan Gyngor Sir Ynys Môn naw ohonynt) gwblhau hunanasesiad - gan sgorio eu perfformiad yn ôl meysydd a nodwyd yr ystyriwyd eu bod yn bwysig o ran mesur perfformiad cyffredinol gwasanaethau. Gofynnwyd iddynt werthuso eu perfformiad yn erbyn y pedwar maen prawf isod ac wedi hynny cawsant eu herio ynghylch eu canfyddiadau gan grŵp o swyddogion ac aelodau etholedig::

1. Rhagorol – Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arferion rhagorol
2. yn y sector
3. Da – Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol
4. Digonol – Cryfderau yn gorbwyso'r meysydd i'w gwella
5. Anfoddhaol – Meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Trwy gydol y naw mlynedd diwethaf, bu'r Cyngor yn gwella ac yn aeddfedu'r modd y mae'n esblygu'r fframwaith rheoli perfformiad.

Mae'r hunanasesiad hwn yn crynhoi casgliad y gwaith hwnnw ar gyfer 2022/23, ac yn gwerthuso perfformiad cyffredinol y Cyngor, drwy ateb y cwestiynau canlynol yn y modd mwyaf syml -

- Sut hwyl ydym ni'n ei gael arni?
- Sut ydym ni'n gwybod hynny?
- Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

DRAFT

# A. Rheoli Perfformiad?

## Sut hwyl ydym ni'n ei gael arni?

Er mwyn cael darlun trylwyr, teg a chyflawn o ansawdd rheoli perfformiad o fewn y Cyngor, bydd yr adran hon o'r hunanasesiad yn dwyn ynghyd gwybodaeth am Adroddiadau Perfformiad, Gwasanaethau i Gwsmeriaid, a Llywodraethu a Chydymffurfiaeth. Trwy ddod â'r rhain ynghyd fel tystiolaeth yn 2022, mae ein perfformiad fel sefydliad, ein hawch i reoli newid ynghyd â'r gwelliannau diwylliannol yr ydym ni wedi'u mabwysiadu yn cefnogi'r casgliad cyffredinol bod y Cyngor Sir yn perfformio'n dda.

## Sut ydym ni'n gwybod hynny?

Mae tystiolaeth o'r adroddiadau a'r gweithgareddau a ganlyn a gyflawnwyd trwy gydol y flwyddyn yn dangos canlyniadau cadarnhaol ac yn pwysleisio'r diwylliant o lwyddo sydd wedi'i ymgorffori ar draws gweithlu sydd wedi gorfod ymdopi â mwy o bwysau gwaith a disgwyliadau uwch:

- Yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol - nodi'r perfformiad da yn erbyn y Cynllun Trosiannol
- Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Cod Llywodraethu Lleol - yn nodi nad oedd unrhyw faterion llywodraethu arwyddocaol wedi'u nodi
- Adolygiadau Gwasanaeth (allbynnau) - yn nodi meysydd i'w gwella yn ogystal â llawer o feysydd o arfer dda
- Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn 2021/22 - mae'r adroddiad yn amlinellu llawer o brosiectau cydweithredol y mae'r Cyngor wedi cyfrannu atynt yn ystod y flwyddyn
- Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar effeithlonrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22 - mae'r adroddiad yn nodi llawer o ganfyddiadau allweddol ac enghreifftiau o waith da a gyflawnwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Adroddiad Cynnydd ar y Gwasanaethau Cymdeithasol - yn cadarnhau bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn hapus gyda chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Canlyniadau arolwg STAR 2021 - nodi boddhad tenantiaid ac argymhellion ar gyfer gwella
- Adroddiadau Chwarterol ar y Cerdyn Sgorio - yn mesur perfformiad yn erbyn Amcanion Llesiant y Cyngor ac yn cynnwys enghreifftiau cadarnhaol o berfformiad yn ogystal â chydnabod dangosyddion sy'n tanberfformio a'u mesurau lliniaru cysylltiedig ar gyfer gwella
- Lefelau presenoldeb y staff - ymysg y gorau wedi'i feincnodi yn erbyn Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru

Mae'r adroddiadau hyn yn dangos bod dangosyddion perfformiad allweddol yn gweithredu ar lefel briodol a chadarn. Mae cydymffurfiaeth staff â pholisïau a gweithdrefnau wedi gwella. Mae cydymffurfiaeth staff â hyfforddiant e-ddysgu hefyd wedi gwella tra bod cyfarfodydd ffurfiol y Cyngor yn cael eu darlledu ac mae'r 'sgwrs flynyddol' wedi'i hymgorffori ymhellach. Mae gennym hefyd dystiolaeth bod profiad y cwsmer yn gwella ar draws llu o wasanaethau.

Gallwn hefyd gadarnhau bod y pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn fodlon â'r cynnydd a'r gwelliannau hyd yma o ran y Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd â pherfformiad cyfredol y Cyngor yn dilyn adroddiadau cadarnhaol gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW). Mae'r adroddiad Estyn yn nodi bod ansawdd ac effeithiolrwydd cadarn arweinwyr y Gwasanaeth Dysgu o fewn awdurdod Ynys Môn yn cyfrannu'n effeithiol iawn tuag at sicrhau gwasanaethau addysg o safon uchel.



DRAFFT

Hefyd, bydd Cynllun newydd y Cyngor Sir yn arwain a chyfeirio'r sefydliad am gyfnod o bum mlynedd rhwng 2023-2028. Cafodd y Cynllun hwn ei ddatblygu a'i fabwysiadu yn dilyn ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori gynhwysfawr gyda thrigolion, partneriaid, staff ac aelodau etholedig newydd er mwyn cael eu barn a'u cynnwys.

## Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

Er bod hon yn stori gadarnhaol sy'n crynhoi'r ethos sy'n cael ei ddatblygu o dan Dîm Arweinyddiaeth a deinamig gwleidyddol newydd, mae'r Cyngor yn cydnabod bod ganddo bob amser le i wella. Mae'r gwelliannau a nodwyd ar gyfer 23/24 fel a ganlyn:

1. Adolygu a diwygio'r cerdyn sgorio corfforaethol i nodi'r dangosyddion perthnasol a blaenoriaethau a fydd yn cael eu tracio a'u rheoli yn ystod cyfnod y weinyddiaeth bresennol
2. Gwella'r dangosydd o ran canran y gwastraff a gaiff ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, a chyflawni targedau Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl, yn ogystal ag adolygu a diwygio'r Cynllun Gwella Cynllunio i sicrhau newid cynaliadwy i'r dyfodol
3. Defnyddio meddalwedd i ddod yn fwy ymwybodol o ddata ac yn fwy gwybodus i wneud penderfyniadau hyd yn oed mwy effeithiol yn seiliedig ar dystiolaeth a thrwy ddefnyddio data o'r fath, cyfathrebu'n effeithiol â staff yr Awdurdod ynglŷn â lefelau perfformiad
4. Parhau i foderneiddio ein dulliau gweithio, o wasanaethau i gwsmeriaid i brofiad mwy cyflawn i gwsmeriaid
5. Adolygu a diwygio'r broses adolygiadau gwasanaeth i sicrhau ei bod yn gyfredol ac yn cyd-fynd â disgwyliadau'r Hunanasesiad Corfforaethol

DRAFT

# B. Defnyddio Adnoddau

## Sut hwyl ydym ni'n ei gael arni?

Er mwyn cwrdd â'i gyfrifoldeb i ddefnyddio ei adnoddau'n ddarbodus ac effeithlon, mae'r Cyngor yn rhannu gwybodaeth ynglŷn â'r modd y mae'n rheoli ei bersonél, ei arian a'i bartneriaethau er mwyn cyrraedd y nod. Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn dangos perfformiad cadarn a llwyddiannus y Cyngor, yn enwedig wrth ymdopi ag argyfwng costau byw heriol

## Sut ydym ni'n gwybod hynny?

Roedd argyfwng y coronafeirws, yn gyfle i sefydliadau ddod ynghyd er lles y bobl. Mae'r argyfwng costau byw hefyd yn golygu costau uwch i bawb, yn cynnwys y Cyngor. Mewn ymateb mae'r Cyngor wedi mynd ati i wella ei bartneriaethau gwaith, cynllunio'n dda ar gyfer yr heriau o ran y gweithlu a rhoi nifer o fentrau arbed arian ar waith ers nifer o flynyddoedd ac felly er ei fod wedi dioddef ergyd ariannol, mae'r Cyngor mewn gwell sefyllfa na nifer o gynghorau eraill ar yr adeg hon. Mae tystiolaeth ar gael drwy'r ffynonellau isod:

- Presenoldeb staff – ymysg y gorau wedi'i feincnodi yn erbyn Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru
- Cadw staff – trosiant yn is na'r safon ar gyfer y diwydiant, sef 8%
- Cynlluniau Datblygu ar gyfer y Gweithlu – cynlluniau yn eu lle ar gyfer pob gwasanaeth
- Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2023/24 - Mae sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn dal yn weddol gryf
- Y Datganiad o Gyfrifon - Cyfrifon terfynol ar gyfer 2021/22 yn cael eu cyhoeddi cyn y dyddiad cau
- Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Cod Llywodraethu Lleol - cyhoeddi yn unol â gofynion CIPFA ochr yn ochr â'r datganiad o gyfrifon, a'r Cod Llywodraethu Lleol sydd mewn lle
- Gwobrau Tai Cymru 2021 – Prosiectau Amgylcheddol Unigol a Grantiau Cartrefi Gwag i Brynwyr Tro Cyntaf, Gwobrau Rhagoriaeth Adeiladu Cymru - Cydnabyddiaeth Genedlaethol i'r gwasanaethau tai yn 2021/22
- Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn 2021/22 - mae'r adroddiad yn amlinellu llawer o brosiectau cydweithredol y mae'r Cyngor wedi cyfrannu atynt yn ystod y flwyddyn
- Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar effeithlonrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22 - mae'r adroddiad yn nodi llawer o ganfyddiadau allweddol ac enghreifftiau o waith da a gyflawnwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Arolwg Estyn o Gyngor Sir Ynys Môn - llawer o enghreifftiau o waith da neu well yn cael ei wneud gan y Cyngor fel y nodwyd gan Estyn
- Arolygiaeth Gofal Cymru – Arolwg Gwerthuso Perfformiad - amlygir llawer o enghreifftiau cadarnhaol drwy gydol yr adroddiad gan AGC

Mae'n amlwg bod gwasanaethau o'r farn bod eu dull cydweithredol ac integredig o weithio a darparu gwasanaethau er lles pob Ynys Môn yn rhagorol fel y gwelir yn y matrics isod. Hefyd, mae'r sylwadau canlynol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiadau uchod yn cefnogi'r casgliad hwn–

*"Mae ansawdd ac effeithiolrwydd cadarn arweinwyr y Gwasanaeth Dysgu o fewn awdurdod Ynys Môn yn cyfrannu'n effeithiol iawn tuag at sicrhau gwasanaethau addysg o safon uchel. Maent yn gosod disgwyliadau uchel, yn arwain timau'n effeithiol ac yn cydweithio'n dda i yrru blaenoriaethau strategol.*

DRAFT

*Mae'r modd y mae arweinwyr, swyddogion ac adrannau gwahanol yr awdurdod yn ystyried y tymor hir ac yn gweithio yn agos iawn gydag ysgolion a phartneriaid allanol a'i gilydd yn nodwedd gref.*

*Mae gweledigaeth glir ynglŷn â gwella ansawdd addysg ac mae cyllidebau addysg wedi eu gwarchod rhag toriadau o gymharu ag adrannau eraill o fewn yr awdurdod."* Arolwg Estyn o Gyngor Sir Ynys Môn

"*Mae lleihau'r angen am ofal a chymorth ffurfiol yn amlwg yn flaenoriaeth gan GSYM a gwelwyd cyd weithio llwyddiannus ar lefel strategol i yrru'r agenda ataliol yn ei blaen.*

*Mae brwdfrydedd a pharodrwydd CSYM i weithio gyda phartneriaid yn gryf. Clywyd am sawl lwyddiant o gyd weithio â phartneriaid ar lefel strategol gyda chynlluniau wedyn yn cael eu gwireddu ar lefel weithredol er budd unigolion. Gwelwyd enghreifftiau da o gydweithio ar lefel weithredol.*"
Arolygiaeth Gofal Cymru – Arolwg Gwerthuso Perfformiad

*"Mae nifer o awdurdodau lleol yn canolbwyntio'u hymdrechion ar grynhoi capasiti cymunedol a grymuso cymunedau i adnabod eu hanghenion a'u blaenoriaethau eu hunain a chynhyrchu datrysiadau dichonadwy. Enghraifft dda o hyn yw gwaith Cyngor Sir Ynys Môn gyda Medrwn Môn, asiantaeth annibynnol sy'n rhoi cymorth a chyngor i fudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol. Dan y fenter 'rhwydwaith o gynghreiriau', mae Medrwn Môn yn helpu i greu system o gynghreiriau lleol ledled yr ynys a gaiff eu grymuso i adnabod y problemau yn eu hardal, yr asedau sydd ar gael i helpu i fynd i'r afael â'r problemau hyn a'r datrysiadau y mae eu hangen i fynd i'r afael â hwy."*
Archwilio Cymru, 'Gyda'n gilydd fe allwn ni' Cydnerthedd a Hunanddibyniaeth cymunedau

*"Mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod yn 'methu â newid y byd ar ei ben ei hun' ac mae wrthi'n frwd yn ceisio partneru gyda sefydliadau a all ei helpu i ddwyn manteision gwirioneddol, ond mae'n cydnabod bod rhai partneriaethau'n darparu mwy o werth ychwanegol na'i gilydd."* Archwilio Cymru, Llamu Ymlaen

Mae sylwadau sy'n cefnogi ein defnydd da o adnoddau yn gyffredinol wedi'u nodi isod -

*"Clywsom neges gyson ganmoladwy gan y gweithlu am ansawdd yr arweinyddiaeth a'r diwylliant ar draws gwasanaethau plant ac oedolion. Clywsom fod rheolwyr yn weledol, hygyrch ac yn rhoi cyngor dibynadwy a rheolaidd, a bod cyfleoedd i ddatblygu yn broffesiynol … Mae'r nifer o weithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol oddi mewn i'r gwasanaethau yn bositif, gyda llai o drosiant na'r targed corfforaethol … Mae ymrwymiad CSYM i ddarparu gwasanaeth drwy'r iaith Gymraeg yn bositif. Gwelsom dystiolaeth gyson a chadarnhaol fod pobl yn cael y "Cynnig Gweithredol" i siarad Cymraeg, a bod dymuniadau pobl yn cael eu cymryd i ystyriaeth o ran eu dewis iaith."* Arolygiaeth Gofal Cymru - Arolwg Gwerthuso Perfformiad

"*Mae gan y Cyngor weledigaeth a themâu cyflawni allweddol ar gyfer ei weithlu a all gael eu cryfhau trwy ystyriaeth mwy amlwg o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy gwreiddio ymhellach y gwersi a ddysgwyd o'r pandemig … Mae'r Cyngor o'r farn bod rheoli'r gweithlu'n effeithiol yn bwysicach nag erioed, yn enwedig yn ystod ac ar ôl y pandemig ac mae sicrhau parhad busnes yn rhan hanfodol o ddylunio gwasanaethau cydnerth.."* Archwilio Cymru, Llamu Ymlaen

## Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

Er bod yr uchod yn enghreifftiau cadarnhaol o berfformiad da o ran y modd y mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau ac yn gweithio mewn partneriaeth, mae'r gwelliannau a nodwyd ar gyfer 23/24 fel a ganlyn:

1. Gweithio gyda phartneriaid i liniaru effaith yr argyfwng costau byw ac amddiffyn y rheiny sydd mewn tlodi
2. Lleihau costau trydan ac ynni ledled y Cyngor a thrwy hynny lleihau allyriadau carbon y Cyngor er mwyn ei helpu i ddod yn gyngor sero net erbyn 2030
3. Nodi cyfleoedd i leihau costau/lefel gwasanaeth a chynyddu incwm drwy godi prisiau, gwella gwasanaethau a defnyddio grantiau lle bo hynny'n briodol
4. Datblygu Strategaeth Rheoli Asedau'r Cyngor er mwyn dangos ei fod yn ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy
5. Lleihau'r achosion o fethu â chwblhau gwaith ar yr hawliadau Cymhorthdal Budd-dal Tai yn y dyfodol trwy gytuno ar amserlen gyda'r archwilwyr allanol, ynghyd ag adolygu capasiti o ran staff
6. Rhoi mwy o gyfleoedd i breswylwyr a rhanddeiliaid i sicrhau y clywir eu llais trwy fabwysiadu strategaeth cyfranogiad y cyhoedd sydd wedi'i hadolygu a'i hailwampio ar gyfer y cyfnod ar ôl y pandemig

DRAFT

# C. Rheoli Risg

## Sut hwyl ydym ni'n ei gael arni?

Mae Rheoli Risg a'i ddefnydd o fewn sefydliad cymhleth fel Cyngor Sir yn angenrheidiol i sicrhau y cyflawnir penderfyniadau, lefelau perfformiad a darpariaeth gwasanaeth mewn modd mor effeithiol ac effeithlon â phosibl. Mae'r adran hon yn cyfuno canfyddiadau o Archwiliadau Mewnol a gynhaliwyd, ynghyd â gan Archwilwyr Allanol a Chymheiriaid, sy'n amlygu'r risgiau y mae angen eu lliniaru, yn ogystal â threfniadau'r Cyngor o ran Rheoli Risg a Diogelu Corfforaethol. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn nodi bod y Cyngor yn perfformio'n gadarn mewn perthynas â'i drefniadau rheoli risg

## Sut ydym ni'n gwybod hynny?

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi gwella'i ddefnydd o reoli risg a'i drefniadau Diogelu Corfforaethol ac mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn yr adroddiadau canlynol yn rhoi sicrwydd ynglŷn â hyn:

- Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol - yn disgrifio'r cynnydd a wnaed a pha mor sefydledig y mae diogelu ym mhob agwedd ar wasanaethau, swyddogaethau a dyletswyddau'r cyngor
- Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2023/24 - Mae sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn dal yn weddol gryf
- Datganiad Cyfrifon – yn egluro cyllid y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn honno
- Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a Chod Llywodraethu Lleol - cyhoeddi yn unol â gofynion CIPFA ochr yn ochr â'r datganiad o gyfrifon, a'r Cod Llywodraethu Lleol sydd mewn lle
- Adolygiadau Gwasanaeth (allbwn) - yn nodi meysydd i'w gwella yn ogystal â llawer o feysydd o arfer dda
- Adolygiadau cenedlaethol a'u hargymhellion cysylltiedig diweddariad Rhagfyr 2022 - yn darparu diweddariad cywir ar gynnydd yn erbyn argymhellion archwilio cenedlaethol
- Diweddariadau Archwilio Mewnol (adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio drwy gydol y flwyddyn) – Hyd at fis Mawrth 2023 - yn darparu diweddariad o'r archwiliadau sy'n cael eu cynnal gan yr archwilwyr mewnol trwy gydol y flwyddyn
- Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol – Mehefin 2022 - yn rhoi barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio a Risg ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn
- Materion a Risgiau sy'n weddill – Hyd at fis Mawrth 2023 - yn rhoi diweddariad ar statws a manylion y risgiau sy'n weddill y mae Archwilio Mewnol wedi'u codi
- Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru 2022 - yn darparu crynodeb archwilio ar gyfer y Cyngor
- Arolwg Estyn o Gyngor Sir Ynys Môn - Mae'r awdurdod yn rheoli'r risgiau sy'n effeithio ar wasanaethau addysg yn dda, ac yn eu huwch gyfeirio at y gofrestr risg gorfforaethol os oes angen.
- Arolygiaeth Gofal Cymru – Arolwg gwerthuso perfformiad - yn nodi arfer da a meysydd i'w gwella mewn perthynas â Gwasanaethau Cymdeithasol
- Arolwg o'r Fframwaith Rheoli Risg - yn nodi'r polisi a'r strategaeth rheoli risg yn ogystal â chanllawiau rheoli
- Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau - yn adrodd ar weithgareddau'r Pwyllgor Safonau yn y flwyddyn yn ogystal a rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn ganlynol



DRAFT

Mae gwasanaethau o'r farn bod rheoli risg, diogelu corfforaethol ac ymateb i adroddiadau archwilio yn dda. Mae sylwadau o'r adroddiadau a restrir uchod sy'n cefnogi'r sgôr da yn gyffredinol ar gael isod -

*"Am y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, barn y Pennaeth Archwilio a Risg yng Nghyngor Sir Ynys Môn yw bod gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Er nad ydw i'n ystyried unrhyw feysydd o bryder corfforaethol, mae angen cyflwyno neu wella rheolaethau mewnol mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni, a'u bod yn cael eu monitro. Nid oes unrhyw amodau ar y farn hon."* Pennaeth Archwilio Mewnol, Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22

*"Mae CSYM yn hybu diwylliant o fyfyrio a dysgu ac yn gweithredu systemau awdit. Gwelsom enghreifftiau o ymarfer da gyda gwaith awdit yn adnabod ymarfer da yn ogystal ac ymarfer sydd angen ei wella. Mae'r craffu corfforaethol yn gryf ac yn herio perfformiad ar draws yr awdurdod lleol."* Arolygiaeth Gofal Cymru – Arolwg gwerthuso perfformiad

*"Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu ei drefniadau i fodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021."* Archwilio Cymru, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (llythyr)

"Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod bod datganiadau ariannol y Cyngor yn gywir ac yn deg ar 31 Ionawr 2023." Archwilio Cymru, Archwiliad o Gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn 2021-22

*"Drwy brosesau hunanwerthuso agored, rheolaidd a thrylwyr, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r ddarpariaeth addysg ac yn adnabod yn synhwyrol y cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae arweinwyr, gan gynnwys aelodau etholedig yn barod i gymryd penderfyniadau anodd ac amserol gan newid a mireinio cynlluniau a blaenoriaethau fel mae amgylchiadau'n gofyn. Er enghraifft, wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â moderneiddio ysgolion neu wrth ymateb i argyfwng pandemig COVID-19."* Arolwg Estyn o Gyngor Sir Ynys Môn

## Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

Parhau â'r daith tuag at welliant a'r trefniadau cadarnhaol sydd eisoes ar waith. Nodir y gwelliannau canlynol:

1. Rhoi cynlluniau gweithredu ôl arolwg ar waith yn dilyn adroddiadau Estyn, AGC ac Archwilio Cymru
2. Gweithredu'r model 'tair llinell sicrwydd' fel un dull o gasglu gwybodaeth i gynorthwyo i fapio sicrwydd i'r Cyngor
3. Mabwysiadu fframwaith rheoli risg newydd a sicrhau bod gweithdrefnau newydd yn cael eu rhoi ar waith a bod pob gwasanaeth yn eu dilyn
4. Cynyddu dealltwriaeth ynglŷn â'r model Ystyriol o Drawma a gwneud defnydd ehangach o'r model ledled yr ynys
5. Paratoi ar gyfer y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid
6. Darparu hyfforddiant a chanllawiau i swyddogion ynglŷn â'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

# Datganiad Sefyllfa Gwasanaethau'r Cyngor – 2023

Sylwch ar ymateb pob gwasanaeth i'r categorïau tystiolaeth ar gyfer 2022/23:

| Categori Hunanasesu | Categorïau Tystiolaeth | Oedolion | Plant | Busnes y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Tai | Dysgu | Adnoddau | Trawsnewid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli Perfformiad | Adroddiadau Perfformiad | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Rhagorol |
| | Gwasanaeth Cwsmer | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Rhagorol | Digonol | Da |
| | Llywodraethu a Chydymffurfiaeth | Da | Da | Da | Da | Digonol | Da | Da | Da | Da |
| Defnyddio Adnoddau | Datblygu'r Gweithlu a Rheoli Pobl | Da | Da | Digonol | Da | Da | Da | Da | Da | Rhagorol |
| | Iechyd Ariannol | Da | Da | Da | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol |
| | Cydweithio ac Integreiddio | Rhagorol | Rhagorol | Da | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Da | Rhagorol |
| Rheoli Risg | Adroddiadau rheoleiddio allanol / mewnbwn gan gymheiriaid | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Rhagorol | Digonol | Da |
| | Archwilio Mewnol | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da |
| | Diogelu Corfforaethol | Rhagorol | Rhagorol | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da |

## Meysydd Gwella a Nodwyd

Mae'r holl feysydd sydd angen eu gwella a'u monitor yn ystod 2023/24 wedi'u nodi isod. Disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2024.

| Maes Gwella | Gwasanaeth Arweiniol |
|---|---|
| **1. Adolygu a diwygio'r cerdyn sgorio corfforaethol i nodi'r dangosyddion perthnasol a blaenoriaethau a fydd yn cael eu tracio a'u rheoli yn ystod cyfnod y weinyddiaeth bresennol** | Trawsnewid |
| **2. Gwella'r dangosydd o ran canran y gwastraff a gaiff ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, a chyflawni targedau Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl, yn ogystal ag adolygu a diwygio'r Cynllun Gwella Cynllunio i sicrhau newid cynaliadwy i'r dyfodol** | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br>Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| **3. Defnyddio meddalwedd i ddod yn fwy ymwybodol o ddata ac yn fwy gwybodus i wneud penderfyniadau hyd yn oed mwy effeithiol yn seiliedig ar dystiolaeth a thrwy ddefnyddio data o'r fath, cyfathrebu'n effeithiol â staff yr Awdurdod ynglŷn â lefelau perfformiad** | Trawsnewid |
| **4. Parhau i foderneiddio ein dulliau gweithio, o wasanaethau i gwsmeriaid i brofiad mwy cyflawn i gwsmeriaid** | Trawsnewid |
| **5. Adolygu a diwygio'r broses adolygiadau gwasanaeth i sicrhau ei bod yn gyfredol ac yn cyd-fynd â disgwyliadau'r Hunanasesiad Corfforaethol** | Trawsnewid |
| **6. Gweithio gyda phartneriaid i liniaru effaith yr argyfwng costau byw ac amddiffyn y rheiny sydd mewn tlodi** | Trawsnewid / Tai |
| **7. Lleihau costau trydan ac ynni ledled y Cyngor a thrwy hynny lleihau allyriadau carbon y Cyngor er mwyn ei helpu i ddod yn gyngor sero net erbyn 2030** | Swyddfa'r Prif Weithredwr / Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo |
| **8. Nodi cyfleoedd i leihau costau/lefel gwasanaeth a chynyddu incwm drwy godi prisiau, gwella gwasanaethau a defnyddio grantiau lle bo hynny'n briodol** | Adnoddau |
| **9. Datblygu Strategaeth Rheoli Asedau'r Cyngor er mwyn dangos ei fod yn ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy** | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo |

| Maes Gwella | Gwasanaeth Arweiniol |
|---|---|
| **10. Lleihau'r achosion o fethu â chwblhau gwaith ar yr hawliadau Cymhorthdal Budd-dal Tai yn y dyfodol trwy gytuno ar amserlen gyda'r archwilwyr allanol, ynghyd ag adolygu capasiti o ran staff** | Adnoddau |
| **11. Rhoi mwy o gyfleoedd i breswylwyr a rhanddeiliaid i sicrhau y clywir eu llais trwy fabwysiadu strategaeth cyfranogiad y cyhoedd sydd wedi'i hadolygu a'i hailwampio ar gyfer y cyfnod ar ôl y pandemig** | Trawsnewid |
| **12. Rhoi cynlluniau gweithredu ôl arolwg ar waith yn dilyn adroddiadau Estyn, AGC ac Archwilio Cymru** | Pob Gwasanaeth |
| **13. Gweithredu'r model 'tair llinell sicrwydd' fel un dull o gasglu gwybodaeth i gynorthwyo i fapio sicrwydd i'r Cyngor** | Adnoddau / Trawsnewid |
| **14. Mabwysiadu fframwaith rheoli risg newydd a sicrhau bod gweithdrefnau newydd yn cael eu rhoi ar waith a bod pob gwasanaeth yn eu dilyn** | Adnoddau |
| **15. Cynyddu dealltwriaeth ynglŷn â'r model Ystyriol o Drawma a gwneud defnydd ehangach o'r model ledled yr ynys** | Dysgu / Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **16. Paratoi ar gyfer y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid** | Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **17. Darparu hyfforddiant a chanllawiau i swyddogion ynglŷn â'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol** | Busnes y Cyngor |

DRAFT

This page is intentionally left blank

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyngor Sir Ynys Môn

## Cynllun Archwilio Amlinellol 2023



Blwyddyn archwilio: 2022-2023

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2023



Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol. Ceir rhagor o wybodaeth yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan bob un ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, pan fo hynny'n gymwys, yr archwilydd penodedig mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn eu rhinwedd unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, phan fo hynny'n berthnasol, yr archwilydd penodedig yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English.

# Ynglŷn ag Archwilio Cymru

Ein nodau:

### Sicrhau

pobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda

### Egluro

sut mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion

### Ysbrydoli

a grymuso'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella

Ein huchelgeisiau:

Manteisio'n llawn ar ein persbectif unigryw, ein harbenigedd a dyfnder ein

Cryfhau ein safle fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol

Cynyddu ein hamlygrwydd, ein dylanwad a'n perthnasedd

Bod yn sefydliad enghreifftiol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 5 |
| Ffioedd a’r tîm archwilio | 7 |
| Llinell amser archwilio | 8 |
| Ansawdd archwilio | 9 |
| Atodiad 1—y newidiadau allweddol i ISA315 a’u heffaith | 10 |

# Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Archwilio Amlinellol yn nodi fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy rhwymedigaethau o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Mae hefyd yn nodi manylion fy nhîm archwilio a dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni gweithgareddau ac allbynnau arfaethedig fy nhîm archwilio. Rwyf yn bwriadu rhannu Cynllun Archwilio Manwl yn ddiweddarach eleni ar ôl imi gwblhau fy ngwaith cynllunio. Bydd yn nodi fy ffi archwilio amcangyfrifedig a'r gwaith y mae fy nhîm yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r risgiau archwilio a nodwyd a meysydd allweddol eraill y canolbwyntir arnynt wrth gynnal archwiliadau yn ystod 2023.



Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Fy nghyfrifoldebau archwilio

Rwyf yn cwblhau gwaith bob blwyddyn er mwyn cyflawni'r dyletswyddau canlynol:

- rwyf yn archwilio datganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn i sicrhau y rhoddir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.
- rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid imi fod wedi fy modloni ei fod wedi gwneud hyn.
- mae angen i Gyngor Sir Ynys Môn gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y mae'n gwneud hyn.

**Archwiliad o'r datganiadau ariannol**

Mae'n ofynnol imi gyflwyno tystysgrif ac adrodd ar eich datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'gwirionedd a'u tegwch' ac asesiad ynghylch a yw'r Adroddiad Naratif a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei baratoi yn unol â Chod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a'r canllawiau perthnasol ac yn gyson â'ch datganiadau ariannol a'm gwybodaeth am yr Awdurdod.

Yn ychwanegol at fy nghyfrifoldebau dros archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, rwyf hefyd yn gyfrifol am:

- ardystio ffurflen i Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwybodaeth am Gyngor Sir Ynys Môn i gefnogi'r gwaith o baratoi Cyfrifon Llywodraeth Gyfan;
- ymateb i gwestiynau a gwrthwynebiadau ynghylch y cyfrifon oddi wrth etholwyr lleol (codir ffioedd ychwanegol am y gwaith hwn, os bydd angen); ac
- ardystio nifer o hawliadau am grantiau a ffurflenni grant fel y cytunwyd gyda'r cyrff cyllido.

Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond rwy'n mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy mwriad yw nodi camddatganiadau sylweddol, hynny yw, y rhai hynny a all gamarwain darllenydd y cyfrifon. Bydd y lefelau yr wyf i'n barnu bod y camddatganiadau yn berthnasol yn cael eu hadrodd ichi yn fy Nghynllun Archwilio Manwl.

Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir yn fanylach yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau.

**Gwaith archwilio perfformiad**

Rwyf yn cynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad i gyflawni fy nyletswyddau fel Archwilydd Cyffredinol mewn cysylltiad â gwerth am arian a datblygu cynaliadwy.

Bydd fy rhaglen archwilio perfformiad lleol yn parhau i gael ei darparu drwy gyfuniad o Brosiect Asesu Sicrwydd a Risg, prosiectau lleol pwrpasol a phrosiectau thematig sy'n archwilio'r risgiau sy'n gyffredin i bob cyngor.

# Ffioedd a'r tîm archwilio



Ym mis Ionawr 2023, cyhoeddais y cynllun ffioedd am y flwyddyn, a gymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Senedd. Mae'n nodi fy nghyfraddau ffioedd ac mae hefyd yn tynnu sylw at effaith safon archwilio ddiwygiedig Safon Ryngwladol ar Archwilio 315 ar fy null archwilio ariannol. Nodir rhagor o fanylion am y safon archwilio ddiwygiedig a'r hyn y mae'n ei olygu i'r archwiliad yr ymgymeraf ag ef yn **Atodiad 1**.

Byddaf yn rhoi amcangyfrif o'ch ffi yn fy Nghynllun Archwilio Manwl erbyn Gorffennaf 2023, ar ôl imi gwblhau fy asesiad risg manwl.

**Eich tîm ymgysylltu:**

| | |
|---|---|
| **Derwyn Owen** | **Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Chyfarwyddwr Archwilio** |
| **Yvonne Thomas** | **Rheolwr Archwilio (Archwilio Ariannol)** |
| **Carwyn Rees** | **Rheolwr Archwilio (Archwilio Perfformiad)** |
| **Sabel Wiliam** | **Arweinydd Archwilio (Archwilio Ariannol)** |
| **Alan Hughes** | **Arweinydd Archwilio (Archwilio Perfformiad)** |

**Mae'r unig fygythiad hysbys i annibyniaeth y mae angen i mi dynnu eich sylw ato yn ymwneud â'r Rheolwr Archwilio (Archwilio Ariannol) gan fod ganddi ffrind agos a gyflogir gan y Cyngor. O ganlyniad, ni fydd yn ymwneud ag unrhyw waith mewn perthynas â'r gwasanaeth perthnasol.**

# Llinell amser archwilio

Nodwn isod ddyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni ein gwaith archwilio a'n hallbynnau arfaethedig.

| Allbwn arfaethedig | Gwaith a wnaed | Cwblhau'r adroddiad |
|---|---|---|
| Cynllun Archwilio Amlinellol 2023 | Mawrth 2023 | Mawrth 2023 |
| Cynllun Archwilio Manwl 2023 | Ebrill i Orffennaf 2023 | Gorffennaf 2023 |
| Gwaith archwilio datganiadau ariannol:<br>• Archwiliad o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol<br>• Barn ar y Datganiadau Ariannol. | Awst i Dachwedd 2023 | Tachwedd 2023 |
| Gwaith archwilio perfformiad:<br>• Asesiad Sicrwydd a Risg<br>• Adolygiad thematig—comisiynu a rheoli contractau<br>• Adolygiad thematig—cynaliadwyedd ariannol mewn llywodraeth leol<br>• Gwaith dilynol ar SATC 2018 | Trafodir amserlenni ar gyfer prosiectau unigol gyda chi a manylir arnynt yng nghyfarwyddiadau'r prosiectau penodol a gynhyrchir ar gyfer pob archwiliad. | |

# Ansawdd archwilio

Mae fy ymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn absoliwt.


Credaf fod ansawdd archwilio yn ymwneud â gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf.

Defnyddiwn fodel tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn.

Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydgysylltu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Gwnawn ein gwaith yn ddarostyngedig i graffu annibynnol gan yr Adran Sicrhau Ansawdd[1] ac mae ein Cadeirydd yn gweithredu fel cyswllt ar ansawdd archwilio i'n Bwrdd. Am fwy o wybodaeth gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2022.

.





## Ein Pobl

Ffurfir y llinell sicrwydd gyntaf gan ein staff a'n rheolwyr sy'n gyfrifol yn unigol ac ar y cyd am gyflawni'r safonau o ansawdd archwilio yr ydym yn dyheu amdanynt.

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- Goruchwylio ac adolygu



## Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio

Ffurfir yr ail linell sicrwydd gan y polisïau, yr offer, y ddysg a'r datblygiad, y canllawiau, a'r arweinyddiaeth a ddarparwn i'n staff i'w cefnogi i gyrraedd y safonau ansawdd archwilio hynny.

- Rhaglen archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



## Sicrwydd annibynnol

Ffurfir y drydedd linell sicrwydd gan y gweithgareddau hynny sy'n rhoi sicrwydd annibynnol dros effeithiolrwydd y ddwy linell sicrwydd gyntaf.

- Adolygiadau Rheoli Ansawdd Ymgysylltu
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddi'r achos sylfaenol
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Y Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

[1] Yr Adran Sicrhau Ansawdd yw Adran Sicrhau Ansawdd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr.

# Atodiad 1 – y newidiadau allweddol i ISA315 a’r effaith bosibl ar eich sefydliad

| Newid allweddol | Effaith bosibl ar eich sefydliad |
|---|---|
| **Gweithdrefnau adnabod ac asesu risg manylach a mwy helaeth** | Efallai y bydd eich tîm cyllid ac eraill yn eich sefydliad yn cael nifer fwy o ymholiadau gan ein timau archwilio yn ystod y broses o gynllunio’r archwiliad. Gallai ceisiadau am wybodaeth gynnwys:<br>• gwybodaeth am fodel busnes eich sefydliad a sut y mae’n integreiddio’r defnydd o dechnoleg gwybodaeth (TG);<br>• gwybodaeth am broses asesu risgiau eich sefydliad a sut mae eich sefydliad yn monitro’r system rheoli mewnol;<br>• gwybodaeth fanylach am sut y caiff trafodiadau eu dechrau, eu cofnodi, eu prosesu, a’u hadrodd. Gallai hyn gynnwys y gallu i gael gafael ar ddogfennaeth ategol fel llawlyfrau polisïau a gweithdrefnau;<br>• trafodaethau manylach â’ch sefydliad i gefnogi asesiad o risg cynhenid y tîm archwilio. |
| **Cael gwell dealltwriaeth o amgylchedd eich sefydliad, yn enwedig mewn cysylltiad â TG** | Efallai y bydd eich sefydliad yn cael mwy o ymholiadau i gynorthwyo’r tîm archwilio i ddeall yr amgylchedd TG. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am:<br>• Apiau TG sy’n berthnasol i adrodd ariannol;<br>• y seilwaith TG ategol (ee y rhwydwaith, cronfeydd data);<br>• prosesau TG (ee rheoli newidiadau i raglenni, gweithrediadau TG);<br>• y personél TG sy’n ymwneud â’r prosesau TG.<br>Efallai y bydd angen i dimau archwilio brofi’r rheolaethau TG cyffredinol a gallai hyn ei gwneud yn ofynnol cael tystiolaeth archwilio fanylach ar weithredu rheolaethau TG yn eich sefydliad. |

| Newid allweddol | Effaith bosibl ar eich sefydliad |
|---|---|
| | Ar rai archwiliadau, gallai ein timau archwilio gynnwys arbenigwyr archwilio TG i'w cynorthwyo i wneud eu gwaith. Efallai y bydd angen i'n harchwilwyr TG ymgysylltu ag aelodau o'ch tîm TG nad ydynt wedi bod yn rhan o'r broses archwilio o'r blaen. |
| **Gofynion uwch yn ymwneud ag arfer amheuaeth broffesiynol** | Gallai ein timau archwilio wneud ymholiadau ychwanegol os ydynt yn nodi gwybodaeth yr ymddengys i wrth-ddweud yr hyn y maent eisoes wedi ei ddysgu yn yr archwiliad. |
| **Gellir cyflwyno asesiadau risg ar raddfa fwy, gan ddibynnu ar natur a chymhlethdod y corff a archwilir** | Bydd disgwyliadau'r tîm archwilio ynghylch ffurfioldeb polisïau, gweithdrefnau, prosesau, a systemau eich sefydliad yn dibynnu ar gymhlethdod eich sefydliad. |
| **Gallai timau archwilio wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg wrth gynnal eu harchwiliad** | Gallai ein timau archwilio wneud defnydd o offer awtomataidd a thechnegau megis dadansoddi data wrth gynnal eu harchwiliad. Gallai ein timau ofyn am wybodaeth wahanol neu wybodaeth mewn fformat gwahanol i'r archwiliadau blaenorol fel y gallant gyflawni eu gweithdrefnau archwilio. |



Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Sir Ynys Môn

## Diweddariad Chwarterol: 31 Mawrth 2023

## Crynodeb Archwilio Blynyddol

| Disgrifiad | Amserlen | Statws |
|---|---|---|
| **Adroddiad yn crynhoi'r gwaith archwilio a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2023.** | Mawrth 2023 | Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Mawrth 2023. |

## Gwaith Archwilio Ariannol

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwilio Datganiad Cyfrifon 2021-22 y Cyngor** | Rhoi barn ar y 'gwirionedd a thegwch' y datganiadau ariannol am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 | Ionawr 2023 | Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn ddiamod ar y Datganiad o'r Cyfrifon ar 31 Hydref 2023. |

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwilio Datganiad Cyfrifon 2022-23 y Cyngor** | Rhoi barn ar 'wirionedd a thegwch' y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023. | Gwaith cynllunio i'w wneud rhwng Ebrill a Gorffennaf 2023.<br><br>Archwiliad terfynol i'w gynnal Awst i Dachwedd 2023. | Mae'r gwaith cynllunio cychwynnol wedi dechrau. |
| **Ardystio Ffurflenni Grant:**<br><br>Cyfraniadau Pensiwn Athrawon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22 | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos bod y ffurflen:<br>• Wedi'i nodi'n deg<br>• Yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Dyddiad cau'r Cyngor ar y diwrnod gwaith olaf ym mis Mai 2022.<br>Dyddiad cau ardystio 30 Tachwedd 2022.<br><br>Cafodd Asiantaeth Bensiynau Athrawon wybod o'r oedi o ran amseru'r archwiliad. | Daeth y ffurflen i law ar 5 Awst 2022.<br><br>Ffurflen wedi'i hardystio ar 6 Ebrill 2023. |

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| Ardystio Ffurflenni Grant:<br><br>Ardrethi Annomestig 2021-22 | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos bod y ffurflen:<br>• Wedi'i nodi'n deg<br>• Yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Dyddiad cau'r Cyngor 30 Mehefin 2022.<br>Dyddiad cau ardystio 30 Tachwedd 2022.<br><br>Cafodd Llywodraeth Cymru wybod am yr oedi o ran amseru'r archwiliad. | Daeth y ffurflen i law ar 21 Mehefin 2022.<br><br>Ffurflen wedi'i hardystio ar 2 Mawrth 2023. |
| **Ardystio Ffurflenni Grant:**<br><br>Cymhorthdal Budd-dal Tai 2020-21 | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos bod y ffurflen:<br>• Wedi'i nodi'n deg<br>• Yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Dyddiad cau'r Cyngor 30 Ebrill 2021.<br><br>Dyddiad cau ardystio 28 Chwefror 2022. | Derbyniwyd y ffurflen gais ar 28 Ebrill 2021.<br><br>Mae Gwaith Maes Archwilio wedi'i ddatblygu'n dda. |
| **Ardystio Ffurflenni Grant:**<br><br>**Cymhorthdal Budd-dal Tai 2021-22** | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos bod y ffurflen:<br>• Wedi'i nodi'n deg<br>• Yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Dyddiad cau'r Cyngor 30 Ebrill 2022.<br><br>Dyddiad cau ardystio 31 Ionawr 2023. | Derbyniwyd y ffurflen ar 29 Ebrill 2022.<br><br>Mae Gwaith Maes Archwilio ar y gweill. |

## Gwaith Archwilio Perfformiad

| Gwaith archwilio perfformiad 2021-22 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Sicrwydd as Asesu Risg** | Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle y gallai fod angen gwaith archwilio ychwanegol yn y dyfodol mewn perthynas â risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.<br>Yng Nghyngor Sir Ynys Môn, mae'r prosiect yn debygol o ganolbwyntio ar:<br>• Sefyllfa ariannol<br>• Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)<br>• Cynlluniau i leihau carbon | Ebrill 2021 i Fai 2023 | **Ym mynd rhagddo:**<br>Sefyllfa ariannol<br><br>**Wedi'i gwblhau:**<br>Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)<br><br>**Wedi'i gwblhau**<br>Deddf Etholiadau (Cymru)<br>Cynlluniau lleihau carbon |

| Gwaith archwilio Perfformiad 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Sicrwydd as Asesu Risg** | Prosiect i ganfod lefel sicrwydd archwilio a/neu lle bo angen gwaith archwilio ychwanegol yn ystod y blynyddoedd i'w dod o ran y risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian yn ei ddefnydd o adnoddau a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | | |
| | • Sefyllfa ariannol | Monitro'r sefyllfa ariannol yn barhaus | Ym mynd rhagddo |
| | • Rheoli rhaglenni cyfalaf | Ebrill – Medi 2023 | Cwmpasu |
| | • Defnyddio gwybodaeth am berfformiad – gan ganolbwyntio ar adborth a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaethau | Chwefror – Medi 2023 | Ar y gweill – mae gwaith maes wedi'i drefnu ar gyfer Ebrill 2023. |
| | • Pennu amcanion llesiant | Chwefror – Medi 2023 | Ar y gweill – mae gwaith maes wedi'i drefnu ar gyfer Mai 2023. |

| Gwaith archwilio Perfformiad 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad Thematig – Gofal heb ei Gynllunio** | Adolygiad traws-sector sy'n canolbwyntio ar lif cleifion allan o'r ysbyty. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid i ymdrin â'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gofal cymdeithasol i fod o gymorth i ryddhau cleifion, yn ogystal ag atal mynd i mewn i'r ysbyty. Bydd y gwaith yn ystyried hefyd pa gamau a gymerir i ddarparu datrysiadau tymor canol i hir. | Awst 2022 – Mehefin 2023 | Mae'r gwaith maes yn agos at gael ei gwblhau, yn adrodd o fis Ebrill 2023 ymlaen. |
| **Adolygiad thematig – Digidol** | Adolygiad o ddull strategol y Cyngor i dechnoleg ddigidol, ac i ba raddau y datblygwyd hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau cynghorau. | Ionawr – Medi | Ar y gweill – dderbyniwyd dogfennau, a gwaith maes i'w gynllunio. |
| **Adolygu Rheoli Datblygu a Gorfodi Cynllunio** | Bydd yr adolygiad yn ceisio sefydlu:<br>• A oes gan y Cyngor wasanaeth rheoli datblygu a gorfodi cynllunio effeithiol a chadarn? | Gorffennaf 2022 – Mehefin 2023 | Cyhoeddwyd yr Adroddiad drafft ym mis Ebrill 2023. |

## Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol sydd wedi eu cynllunio/ar y gweill

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Sir Ynys Môn |
|---|---|---|---|---|
| **Meithrin Cydnerthedd Cymdeithasol a Hunanddibyniaeth** | Adolygu sut y gall awdurdodau lleol feithrin mwy o gydnerthedd mewn cymunedau | Hydref 2021 – Hydref 2022 | Cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2023 | Do – cyfweliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor. |
| **Diogelwch adeiladau** | Adolygiad o ba mor dda y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau dros ddiogelwch adeiladau | Medi 2022 – Awst 2023 | Casglu tystiolaeth – gwaith maes yn mynd rhagddo | Do – cyfweliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor |
| **Cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy– Adfywio Tir Llwyd** | Adolygu sut mae awdurdodau lleol yn hybu ac yn galluogi gwell defnydd o anheddau annomestig gwag a safleoedd tir llwyd | Hydref 2022 – Medi 2023 | Casglu tystiolaeth – gwaith maes yn mynd rhagddo | Do – cyfweliad gyda swyddog enwebedig mewn saith cyngor ac arolwg. |
| **Llywodraethu awdurdodau diben arbennig – Parciau Cenedlaethol** | Adolygu systemau ac effeithiolrwydd llywodraethu | Tachwedd 2022 – Medi 2023 | Casglu tystiolaeth – gwaith maes yn mynd rhagddo | Naddo |

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Sir Ynys Môn |
|---|---|---|---|---|
| **Cyd-bwyllgorau Corfforedig** | Asesu cynnydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig wrth ddatblygu eu trefniadau i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol a nod Llywodraeth Cymru o gryfhau cydweithio rhanbarthol. | Medi 2022 – Mehefin 2023 | Cyhoeddwyd adroddiad drafft i'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig. Disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ym mis Mai/Mehefin. | Do – Gwnaethom ystyried persbectif y Cyngor drwy ein cyfarfodydd cyswllt arferol.<br>Roedd y gwaith maes yn cynnwys cyfweliadau â'r prif weithredwr, y cyfarwyddwr cyllid a chadeirydd pob un o'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig. |

## Estyn

Mae ein harolygwyr cyswllt yn parhau i weithio gyda Thorfaen fel rhan o'n proses ddilynol ar gyfer awdurdod sy'n peri pryder sylweddol. Mae awdurdod lleol Wrecsam yn dal i fod mewn categori achosi pryder ac gwnaethom gynnull cynhadledd cynnydd ym mis Rhagfyr i edrych yn benodol ar yr argymhelliad ar wella ysgolion. Rydym yn bwriadu ail-ymweld â Wrecsam yn nhymor yr haf. Byddwn yn cynnull cynhadledd gwella ym Mhowys ym mis Mai i ystyried agweddau ar ei gwaith ar wella ysgolion, yr agenda trawsnewid a rheolaeth ariannol mewn ysgolion. Gwnaethom gyfrannu at weithdai risg a sicrwydd ar y cyd ag Archwilio Cymru ac AGC ym mhob awdurdod lleol yn ystod tymor y gwanwyn. Gwnaethom arolygu Blaenau Gwent ym mis Rhagfyr, a chyhoeddwyd yr adroddiad ar 10 Chwefror.

Gwnaethom arolygu Rhondda Cynon Taf ym mis Ionawr, a bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar 31 Mawrth.

Mae gwaith maes sy'n cael ei wneud ar draws awdurdodau lleol yn ystod tymor y gwanwyn yn cynnwys pwyslais ar addysg ddewisol yn y cartref, cymorth i ddiwygio ADY ac ymweliadau ar y cyd â chydweithwyr o Lywodraeth Cymru i werthuso gwaith awdurdodau lleol o ran y cymorth y maent yn ei ddarparu i gyflawni strategaethau digidol cenedlaethol.

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

| Gwaith Cynlluniedig AGC 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Rhaglen 2022-23** | Byddwn yn cyhoeddi ei Cod Ymarfer diwygiedig ar gyfer yr adolygiad o wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2023. | Ebrill 2023 | Paratoi ar gyfer cyhoeddi |

| Gwaith Cynlluniedig AGC 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Gwaith ar y cyd** | Rydym wrthi'n cwblhau ein rhaglen waith adolygiadau thematig ar gyfer 2023-2026. Mae meysydd i'w hystyried yn cynnwys diogelu oedolion, gofalwyr, TADC a CAMHS. | Cyfredol | Ar waith |
| | Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid, gan rannu gwybodaeth a deallusrwydd gan gynnwys cwblhau adolygiadau ar y cyd. | Cyfredol | Ar waith |
| | Rydym yn gweithio ar y cyd ag AGIC ar gyfer adolygiad cenedlaethol o'r llwybr strôc. Bydd adroddiad cenedlaethol yn cael ei gyhoeddi ddechrau'r haf. | Cyfredol | Ar waith |
| | Rydym yn parhau i gydweithio ag AGIC i gynnal arolygiadau TIMC. | Cyfredol | Ar waith |
| | Mae AGC yn gweithio gyda phartneriaid i gwblhau adolygiad cyflym. Amcan trosfwaol yr adolygiad cyflym yw penderfynu i ba raddau y mae'r strwythurau a'r prosesau presennol yng Nghymru yn sicrhau bod plant sydd angen gofal, cymorth ac amddiffyniad yn cael eu gosod yn briodol ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a'u tynnu oddi arni, pan fo tystiolaeth ddigonol yn dangos ei bod yn ddiogel gwneud hynny. Adolygiad cydweithredol yw hwn. | Ionawr 2023 – Mehefin 2023 | Ar waith |

| **Gwaith Cynlluniedig AGC 2022-23** | **Cwmpas** | **Amserlen** | **Statws** |
| --- | --- | --- | --- |
| **Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid**<br>**Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2021-22** | Cyhoeddwyd adroddiad 2020-21 ar 7 Chwefror 2021 | Cyhoeddwyd | Cyhoeddwyd |
| **Adolygiad cenedlaethol o Gynllunio Gofal i blant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i rag-achosion Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus** | Diben yr adolygiad<br><br>Darparu gwaith craffu allanol, sicrwydd a hyrwyddo gwelliant o ran ansawdd ymarfer mewn perthynas â chynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i rag-achosion amlinelliad cyfraith cyhoeddus.<br><br>Ystyried i ba raddau mae ymarfer wedi symud ymlaen ers cyhoeddi 'Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal i blant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i rag-achosion Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus' gan AGC a chyhoeddi Adroddiad gweithgor Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus 2021 gan gynnwys arweiniad i arfer gorau. | Medi 2022 – Gwanwyn 2023 | Cyflawni |
| **Trefniadau Cyd-arolygu Diogelu Plant (JICPA)** | Dull traws-arolygiaeth. Meysydd i'w penderfynu. Byddwn yn cwblhau pedwar arolygiad amlasiantaethol arall ar y cyd i gyd. Bydd pob awdurdod lleol yn cael llythyr cyhoeddedig ar ôl yr arolygiad.<br>Byddwn yn cyhoeddi adroddiad cenedlaethol tuag at ddiwedd 2023. | Hydref 2022 – diwedd gwanwyn 2023 | Cyflawni |

## Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill a gyhoeddwyd ers Ionawr 2022

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Cynhwysiant digidol yng Nghymru (gan gynnwys cwestiynau allweddol i gyrff cyhoeddus) | Mawrth 2023 |
| Gwasanaethau Orthopedig yng Nghymru – Mynd i'r Afael ag Ôl-groniad y Rhestr Aros | Mawrth 2023 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd | Chwefror 2023 |
| Pryniant Llywodraeth Cymru o Fferm Gilestone | Ionawr 2023 |
| Gyda'n gilydd fe allwn ni – Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau | Ionawr 2023 |
| Darlun o Reoli Perygl Llifogydd | Rhagfyr 2022 |
| 'Cyfle wedi'i golli' – Mentrau Cymdeithasol | Rhagfyr 2022 |
| Offeryn Data Tlodi | Tachwedd 2022 |
| 'Amser am newid' – Tlodi yng Nghymru | Tachwedd 2022 |
| Dysgu o ymosodiadau seibr | Hydref 2022 (dosbarthwyd yn breifat i gyrff archwilio) |

| **Teitl yr adroddiad** | **Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad** |
|---|---|
| Y Fenter Twyll Genedlaethol 2020-21 | Hydref 2022 |
| Cymorth busnes COVID-19 yn 2020-21 – Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | Hydref 2022 |
| Taliad i Gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru pan Derfynwyd ei Chyflogaeth | Medi 2022 |
| Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag Ymarfer Blwch Ticio? | Medi 2022 |
| Llywodraeth Cymru – pennu amcanion llesiant | Medi 2022 |
| Cynllunio a rheoli’r gweithlu gan Lywodraeth Cymru | Medi 2022 |
| Offeryn Data Cyllid GIG Cymru – hyd at Fawrth 2022 | Awst 2022 |
| Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Net Zero Carbon erbyn 2030: Adroddiad Tystiolaeth | Awst 2022 |
| Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030 | Gorffennaf 2022 |
| Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru | Gorffennaf 2022 |

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Cronfa Ymateb COVID-19 Trydydd Sector – Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | Gorffennaf 2022 |
| System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru –diweddariad a’r offeryn data | Gorffennaf 2022 |
| Mynd i'r afael â'r Ôl-groniad Gofal Arfaethedig yng Nghymru – ac offeryn data amseroedd aros | Mai 2022 |
| Y Cwricwlwm newydd i Gymru | Mai 2022 |
| Gofal heb ei drefnu – offeryn data a sylwebaeth | Ebrill 2022 |
| Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion | Ebrill 2022 |
| Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol | Chwefror 2022 |
| Cydweithio rhwng y Gwasanaethau Brys (gan gynnwys offeryn data) | Ionawr 2022 |

## Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill (gwaith ar y gweill/cynlluniedig)[1]

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi bras |
|---|---|
| Llywodraethu ansawdd y GIG | Mai/Mehefin 2023 |
| Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol – Diweddariad | Ebrill 2023 |
| Llamu Ymlaen – Rheoli asedau a gweithlu mewn llywodraeth leol | Mai/Mehefin 2023 |
| Cynllunio gweithlu'r GIG (briff data) | Mai/Mehefin 2023 |
| Gwneud y gorau o arian gan yr UE | Mai/Mehefin 2023 |
| Cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon – dilyniant | Gorffennaf 2023 |
| Offeryn Data Cyllid y GIG – hyd at Mawrth 2023 | Gorffennaf/Awst 2023 |
| Sero net (trosolwg ledled y DU) | Awst/Medi 2023 |
| Gwasanaethau ffoaduriaid Wcreinaidd | Medi 2023 |

[1] Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff archwiliedig i gyfathrebu â ni. Bydd ein Cynllun Blynyddol 2023-24 yn cadarnhau cynlluniau ar gyfer gwaith newydd mewn meysydd pwnc eraill a byddwn yn diweddaru'r rhestr hon yn unol â hynny yn y diweddariad chwarterol nesaf.

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi bras |
|---|---|
| Adolygiad o strategaeth ddigidol llywodraeth leol – crynodeb cenedlaethol | Hydref 2023 |
| Defnydd llywodraeth leol o wybodaeth am berfformiad, canlyniadau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau – crynodeb cenedlaethol | Hydref 2023 |
| Tai fforddiadwy | Ionawr/Chwefror 2024 |
| Rheoli rhaglen gyfalaf llywodraeth leol – crynodeb cenedlaethol | I'w gadarnhau |
| Teithio llesol | I'w gadarnhau |
| Gwasanaethau canser | I'w gadarnhau |

## Digwyddiadau ac adnoddau Cyfnewid Arfer Da

| Teitl | Dolen i'r adnodd |
|---|---|
| **Mynd i'r Afael â Thlodi yng Nghymru: ymateb i'r her** – daeth y digwyddiad dysgu a rennir hwn â phobl ynghyd o bob rhan o wasanaethau cyhoeddus i rannu syniadau, dysgu a gwybodaeth am sut y gall sefydliadau ymateb i'r heriau a achosir gan dlodi. Gwnaethom rannu enghreifftiau o ddulliau a gymerir gan sefydliadau yng Nghymru ac ledled y DU. | Adnoddau ar fynd i'r afael â thlodi |

| Teitl | Dolen i’r adnodd |
|---|---|
| **Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb: mwy nag ymarfer blwch ticio?** Nod y digwyddiad dysgu a rennir hwn yw cynorthwyo cyrff cyhoeddus i wella defnydd a chymhwyso Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb y tu hwnt i ymarfer cydymffurfio drwy ddod â phobl ynghyd o bob rhan o wasanaethau cyhoeddus i rannu syniadau, dysgu a gwybodaeth. | Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb mwy nag ymarfer blwch ticio: |
| **Gyda'n gilydd gallwn – creu'r amodau i rymuso ein cymunedau i ffynnu:** Bydd y digwyddiad dysgu ar y cyd hwn yn dod â phobl ynghyd o bob rhan o wasanaethau cyhoeddus i rannu syniadau, dysgu a gwybodaeth. Byddwn yn rhannu canfyddiadau ein hadroddiadau ar fentrau cymdeithasol a gwydnwch cymunedol, gan gynnwys ein hargymhellion wrth symud ymlaen. | 19 Ebrill 2023 – 9 yb – 1 yp – Caerdydd. I ymrestru, llenwch ein ffurflen archebu ar-lein. |
| **Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae’r Gymraeg yn Ffynnu:** Wedi'i ysbrydoli gan daith Cymdeithas Bêl-droed Cymru dros y ddegawd ddiwethaf, bydd y digwyddiad hwn yn edrych ar sut mae mynd y tu hwnt i'r gofynion yn creu agwedd gadarnhaol a chynhwysol sy’n lluosogi llwyddiant.<br>Gan weithio mewn partneriaeth â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chomisiynydd y Gymraeg, bydd y digwyddiad hwn yn cynorthwyo ac yn ysbrydoli cyrff cyhoeddus i gofleidio amrywiaeth ddiwylliannol Cymru fodern a gweithio y tu hwnt i gydymffurfio a thuag at ragoriaeth. | I ymrestru, llenwch ein ffurflen archebu ar-lein. |

## Blogiau Diweddar Archwilio Cymru

| Teitl | Cyhoeddiad |
| --- | --- |
| Helpu pobl i helpu eu hunain | 15 Chwefror 2023 |
| Storm berffaith – yr argyfwng costau byw a cham-drin domestig | 21 Tachwedd 2022 |
| Mae mynd i'r afael â thlodi yn golygu mynd i'r afael â'r data ar dlodi | 11 Tachwedd 2022 |
| Costau byw a rhoi'r fidog i gadw | 21 Medi 2022 |
| Mae pethau'n poethi i fynd i'r afael â Newid Hinsawdd | 18 Awst 2022 |
| Taliadau Uniongyrchol yng Nghymru | 15 Mehefin 2022 |
| Gofal Heb ei Drefnu yng Nghymru – System o dan bwysau gwirioneddol. | 21 Ebrill 2022 |
| Cystadleuaeth Sgiliau Cymru | 18 Chwefror 2022 |
| Seibergadernid – blwyddyn ymlaen | 9 Chwefror 2022 |
| Helpu i adrodd y stori drwy gyfrwng rifau (Offeryn data cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol) | 3 Chwefror 2022 |
| Galwad am wybodaeth gliriach ynglŷn â gwariant ar newid yn yr hinsawdd | 2 Chwefror 2022 |

| Teitl | Cyhoeddiad |
|---|---|
| Y gweithredoedd tu ôl i'r geiriau (adeiladu gwytnwch cymdeithasol a hunanddibyniaeth mewn dinasyddion a chymunedau) | 14 Ionawr 2022 |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 29 Mehefin 2023 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2022-23 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus angen i'r prif swyddog gweithredol archwilio gynhyrchu Adroddiad Blynyddol Archwili Mewnol (Safon 2450). | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. O dan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) mae'n ofynnol i'r 'prif swyddog archwilio' gyflwyno barn archwilio mewnol blynyddol ac adroddiad y gall y sefydliad ei ddefnyddio fel sail i'w ddatganiad llywodraethu blynyddol. Yn ogystal, mae cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn yn nodi fod rhaid iddo ystyried adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol.

1.2. Mae'r adroddiad hwn yn darparu Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar gyfer 2022-23 i'r Pwyllgor, sy'n rhoi barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio a Risg ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, trefniadau rheoli risg a rheoli'r Cyngor yn ystod y flwyddyn.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a yn ystyried ac yn cynnig sylwadau ar adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg a'r 'farn' gyffredinol.



# ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2022-23


**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS**

**Pennaeth Archwilio a Risg**

MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru


**Mehefin 2023**

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# CYNNWYS

CYFLWYNIAD 3
BARN ARCHWILIO MEWNOL 4
Barn y Pennaeth Archwilio a Risg 2022-23 4
SAIL FY MARN 5
Sgôp 5
Cyfyngiadau 5
Sicrwydd Trydedd Linell 5
Archwilio Risgiau Strategol 5
Gwaith Archwilio Arall 6
Graddfeydd Sicrwydd Archwilio Mewnol a roddwyd yn ystod 2022-23 7
MATERION / RISGIAU A GODWYD 8
Gweithredoedd sydd angen sylw a Gweithredoedd Hwyr 9
Materion / Risgiau fesul Blwyddyn 10
Materion / Risgiau a Godwyd ac y mae angen gweithredu arnynt yn 2022-23 11
MATERION SY'N BERTHNASOL I BARATOI'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 12
EIN PERFFORMIAD 13
Ychwanegu Gwerth 13
Mesurau Perfformiad 13
Meincnodi 14
HYFFORDDI A DATBLYGIAD 15
CYDYMFFURFIO Â SAFONAU ARCHWILIO MEWNOLY SECTOR CYHOEDDUS 16
Asesiad Allanol (Safon 1312) 16
Datganiad o Annibyniaeth (Safon 1110) 16
HERIAU A CHYFLEOEDD I'R DYFODOL 17
ATODIAD A: DIFFINIAD O RADDFEYDD SICRWYDD 2022-23 18
ATODIAD B: SICRWYDD TRYDEDD LINELL - RISGIAU GWEDDILLIOL COCH AC AMBR YN Y GOFRESTR RISG STRATEGOL 2022-23 19
ATODIAD C: SICRWYDD TRYDEDD LINELL - GWAITH ARCHWILIO MEWNOL ARALL YN 2022-23 22

# CYFLWYNIAD

**Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) mae'n rhaid i'r 'prif swyddog archwilio', sef y Pennaeth Archwilio a Risg yn achos y Cyngor, gyflwyno barn archwilio mewnol y gall y sefydliad ei defnyddio i lywio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol[1].**

Mae'r farn flynyddol yn cynnwys:

- Barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu'r sefydliad.
- Datgelu unrhyw amodau ar y farn honno, ynghyd â'r rheswm am yr amod.
- Crynodeb o'r gwaith archwilio y mae'r farn yn seiliedig arno, yn cynnwys dibyniaeth a roddwyd ar gyrff sicrwydd eraill.
- Unrhyw faterion sydd, ym marn y prif swyddog archwilio, yn arbennig o berthnasol wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Crynodeb o berfformiad y swyddogaeth archwilio mewnol yn erbyn ei fesurau perfformiad.
- Sylwadau ar gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) a rhannu canlyniadau'r rhaglen sicrhau ansawdd Archwilio Mewnol.
- Datganiad o Annibyniaeth

[1] O dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mae'n rhaid adrodd ar adolygiad o drefniadau llywodraethu yn fewnol, i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn achos y Cyngor, ac yn allanol yn y cyfrifon a gyhoeddir. Adolygiad blynyddol o systemau rheoli mewnol yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) ac mae'n casglu sicrwydd o wahanol ffynonellau i'w ategu. Mae Archwilio Mewnol yn gyfrannwr allweddol ac mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn darparu adroddiad blynyddol ysgrifenedig ar gyfer y sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu i ategu'r DLlB.

# BARN ARCHWILIO MEWNOL

## Barn y Pennaeth Archwilio a Risg 2022-23

Ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, barn Pennaeth Archwilio a Risg Cyngor Sir Ynys Môn yw bod gan y sefydliad fframwaith ddigonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol.

Er nad wyf yn ystyried bod unrhyw feysydd o bryder corfforaethol sylweddol, mae angen cyflwyno neu wella rheolaethau mewnol mewn rhai meysydd i sicrhau fod amcanion yn cael eu cyflawni, a'u bod yn cael eu monitro.

Nid oes unrhyw amodau ar y farn hon.

# SAIL FY MARN

## Sgôp

Rydw i wedi cyrraedd fy marn trwy ystyried y gwaith a'r gweithgareddau a gyflawnwyd gennym yn ystod y flwyddyn, sy'n cael ei drafod ymhellach isod. Nid yw'r farn yn awgrymu ein bod wedi adolygu'r holl risgiau a sicrwydd yn ymwneud â'r Cyngor. Mae'n deillio'n sylweddol o bennu strategaeth seiliedig ar risg, y mae rheolwyr wedi cyfrannu ati ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin 2022. Dylai ddarparu sicrwydd rhesymol, yn amodol ar y cyfyngiadau cynhenid isod.

## Cyfyngiadau

Dim ond y materion a ddaeth i'n sylw wrth i ni gyflawni ein gwaith a'n gweithgareddau o fewn y Cyngor a godir yn yr adroddiad hwn. Nid ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli neu'r holl welliannau y gellir eu gwneud. Ni ddylid ystyried chwaith bod yr adroddiad hwn, nac ein gwaith, yn disodli cyfrifoldeb rheolwyr i roi arferion rheoli mewnol cadarn ar waith. Pwysleisiwn mai cyfrifoldeb rheolwyr yw sicrhau system gadarn o reolaethau mewnol ac ni ddylid dibynnu ar ein gwaith i nodi'r holl gryfderau a gwendidau a all fodoli.

## Sicrwydd Trydedd Linell[2]

Yr allwedd i fedru cael sicrwydd digonol fel sail i'r farn oedd rhoi ystyriaeth i adolygiadau archwilio mewnol o'r risgiau strategol a gwaith archwilio arall, a'r graddfeydd sicrwydd a ddarparwyd:

### Archwilio Risgiau Strategol

Yn ystod 2022-23, yn dilyn cynnal adolygiad cynhwysfawr o risgiau'r Cyngor wrth gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol, barnwyd bod 11 ohonynt (13 yn 2021-22) â gradd risg weddilliol coch neu ambr a chawsant eu cofnodi yn y gofrestr risg strategol.

[2] Mae diffiniadau o raddfeydd sicrwydd oedd ar waith yn 2022-23 i'w gweld yn Atodiad A

Rydym yn anelu i archwilio 80% o risgiau gweddilliol coch ac ambr yn ystod cylch dwy flynedd. Adolygom 9 (82%) (10 / 83% yn 2021-22) o'r risgiau hyn yn ystod cyfnod o 24 mis (Manylion yn Atodiad B).

Roeddem yn gallu darparu sicrwydd **Rhesymol** bod y Cyngor yn rheoli pob risg strategol a adolygwyd gennym yn effeithiol, heblaw am un.

Dim ond sicrwydd **Cyfyngedig** yr oeddem yn gallu ei roi ar gyfer un archwiliad (Rheoli Gwendidau TG) ym mis Medi 2022 ac fe wnaethom ailymweld â'r maes ym mis Ionawr 2023.

Roedd canlyniadau'r ail ymweliad yn gadarnhaol. Roedd y Tîm TG wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â'r materion/risgiau a nodwyd yn ystod ein hadolygiad gwreiddiol ac roedd gwaith ar y ddau arall wedi hen ddechrau. Dim ond un targed amser oedd yn llithro, a hynny o fis yn unig. Roeddem yn fodlon fod y trefniadau i reoli'r risgiau'n gysylltiedig â gwendidau TG a phatsys wedi gwella ers ein hadolygiad gwreiddiol, ac felly roeddem yn gallu cynyddu'r lefel sicrwydd i **Rhesymol**. Rydym yn awr yn parhau i fonitro'r ddwy weithred sy'n weddill fel rhan o'n system fonitro fewnol i sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus a bod y materion/risgiau cysylltiedig yn derbyn sylw.

## Gwaith Archwilio Arall

Adolygom feysydd allweddol eraill o weithgareddau'r Cyngor hefyd, yn cynnwys meysydd yr oedd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 a'r Tîm Arweinyddiaeth wedi codi pryderon yn eu cylch (Manylion yn Atodiad C).


O'r 11 archwiliad (17 yn 2021-22) o'r math hwn a gynhaliwyd yn 2022-23, er nad oeddem yn gallu darparu unrhyw sicrwydd **Sylweddol** (un yn 2021-22), roeddem yn gallu darparu sicrwydd **Rhesymol** i saith (wyth yn 2021-22) a sicrwydd **Cyfyngedig** i ddau (chwech yn 2021-22).

Cynhaliwyd dau adroddiad sicrwydd cyfyngedig yn hwyr yn y flwyddyn; Galw Gofal (Trefniadau Llywodraethu Partneriaeth) ym mis Ionawr 2023 ac Adennill Mân Ddyledion y Cyngor ac effaith Covid-19 ym mis Chwefror 2023, a byddwn yn eu dilyn i fyny yn ystod 2023-24.

Ni roddwyd graddfeydd sicrwydd i ddau ymchwiliad.

## Graddfeydd Sicrwydd Archwilio Mewnol a roddwyd yn ystod 2022-23

Yn gyffredinol, roeddem yn medru darparu sicrwydd **Rhesymol** neu well ar gyfer 83% (67% yn 2021-22) o'r archwiliadau sicrwydd a gynhaliwyd gennym yn 2022-23.




Derbyniodd tri archwiliad (17%) sicrwydd **Cyfyngedig** yn ystod y flwyddyn, o gymharu â chwech (25%) yn 2021-22. Yn unol â'n protocol, rydym yn ailymweld yn ffurfiol â'r holl 'Faterion/Risgiau' a godwyd mewn adroddiadau sicrwydd **Cyfyngedig** ar derfyn y cyfnod gweithredu, er mwyn sicrhau eu bod yn cael sylw effeithiol.

Ni roddwyd **Dim** sicrwydd i unrhyw archwiliad ac ni chodwyd unrhyw 'faterion/risgiau' 'Critigol' (coch) yn ystod y flwyddyn.

Ble nodwyd 'Materion/Risgiau' gennym, derbyniodd rheolwyr pob un ohonynt. Cafodd y 'Materion/Risgiau' oedd yn weddill eu monitro trwy eu cofnodi yn ein system dracio gweithredoedd a drafodir ymhellach yn yr adran a ganlyn.

# MATERION / RISGIAU A GODWYD


Rydym yn defnyddio system dracio gweithredoedd y Cyngor, 4action, i fonitro'r 'Materion' a 'Risgiau' a godir gennym yn ystod ein gwaith. Rydym yn parhau i ddatblygu a mireinio ein dangosfwrdd, sy'n rhoi darlun amser real o berfformiad cyfredol wrth fynd i'r afael â gweithredoedd sydd angen sylw ac mae'n caniatáu i ni dracio ac adrodd ar y wybodaeth hon yn effeithiol. Rydym yn monitro gweithredoedd 'hwyr' yn barhaus ac felly rydym yn gallu cael diweddariadau gan reolwyr ynglŷn â chynnydd wrth fynd i'r afael â nhw.


Rydym hefyd wedi datblygu dangosfwrdd pwrpasol ar gyfer gwasanaethau i gynorthwyo Penaethiaid Gwasanaeth a'u timau rheoli i fonitro a darparu diweddariadau ar eu gweithredoedd.

Dengys y graffiau a ganlyn y gweithredoedd sydd angen sylw ar 31 Mawrth 2023. Yn anorfod, mae effaith yr argyfwng Covid-19 a'r cyfnod adfer sy'n parhau ar rai gwasanaethau wedi effeithio ar eu gallu i fynd i'r afael â gweithredoedd sydd angen sylw yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Fodd bynnag, dylid nodi na chodwyd unrhyw faterion/risgiau 'Critigol' (coch) yn ystod y flwyddyn ac nid oes unrhyw 'faterion/risgiau' 'Critigol' (coch) angen sylw ar hyn o bryd.

## Gweithredoedd sydd angen sylw a Gweithredoedd Hwyr








Ar 31 Mawrth 2023, roeddem yn monitro 49 gweithred trwy ein system dracio (62 ar 31 Mawrth 2022). O'r rhain, roedd 12 (17 yn 2021-22) yn 'sylweddol' (ambr) a 37 (45 yn 2021-22) yn 'gymedrol' (melyn) o ran blaenoriaeth risg, fel y dangosir ar y chwith uchod.

Rydym yn monitro pob gweithred ac yn cysylltu â rheolwyr yn eu cylch ar derfyn y cyfnod gweithredu i sicrhau bod rheolwyr wedi rhoi sylw effeithiol iddynt. Ar hyn o bryd mae un weithred (dwy yn 2021-22) wedi cyrraedd diwedd y cyfnod gweithredu a osodwyd i reolwyr ac yn 'hwyr' erbyn hyn, fel y dangosir ar y dde uchod.

Mae'n fater/risg 'sylweddol' ac mae'n gysylltiedig ag archwiliad o Ddyrannu Tai, ac, yn fwy penodol, datblygu a gwella'r broses o ymgeisio am Dai, ac mae'n cael ei drafod mewn mwy o fanylder isod.

## Materion / Risgiau fesul Blwyddyn





Roedd y 49 (62 yn 2021-22) weithred yr ydym yn eu monitro wedi eu codi rhwng 2018-19 a 2022-23.


Er bod y graff uchod yn dangos fod y mwyafrif yn ymwneud â'r ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, mae un mater/risg o 2018-19 nad yw rheolwyr wedi mynd i'r afael ag o'n llawn eto. Mae'r mater/risg hwn yn ymwneud â gwella gosodiadau cymhlethdod cyfrineiriau ar gyfer system archebu allanol gwasanaeth Hamdden y Cyngor ac mae'n ymwneud â blaenoriaeth risg 'cymedrol'. Mae'n cael sylw fel rhan o'r broses o roi system Hwb Hamdden newydd ar waith. Mae oedi o ran cytuno ar ddyddiad lansio'r system gyda'r cyflenwr meddalwedd oherwydd problemau technegol. Ar hyn o bryd mae'r tîm TG yn gweithio gyda'r darparwr meddalwedd i ddatrys y broblem hon.

Nid oes unrhyw faterion/risgiau 'sylweddol' cyn 2020-21 yn parhau i fod angen sylw. Dengys hyn fod rheolwyr yn blaenoriaethu mynd i'r afael â risgiau sydd â blaenoriaeth uwch. Yn ogystal, i sicrhau fod gwasanaethau'r mynd i'r afael yn llwyddiannus â'u materion/risgiau'n brydlon, os nad yw mater/risg 'sylweddol' wedi'i ddatrys 12 mis ar ôl y dyddiad cwblhau gwreiddiol, gofynnir i berchnogion y weithred fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i esbonio'r rhesymau am yr oedi wrth fynd i'r afael â'r mater/risg.

Ar hyn o bryd mae un mater/risg 'sylweddol' yn ymwneud ag archwiliad o Ddyrannu Tai a gwella'r broses ymgeisio am Dai. Mynychodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai Cymunedol gyfarfod y Pwyllgor ar 18 Ebrill 2023 i roi diweddariad pellach.

## Materion / Risgiau a Godwyd ac y mae angen gweithredu arnynt yn 2022-23




Yn ystod 2022-23, codwyd 36 (31 yn 2021-22) o 'faterion/risgiau' yr oedd angen i reolwyr roi sylw iddynt. O'r rhain, roedd chwech (naw yn 2021-22) yn 'sylweddol' (ambr) a 30 (22 yn 2021-22) yn 'gymedrol' (melyn).

Roedd naw o'r gweithredoedd a godwyd angen eu cwblhau yn 2021-22 (pump yn 2021-22), ac roedd rheolwyr wedi mynd i'r afael â bob un o'r naw (pump yn 2021-22) cyn 31 Mawrth 2023. Mae hyn yn berfformiad o 100% yn y maes hwn (100% yn 2021-22).

# MATERION SY'N BERTHNASOL I BARATOI'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL


**Nid oes unrhyw faterion sydd â risg neu effaith sylweddol uchel sy'n cyfiawnhau eu cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.**

Yn ystod 2022-23, rydym wedi gweld bod uwch reolwyr yn y Cyngor yn gefnogol ac yn ymateb i'r materion a godwyd gennym. Mae gennym berthynas dda â rheolwyr; maent yn agored am y rhesymau y maent yn eu hystyried fel rhai lle gallai problemau godi ac maent yn derbyn canlyniadau ein gwaith fel cyfle i wneud gwelliannau.

Cawson ein comisiynu hefyd i wneud gwaith ymgynghorol yn ystod y flwyddyn ar gais rheolwyr, sy'n arwydd cryf bod rheolwyr yn fodlon ymgysylltu â'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol i sefydlu amgylchedd da ar gyfer rheoli risg.

# EIN PERFFORMIAD

Wrth gyflawni'r strategaeth archwilio seiliedig ar risg, mae'r Pennaeth Archwilio a Risg, gyda chymorth y Tîm Arweinyddiaeth, wedi gwneud pob ymdrech i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau archwilio mewnol oedd ar gael yn ystod y flwyddyn, fel a ganlyn:




## Ychwanegu Gwerth

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi ceisio ychwanegu gwerth lle bynnag y bo'n bosib. Rydym wedi parhau i gefnogi rheolwyr ar draws y Cyngor trwy ddarparu hyfforddiant a chyngor a chaffael adnoddau allanol i ddarparu sicrwydd, megis hyfforddiant ac archwiliadau yn ymwneud â Chronfeydd Answyddogol Ysgolion ac Archwiliad TG.

Yn ogystal, rydym wedi parhau i gefnogi cyfoedion yn y rhanbarth, yn genedlaethol ar draws Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr, trwy rannu arfer dda a rhaglenni gwaith, ynghyd â meysydd lle mae risgiau'n dod i'r amlwg.

## Mesurau Perfformiad

Mae gennym raglen sicrhau ansawdd a gwella ar waith i sicrhau gwelliant parhaus ein gwasanaeth archwilio mewnol. Ym mis Mehefin 2022 cytunodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar nifer o dargedau perfformiad yn y Strategaeth ar gyfer 2022-23, a gellir eu gweld isod.

| Dangosydd Perfformiad | Perfformiad 2020-21 | Perfformiad 2021-22 | Targed 2022-23 | Perfformiad 2022-23 |
|---|---|---|---|---|
| Risgiau Gweddilliol Coch ac Ambr yn y Gofrestr Risg Strategol a archwiliwyd (dros gyfnod treigl o 24 mis) Atodiad B | 28% | 83% | **80%** | 82% |
| Archwiliadau a gwblhawyd mewn chwe mis | 85% | 76% | **85%** | 89% |
| Ymateb cleientiaid yn 'foddhaol' neu well | 100% | 100% | **100%** | 100% |
| Nifer staff | 2.6 CALI | 3.1 CALI | **5.0 CALI** | 3.0 CALI |

CALI - Cyfystyr ag amser llawn

Rydym wedi perfformio'n dda yn erbyn y rhan fwyaf o'n targedau, gyda thri o'r pedwar dangosydd yn cyrraedd eu targed. Yn holl bwysig, rydym wedi cyflawni ein targed o adolygu 80% o'r risgiau gweddilliol coch ac ambr yn y Gofrestr Risg Strategol yn rhwydd, a rhydd hynny sicrwydd digonol i ganiatáu'r Pennaeth Archwilio a Risg ddarparu Barn Archwilio Flynyddol.

Er gwaethaf llwyddiant ymarfer recriwtio ddiwedd 2021, unwaith eto rydym wedi methu â chyrraedd ein targed o gadw pum aelod o staff cyfystyr ag amser llawn (CALI) yn ystod y flwyddyn, oherwydd secondiad, gweithio rhan-amser a dyrchafiad mewnol.

Tra bod y secondiad yn parhau, defnyddiom arbenigedd allanol i gynnal archwiliadau TG ac archwiliadau o risgiau'r gofrestr risg strategol. Mae hyn wedi bod mor llwyddiannus, rydym wedi penderfynu parhau â'r dull hwn a pheidio â llenwi'r swydd sy'n wag oherwydd secondiad, er mwyn darparu cyllid ar gyfer yr arbenigedd allanol.

Yn dilyn dyrchafiad mewnol ym mis Awst 2022, a dau ymgais i recriwtio, llwyddwyd i recriwtio Uwch Archwilydd i ymuno â'r tîm o 1 Ebrill 2023.


## Meincnodi

Fel arfer rydym yn meincnodi ein perfformiad yn erbyn 22 aelod Grŵp Prif Archwilwyr Cymru. Fodd bynnag, oherwydd y pandemig, mae gwaith meincnodi wedi cael ei ganslo am y drydedd flwyddyn. Cyn Covid, roedd tua 19 cyngor yn cymryd rhan yn rheolaidd yn yr ymarfer meincnodi. Fodd bynnag, oherwydd pryderon am y gallu i gymharu'r data a'i natur weithredol, mae Grŵp Prif Archwilwyr Cymru wedi sefydlu gweithgor i adolygu'r mesurau ac mae set newydd o fesurau'n cael eu treialu ar hyn o bryd, a chafwyd ymrwymiad i ailgychwyn yr ymarfer meincnodi o 2023-24.

# HYFFORDDI A DATBLYGIAD

Mae pob aelod presennol o'r tîm wedi cymhwyso'n broffesiynol ac mae ganddynt gymysgedd dda o gymwysterau proffesiynol, yn cynnwys CIPFA[3], CIIA[4], IRRV[5], ACFS[6], ACFTech[7] a AAT[8]. Mae'r gwasanaeth wedi buddsoddi'n sylweddol i sicrhau eu bod yn parhau i ddatblygu'n broffesiynol a'u bod yn ymwybodol o'r risgiau a'r datblygiadau sy'n dod i'r amlwg yn y sector. Yn ogystal, rydym wedi cymryd rhan ym mhob hyfforddiant corfforaethol gorfodol, lle'r oedd hynny'n ofynnol.

Yn ystod 2022-23, mae gwasanaeth wedi buddsoddi cyfanswm o 67[9] (10%) diwrnod hyfforddi a datblygu, yn cynnwys y canlynol:




[3] CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth) yw'r corff proffesiynol ar gyfer pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus.
[4] Mae CIIA (Sefydliad Siartredig Archwilwyr Mewnol) yn gymdeithas broffesiynol ar gyfer archwilwyr mewnol.
[5] Yr IRRV (Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw) yw'r corff proffesiynol ar gyfer trethi lleol, budd-daliadau a phrisio.
[6] Yr ACFS (Arbenigwr Atal Twyll Achrededig) yw'r cymhwyster proffesiynol atal twyll sy'n cael ei achredu gan y Bwrdd Achredu Proffesiynol Atal Twyll.
[7] Mae ACFTech yn gymhwyster atal twyll sy'n cael ei ddarparu gan CIPFA a'i achredu gan y Bwrdd Achredu Proffesiynol Atal Twyll.
[8] Cymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu
[9] Cyfanswm o 88 diwrnod (9%) yn 2021-22.

# CYDYMFFURFIO Â SAFONAU ARCHWILIO MEWNOLY SECTOR CYHOEDDUS

## Asesiad Allanol (Safon 1312)

Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae’n rhaid i wasanaethau archwilio mewnol dderbyn asesiad allanol unwaith bob pum mlynedd, ac mae’n rhaid iddo gael ei gynnal gan asesydd neu dîm asesu cymwys ac annibynnol o du allan i’r sefydliad.

Roedd asesiad allanol o Wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn i fod i gael ei gynnal ym mis Mehefin, ond, cafodd ei ohirio ar gais yr arolygydd cymheiriaid, Cyngor Sir y Fflint, tan fis Medi 2022.

Cadarnhaodd yr asesiad, a gwblhawyd ym mis Mai 2023:
*‘Wedi i Gyngor Sir y Fflint ddilysu’r hunanasesiad, mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn yn ‘Cydymffurfio’n Gyffredinol’ â’r gofynion. ‘Cydymffurfio’n Gyffredinol’[10] yw’r lefel uchaf o gydymffurfiaeth yn dilyn asesiad allanol - Yn gyffredinol, mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn yn cydymffurfio â’r safonau ym mhob maes arwyddocaol ac mae’n gweithredu’n annibynnol ac yn wrthrychol.’*

## Datganiad o Annibyniaeth (Safon 1110)

Yn unol â Safon 1110, mae’n rhaid i’r prif swyddog archwilio gadarnhau, o leiaf unwaith y flwyddyn, annibyniaeth y gweithgarwch archwilio mewnol. Mae’r Siarter Archwilio Mewnol yn diffinio sut y caiff annibyniaeth archwilio mewnol ei sefydlu a’i gynnal. Mae’n cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob blwyddyn ac fe’i cyflwynwyd i’r Pwyllgor ei ystyried yn fwyaf diweddar ar 8 Rhagfyr 2022.

Yn unol â hynny, nid yw’r Pennaeth Archwilio a Risg wedi cymryd unrhyw ran yn y gwaith o gynnal ac adrodd ar archwiliadau mewn meysydd lle mae gwrthdaro’n bodoli, yn unol â’r Siarter Archwilio Mewnol.

---

[10] Mae 'Cydymffurfio'n Gyffredinol' yn golygu bod y gwerthuswr wedi dod i'r casgliad bod strwythurau, polisïau a gweithdrefnau perthnasol y gwasanaeth archwilio mewnol, yn ogystal â'r prosesau i'w gweithredu, yn cydymffurfio â gofynion y Safon neu'r elfen unigol o'r Côd Moeseg ym mhob ffordd berthnasol. Ar gyfer yr adrannau a'r prif gategorïau, mae hyn yn golygu bod cydymffurfiaeth gyffredinol â mwyafrif o Safonau neu elfennau unigol y Côd Moeseg, ac o leiaf gydymffurfiaeth rannol â'r lleill, yn yr adran / categori. Efallai bod cyfleoedd sylweddol i wella, ond ni chaiff y rhain fod yn sefyllfaoedd lle nad yw'r gwasanaeth wedi gweithredu'r Safonau neu'r Côd Moeseg, neu heb eu gweithredu'n effeithiol, neu heb gyflawni'r amcanion a fwriadwyd ar eu cyfer.

# HERIAU A CHYFLEOEDD I'R DYFODOL

Ynghyd â gweddill y Cyngor, mae'r tîm Archwilio Mewnol wedi ymateb ac addasu i ffyrdd newydd o weithio yn sgil y pandemig Covid-19. Ailgyfeiriwyd adnoddau gennym er mwyn cwrdd â'r heriau newydd ac mae'r tîm yn parhau i fanteisio ar y dull ystwyth hwn.

Mae gan archwilio mewnol rôl hanfodol i'w chwarae wrth gefnogi sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus i gyflawni eu nodau. Mae arddangos stiwardiaeth dros arian cyhoeddus, adeiladu a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y penderfyniadau a wneir, a chyflawni dyfodol cynaliadwy i drethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn ddisgwyliadau sylfaenol i bawb sy'n gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus. Gan weithio ar y cyd â fframweithiau llywodraethu, risg, rheolaeth a sicrwydd y Cyngor, gall Archwilio Mewnol gyfrannu at y we gymhleth hon o ddisgwyliadau, rhwymedigaethau, uchelgeisiau a heriau trwy ddarparu cymorth mewn ffordd unigryw ac annibynnol.

Mae gofynion sicrwydd yn hylifol ac yn datblygu'n gyson, sy'n golygu bod yn rhaid i archwilio mewnol gadw i fyny â chyflymder y newid er mwyn aros yn berthnasol.

Mae datblygiadau mewn technoleg yn cyflwyno cyfleoedd newydd a dulliau arloesol o gyflawni archwiliadau mewnol. Rydym yn defnyddio dadansoddeg data i brofi setiau data llawn, i ganfod risgiau cudd, ac i dargedu ein profion; mae'n ein galluogi i ddadansoddi nifer fawr o ddata er mwyn adnabod tueddiadau, patrymau, ac anomaleddau a allai ddangos risgiau posibl neu gyfleoedd i wella, sy'n ychwanegu gwerth a mewnwelediad i'r gwaith a gynhyrchwn.

Er mwyn cyflawni hyn mae angen archwilwyr mewnol hyfforddedig[11] a gefnogir gan ddulliau modern a safonau proffesiynol. Mae'n gofyn am gapasati a gallu. Mae trosiant staff wedi creu her i sicrhau bod archwilwyr digon profiadol i gwblhau gwaith mwy cymhleth, yn ogystal â darparu hyfforddiant a chymorth i aelodau newydd o staff. Fodd bynnag, mae tîm brwdfrydig ac ymroddedig yn gosod archwilio mewnol mewn sefyllfa gadarn i sicrhau bod ei strategaeth yn cael ei chyflawni ac eu bod yn parhau i gefnogi'r Cyngor fel elfen allweddol o'i strwythur llywodraethu.

---

[11] Cymhwysodd ein Uwch Archwilydd yn ddiweddar ar Dystysgrif CIPFA mewn Gwyddor Data, a gyflwynwyd mewn partneriaeth ag Academi Gwyddor Data Southampton.

# ATODIAD A: DIFFINIAD O RADDFEYDD SICRWYDD 2022-23

| Lefel Sicrwydd | Diffiniad |
|---|---|
| Sicrwydd Sylweddol | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **dda**.<br><br>**Dim Risgiau/Materion sylweddol nac o bwys wedi eu canfod.** |
| Sicrwydd Rhesymol | Mae trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a / neu reolaeth fewnol yn **rhesymol**.<br><br>**Mae mân wendidau o ran rheoli risgiau a / neu fesurau rheoli ond nid oes unrhyw risgiau o ran cyflawni amcanion. Gall Rheolwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth roi sylw i'r rhain.** |
| Sicrwydd Cyfyngedig | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a / neu reolaeth fewnol yn **gyfyngedig**.<br><br>**Mae gwendidau sylweddol wrth reoli risgiau a / neu reolaethau sy'n peryglu cyflawni amcanion. Mae angen i Benaethiaid Gwasanaeth eu datrys ac efallai y bydd angen hysbysu'r UDA.** |
| Dim Sicrwydd | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol **yn sylweddol ddiffygiol**.<br><br>**Mae gwendidau sylfaenol wrth reoli risgiau / a neu reolaethau a fydd yn arwain at fethu â chyflawni amcanion. Mae angen i'r UDA roi sylw iddynt ar unwaith ac efallai y bydd angen ymyrraeth y Pwyllgor Gwaith.** |

Yn ôl i'r Adran

# ATODIAD B: SICRWYDD TRYDEDD LINELL – RISGIAU GWEDDILLIOL COCH AC AMBR YN Y GOFRESTR RISG STRATEGOL 2022-23

| Cyf Risg | Risg | Blaenoriaeth Risg Cynhenid | Blaenoriaeth Risg Gweddilliol | Dyddiad Creu | Blwyddyn Archwilio 2018/19 | Blwyddyn Archwilio 2019/20 | Blwyddyn Archwilio 2020/21 | Blwyddyn Archwilio 2021/22 | Blwyddyn Archwilio 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM1 | Risg bod y gostyngiad gwirioneddol yng nghyllid y Cyngor yn arwain at gwtogi gwasanaethau statudol, methu â chyflawni blaenoriaethau a mwy o bwysau staffio | E / I = 5 T / L = 4 B1 (20) | E / I = 4 T / L = 4 B2 (16) | 14/05/2019 12/01/2022 | | Gwytnwch Ariannol (Ebrill 2020) | | | Gwytnwch Ariannol (Tachwedd 2022) |
| YM2 | Risg bod y Cyngor yn methu recriwtio, cadw a datblygu staff addas, neu nad yw'r strwythur staffio yn addas i ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. | E / I = 4 T / L = 5 A2 (20) | E / I = 4 T / L = 4 B2 (16) | 20/06/2018 12/01/2022 | Recriwtio a Chadw (Mawrth 2019) | | | | Recriwtio a Chadw (Mehefin 2022) |
| YM3 | Risg bod methiant TG yn amharu'n sylweddol ar ddarparu gwasanaethau | E / I = 5 T / L = 5 A1 (25) | E / I = 4 T / L = 4 B2 (16) | 10/09/2018 12/01/2022 | | Archwiliad TG - Gwytnwch TG (Ebrill 2020) | Archwiliad TG - Gwytnwch TG (Dilyn i Fyny) (Mai 2021) | Archwiliad TG - Rheoli Trwyddedau Meddalwedd* (Ionawr 2022) | Archwiliad TG - Cyfrifiadura yn y Cwmwl (Mawrth 2023) |
| YM4 | Risg bod ymosodiad seiber yn cael effaith | E / I = 5 T / L = 5 A1 (25) | E / I = 5 T / L = 3 C1 (15) | 21/06/2018 12/01/2022 | Archwiliad TG - Seibr Ddiogelwch | | Archwiliad TG - Parhad Gwasanaeth | | Archwiliad TG - Parhad Gwasanaeth TG |

| Cyf Risg | Risg | Blaenoriaeth Risg Cynhenid | Blaenoriaeth Risg Gweddilliol | Dyddiad Creu | Blwyddyn Archwilio 2018/19 | Blwyddyn Archwilio 2019/20 | Blwyddyn Archwilio 2020/21 | Blwyddyn Archwilio 2021/22 | Blwyddyn Archwilio 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | sylweddol ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau rheng flaen a gwasanaethau cefnogol ac y bydd y Cyngor yn derbyn dirwy sylweddol gan y Comisiynydd Gwybodaeth | | | | (Chwefror 2019) | | TG (Gwe-rwydo) (Ebrill 2021) | | (Gwe-rwydo) (Dilyn i Fyny) (Medi 2022)<br>Rheoli Gwendidau TG (Medi 2022)<br>Rheoli Gwendidau TG (Dilyn i Fyny) (Ionawr 2023) |
| YM5 | Risg nad yw ysgolion yr Ynys yn addas i gwrdd â heriau addysgol yn y dyfodol a bod hyn yn effeithio ar safonau | E / I = 4 T / L = 5 A2 (20) | E / I = 4 T / L = 4 B2 (16) | 20/06/2018 12/01/2022 | Cais gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc i ohirio'r archwiliad oherwydd bod y rhaglen wedi'i hatal dros dro | | | | Archwiliad wedi cychwyn ym mis Mawrth 2023 bydd yn parhau yn 2023-24 |
| YM7 | Risg bod newid tu hwnt i reolaeth y Cyngor (e.e. Brexit, pandemig covid) yn effeithio ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau fforddiadwy | E / I = 4 T / L = 4 B2 (16) | E / I = 3 T / L = 4 B3 (12) | 20/06/2018 12/01/2022 | | Rheoli Risgiau Brexit (Ionawr 2020)<br>Parhad Busnes (Chwefror 2020) | Adolygu'r Ymateb i'r Argyfwng COVID-19 (Ebrill 2020) | Sicrwydd Rheoli Argyfwng COVID-19 (Mai 2021) | |
| YM9 | Risg o ddiffyg tai addas y gall preswylwyr lleol eu fforddio yn eu cymunedau | E / I = 4 T / L = 5 A2 (20) | E / I = 4 T / L = 5 A2 (20) | 12/01/2022 | | | | | Trefniadau'r Cyngor ar gyfer darparu tai addas (Mehefin 2022) |
| YM10 | Risg bod camgymeriad diogelu difrifol yn arwain at neu'n | E / I = 5 T / L = 4 B1 (20) | E / I = 4 T / L = 2 D2 (8) | 20/06/2018 12/01/2022 | Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o | | Panel Rhiantu Corfforaethol (Ionawr 2021) | | Archwiliad wedi cychwyn ym Mawrth 2023 a |

| Cyf Risg | Risg | Blaenoriaeth Risg Cynhenid | Blaenoriaeth Risg Gweddilliol | Dyddiad Creu | Blwyddyn Archwilio 2018/19 | Blwyddyn Archwilio 2019/20 | Blwyddyn Archwilio 2020/21 | Blwyddyn Archwilio 2021/22 | Blwyddyn Archwilio 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | cyfrannu at niwed difrifol i'r unigolion bregus hynny y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt | | | | Ryddid (Mehefin 2018) | | | | bydd yn parhau yn 2023-24 |
| YM11 | Risg bod tlodi cynyddol yn cynyddu'r galw am wasanaethau'r Cyngor | E / I = 4 T / L = 5 A2 (20) | E / I = 4 T / L = 5 A2 (20) | 18/08/2020 12/01/2022 | Diwygio Lles (Ebrill 2019) | | | | Tlodi (Mawrth 2023) |
| YM13 | Risg na all y Cyngor addasu i fod yn Awdurdod carbon niwtral erbyn 2030 | E / I = 4 T / L = 4 B2 (16) | E / I = 4 T / L = 3 C2 (12) | 12/01/2022 | | | | | Gwiriad Iechyd Newid Hinsawdd (ZM) (Medi 2022) |
| YM14 | Risg nad yw asedau ffisegol yr Ynys (e.e. adeiladau, ffyrdd, rhwydwaith TG) yn addas i bwrpas, neu nad ydynt yn diwallu anghenion preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr | E / I = 5 T / L = 5 A1 (25) | E / I = 4 T / L = 4 B2 (16) | 12/01/2022 | | | | Buddsoddi mewn Asedau (Tachwedd 2021) | |

Yn ôl i'r Adran

# ATODIAD C: SICRWYDD TRYDEDD LINELL – GWAITH ARCHWILIO MEWNOL ARALL YN 2022-23

| Teitl yr Archwiliad | Dyddiad yr Adroddiad Terfynol | Lefel Sicrwydd | Critigol | Sylweddol | Cymedrol |
|---|---|---|---|---|---|
| Twyll a Llygredd ym maes Caffael (Risg corfforaethol YM46 yn flaenorol) | Awst 2022 | Rhesymol | 0 | 0 | 6 |
| Ad-daliadau Treth Gyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol | Tachwedd 2022 | Rhesymol | 0 | 0 | 4 |
| Taliadau Uniongyrchol | Medi 2022 | Rhesymol | 0 | 0 | 5 |
| Ymdrin ag Arian Parod yng Nghyswllt Môn | Tachwedd 2022 | Rhesymol | 0 | 0 | 3 |
| Taliadau Dyblyg | Tachwedd 2022 | Amherthnasol | 0 | 0 | 0 |
| Galw Gofal (Trefniadau Llywodraethu Partneriaeth) | Ionawr 2023 | Cyfyngedig | 0 | 1 | 4 |
| Grant Cronfa Adfywio Cymunedol | Ionawr 2023 | Rhesymol | 0 | 0 | 0 |
| Diogelwch Nwy | Ebrill 2023 | Rhesymol | 0 | 1 | 5 |
| Camgymeriad yn Nebyd Uniongyrchol y Dreth Gyngor | Ionawr 2023 | Amherthnasol | 0 | 0 | 1 |
| Adennill Mân Ddyledion y Cyngor ac effaith Covid-19 (dilyn i fyny am yr ail dro) | Chwefror 2023 | Cyfyngedig | 0 | 2 | 3 |
| Nodi anfonebau dyblyg ac adennill taliadau dyblyg / Taliadau - Cynnal Cyflenwyr (dilyn i fyny am yr ail dro) | Ebrill 2023 | Rhesymol | 0 | 0 | 1 |
| | | **11** | **0** | **4** | **32** |

Yn ôl i'r Adran

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 29 Mehefin 2023 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Yswiriant Blynyddol |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awduron yr Adroddiad:** | Julie Jones<br>Rheolwr Risg ac Yswiriant<br>JulieJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae pwyllgorau archwilio'n elfen allweddol o lywodraethu corfforaethol ac yn ffynhonnell bwysig o sicrwydd ynghylch trefniadau sefydliad mewn perthynas â rheoli risg, cynnal amgylchedd rheoli effeithiol ac adrodd ar berfformiad ariannol a pherfformiad arall. O ganlyniad, mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn hyrwyddo ei rôl ehangach ym mhob agwedd o sicrwydd.<br><br>Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r Pwyllgor â gwybodaeth am sut mae'r Cyngor yn rheoli ei weithgareddau yswiriant a'i heriau ar gyfer y dyfodol. | |

# 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn delio â'r trefniadau yswirio a hanes y colledion diweddar ar gyfer y prif feysydd risg lle mae yswiriant.

# 2. ARGYMHELLIAD

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi cynnwys yr adroddiad.



# ADRODDIAD YSWIRIANT BLYNYDDOL 2022-2023

## Mehefin 2023

Julie Jones, Rheolwr Risg ac Yswiriant

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# CYNNWYS

CYFLWYNIAD 1
CRYNODEB HAWLIADAU 3
TUEDDIADAU HAWLIADAU 4
Hawliadau Atebolrwydd y Cyflogwyr 4
Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus 4
Hawliadau Modur 5
Hawliadau Eiddo 5
Hawliadau Cyn 2017 5
HERIAU'R DYFODOL 6
ATODIAD A - CRYNODEB HAWLIADAU 9

*Llun ar y clawr: Rhosneigr yn ystod corwynt Ophelia, Hydref 2017*

# CYFLWYNIAD

Mae gan y Cyngor amrywiaeth o bolisïau yswiriant yn eu lle a’r prif rai yw **atebolrwydd cyhoeddus** ac **atebolrwydd y cyflogwr**, **eiddo** ac yswiriant **modur.**

Mae **polisïau atebolrwydd cyhoeddus** ac **atebolrwydd y cyflogwr** yn indemnio’r Cyngor yn erbyn costau ac iawndal mae’n atebol i dalu pan fydd aelod o’r cyhoedd, busnesau neu weithwyr yn cyflwyno hawliadau o ganlyniad i ddifrod, anafiadau neu salwch sy’n codi o ganlyniad i esgeulustod y Cyngor.

Mae’r polisïau **eiddo** yn digolledu’r Cyngor am ddifrod i’w adeiladau a’u cynnwys yn dilyn difrod a achosir gan beryglon penodol.

Mae **yswiriant modur** yn cyfuno elfen o’r ddau o ran ei fod yn indemnio’r Cyngor yn erbyn difrod neu anafiadau a achosir i drydydd parti gan ei gerbydau ac mae’n digolledu’r Cyngor am ddifrod i’w gerbydau.

Mae’r Cyngor yn defnyddio cyfuniad o **hunain yswiriant** ac **yswiriant allanol** er mwyn diogelu yn erbyn canlyniadau ariannol risg. Mewn rhai achosion mae’r Cyngor wedi trefnu yswiriant allanol ond yn hunain yswirio canran fawr o’r hawliadau sydd wedi eu talu drwy ddewis talu **swm cychwynnol** mawr (**excess**). I leihau'r risg ariannol mae’r Cyngor wedi negodi arhosfa agregau (cap) ar y polisïau hyn ac unwaith mae hwn yn cael ei gyrraedd mae’r yswiriwr yn talu unrhyw hawliadau pellach.

Ers 1 Hydref 2017, mae’r swm cychwynnol (excess) ar gyfer y prif bolisïau fel â chanlyn:

| | |
|---|---|
| **Atebolrwydd Cyhoeddus a Chyflogwr** | £50,000 |
| **Modur** | £1,000 |
| **Eiddo - Ysgolion** | £25,000 |
| **Eiddo - Adeiladau Cyffredinol a Thai** | £10,000 |
| **Eiddo - Mân ddaliadau a Masnachol** | £250 |

Mae hunain ariannu colledion yn rhan o agwedd gyffredinol y Cyngor tuag at reoli risg. Mae'n darparu mwy o gymhelliant i ddelio â risg yn fwy effeithiol o gofio bod unrhyw ostyngiad mewn hawliadau o fudd uniongyrchol i'r Cyngor. Mae hefyd yn lleihau'r premiwm sy'n daladwy ac atebolrwydd y Cyngor ar gyfer Treth Premiwm Yswiriant (sydd ar hyn o bryd yn 12%[1]).

Er mwyn cwrdd elfen hunain yswiriant unrhyw hawliad, mae'r Cyngor wedi sefydlu Cronfa Yswiriant. Fel ar 31 Mawrth 2023, roedd Cronfa Yswiriant y Cyngor yn cynnwys £1.250m mewn Cronfa Arian Wrth Gefn wedi'i chlustnodi a £380k yn y Cyfrif Darpariaeth Yswiriant. Tra ei bod hi'n bwysig sicrhau bod y Gronfa Yswiriant yn cynnwys adnoddau digonol i gwrdd â'i rwymedigaethau, mae yna hefyd gost cyfle i gynnal gwell cydbwysedd na sydd angen. Er mwyn sicrhau bod y Gronfa yn ddigonol i gwrdd â chostau ei hawliadau ond nad yw'n cynnwys gormod o arian wrth gefn, bydd y Rheolwr Yswiriant a Risg, mewn cydweithrediad â'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, yn adolygu'r Gronfa bob blwyddyn.

Yn dilyn gwahodd tendrau yn 2017, dyfarnwyd contract pum mlynedd i Zurich Municipal. Arweiniodd marchnad anghystadleuol, adnoddau cyfyngedig ar gael i wahodd tendrau, a chynnig gan yswiriwr presennol i ymestyn y cytundeb ar delerau oedd yn debygol o fod yn sylweddol well nag unrhyw delerau y byddai'r farchnad yn eu darparu bryd hynny, at y cytundeb gael ei ymestyn am ddwy flynedd yn 2022. Felly, mae'r cytundeb presennol yn dod i ben ar 30 Medi 2024.

Yn 2022/2023 roedd y premiwm yswiriant allanol a dalwyd oddeutu £784k gan gynnwys £80.75k o Dreth Premiwm Yswiriant. Mae hyn yn gynnydd o tua 9.1% ers 2021/2022. Er bod cyfran o hyn yn ymwneud â ffactorau chwyddiant ar y symiau a yswirir, yn enwedig ar gyfer eiddo, bu cynnydd mewn cyfraddau hefyd. Mae'r cynnydd hwn yn y cyfraddau ar draws y sector felly nid yw'n benodol i Ynys Môn, ac maent yn ymwneud yn bennaf ag eiddo a rhai premiymau sy'n gysylltiedig ag enillion wythnosol cyfartalog.

[1] Cynyddodd treth premiwm yswiriant o 6% i 9.5% ym mis Tachwedd 2015, i 10% yn Hydref 2016 ac ar 1 Mehefin 2017, i 12%.

# CRYNODEB HAWLIADAU

Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o hawliadau sydd wedi eu gwneud o dan neu yn erbyn trefniadau yswiriant allanol a mewnol y Cyngor ar gyfer y cyfnod **1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2023**, yn seiliedig ar ddyddiad y digwyddiad ac nid ar ddyddiad gwneud neu gyflwyno'r hawliad, ac ar gyfer hawliadau a gyflwynwyd cyn 1 Ebrill 2023. Cyfanswm cost yr hawliadau yw cyfanswm y gost i'r Cyngor a'i yswiriwr yn cynnwys iawndal a chostau.

Mae crynodeb o'r hawliadau sydd wedi eu cynnwys yn Atodiad A o'r adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad o bob polisi, yn ôl pob blwyddyn ariannol ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd o'r nifer o hawliadau sydd wedi:

- cael eu talu,
- cael eu setlo heb unrhyw gostau na thaliadau, neu
- lle nad yw'r hawliad wedi ei setlo hyd yma.

Mae'r crynodeb hefyd yn cynnwys y swm a dalwyd o ran yr hawliadau hynny a setlwyd a'r swm sydd wedi'i gadw wrth gefn ar gyfer yr hawliadau hynny nad ydynt wedi eu setlo hyd yma.

Dylid pwysleisio na fydd yr holl hawliadau sydd '*dal yn agored'* ac sydd ag arian wrth gefn yn eu herbyn yn cael eu talu neu eu setlo yn unol â'r swm wrth gefn sydd yn er herbyn. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer hawliadau atebolrwydd; bydd hawliadau ag arian wrth gefn mawr yn eu herbyn yn aml yn cael eu setlo am symiau llawer is neu am ddim costau o gwbl.

Gall nifer yr hawliadau hefyd gynyddu dros amser, oherwydd mewn rhai achosion, mae hawliadau yn cael eu cyflwyno nifer o flynyddoedd ar ôl y digwyddiad. Er enghraifft, mae gan blentyn a anafwyd yn yr ysgol gynradd gyfnod o dair blynedd ar ôl troi yn 18 oed i gyflwyno eu hawliad. O ganlyniad, bydd nifer yr hawliadau a chyfanswm yr arian wrth gefn yn newid dros amser.

# TUEDDIADAU HAWLIADAU

## Hawliadau Atebolrwydd y Cyflogwyr

Mae nifer yr hawliadau am anaf personol a gyflwynir gan weithwyr yn parhau'n isel ar gyfartaledd o ddwy'r flwyddyn dros y cyfnod o chwe blynedd. Mae'r rhan fwyaf o'r hawliadau a gyflwynir o ganlyniad i ddamwain benodol yn y gwaith. Mae swm wrth gefn o dros £140k yn berthnasol i hawliad lle honni'r cyn-athro fod wedi dioddef straen sy'n gysylltiedig â gwaith, gyda chostau cyfreithiol o bron i £28k wedi eu talu eisoes i'r cyfreithwyr y mae'n yswirwyr wedi penodi i ymchwilio'r honiadau sydd wedi eu gwneud.

## Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus

Mae nifer yr hawliadau atebolrwydd cyhoeddus wedi parhau yn isel dros y chwe blynedd diwethaf.

Yn hanesyddol, mae anaf i ddefnyddwyr y ffordd a difrod i gerbydau ar y briffordd yn gyfran sylweddol o'r hawliadau a dderbyniwyd. Er bod gostyngiad sylweddol yn nifer yr hawliadau sy'n gysylltiedig â phriffyrdd yn ystod y cyfnod clo cyntaf pan oedd cyfyngiadau ar bobl a thraffig, mae lefel yr hawliadau wedi codi i'r lefelau a fu cyn y pandemig yn ystod 2022/2023. O'r 190 o hawliadau cysylltiedig â phriffyrdd a setlwyd dros y cyfnod o chwe blynedd, ni thalwyd unrhyw iawndal na chostau mewn 158 o achosion, sef 83% o'r hawliadau sy'n gysylltiedig â phriffyrdd a setlwyd. O'r 34 o hawliadau cysylltiedig â phriffyrdd sydd â swm wrth gefn yn eu herbyn, mae tri hawliad 'baglu, llithro neu syrthio' gyda swm wrth gefn uchel sy'n gyfanswm o £267k. O'r hawliadau atebolrwydd cyhoeddus a dalwyd, y mwyaf arwyddocaol yw iawndal a chostau o bron i £44k a delir yn dilyn rhywun yn baglu ar y briffordd.

Er mai ychydig iawn o hawliadau a wnaed yn erbyn unrhyw wasanaeth arall, mae saith hawliad gyda swm wrth gefn uchel sy'n gyfanswm o tua £598k. Mae'r rhain yn cynnwys honiadau sy'n ymwneud â materion amddiffyn plant, gweithgareddau morwrol, a honiadau o lygredd ac eiddo diffygiol.

## Hawliadau Modur

Mae'r nifer o hawliadau modur wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig yn ystod 2022/23 ac mae bron i 60% o'r 27 hawliad eleni o ganlyniad i wallau gan ein gyrwyr. Mae'r Adran Fflyd yn monitro gwrthdrawiadau a throseddau goryrru a gyflawnir yng ngherbydau'r Cygnor ac yn trefnu asesiadau gyrru ar gyfer troseddwyr mynych.

Mae cost hawliadau modur yn parhau i gynyddu. Mae hyn yn duedd genedlaethol oherwydd cynnydd costau partiau, a chynnydd yng nghost llogi ceir. Ceir tystiolaeth o hyn mor bell yn ôl â 2017/2018 pan gafodd pedwar o gerbydau trydan y Cyngor eu hysgrifennu ffwrdd ar gost o dros £72,000, yn dilyn llifogydd.

## Hawliadau Eiddo

Y tywydd yw'r prif reswm dros hawliadau am ddifrod i eiddo. Daeth storm Ophelia â gwyntoedd cryfion, gyda gwyntoedd o 70 i 80mya ar brydiau, yn 2017 ac arweiniodd at ddifrod o dros £85k i do Canolfan Hamdden Plas Arthur. Yn fwy diweddar, achosodd storm Arwen ddifrod i adeiladau amaethyddol ar nifer o fanddaliadau'r Cyngor. Yn ffodus, mae difrod i eiddo'r Cyngor oherwydd tân a pheryglon eraill yn gymharol anghyffredin. Mi oedd yr hawliad tân diwethaf mewn manddaliad yn Ebrill 2022, ac yn gyfrifol am dros £46.5k o'r swm wrth gefn ar gyfer 2022/23.

## Hawliadau Cyn 2017

Dylid nodi bod Atodiad A yn rhoi manylion hawliadau am y cyfnod o 1 Ebrill 2017 at 31 Mawrth 2023. Mae hawliadau eraill sy'n ymwneud â chyfnodau cyn y cyfnod hwn dal yn agored. Ar hyn o bryd mae dau hawliad atebolrwydd cyhoeddus yn y categori hwn; un sy'n gysylltiedig â'r briffordd a'r llall yn ymwneud ag ysgol. Mae'r cyfanswm wrth gefn ar gyfer y pedwar hawliad hwn yn cyfateb i tua £77k ac mae'r rhain yn amlygu y gall rhai hawliadau gymryd blynyddoedd lawer i'w datrys neu hyd yn oed eu gwneud.

Yn gyffredinol, y duedd yw bod nifer yr hawliadau'n isel; fodd bynnag, mae hawliadau'n mynd yn ddrutach.

# HERIAU'R DYFODOL

Cafodd y pandemig effaith gadarnhaol ar niferoedd o hawliadau.  Fodd bynnag, gallai rhai o'r arferion gwaith a gyflwynwyd yn ystod y pandemig, arwain at hawliadau yn y dyfodol neu effeithio ar allu'r Cyngor i amddiffyn hawliadau.  Gallai enghreifftiau gynnwys, gweithiwr sy'n gweithio gartref mewn amgylchedd anaddas sy'n cyflwyno hawliad math postwral.  Enghraifft arall a allai godi yw hawliad yn ymwneud â'r briffordd lle, oherwydd y gofyniad i bellhau cymdeithasol, arolygwyd y ffordd gan un swyddog yn gyrru yn hytrach na'r arfer gorau o ddau swyddog i gynnal yr arolygiad; un yn gyrru a'r llall yn chwilio am ddiffygion.

Cynyddodd gweithgareddau twyllodrus ledled y DU yn ystod y pandemig ac mae gweithgarwch o'r fath hefyd yn gyffredin yn ystod dirywiad economaidd.  O ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, mae'n bosibl y bydd cynnydd mewn hawliadau ffug neu orliwio sy'n cael eu cyflwyno. Mae'r Tîm Yswiriant, yn ogystal ag yswiriwr y Cyngor, yn effro i'r risg gynyddol hon.

Mae'r Cyngor yn berchen ac yn rheoli tua 4,000 o dai a garejys ledled yr Ynys.  Er bod wedi cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS)[2] ers 2012, mae nifer fach o hawliadau sy'n honni bod tai'n dadfeilio yn cael eu derbyn yn flynyddol.  Er nad yw'r rhain yn faterion yswiriant ac felly nid ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn yr ystadegau a gyflwynir yn atodiad A, mae'n ofynnol i adnoddau'r Cyngor ymchwilio, gwneud gwaith cynnal, a thalu iawndal a chostau lle bo angen.  Gall hyn fod yn heriol os bydd nifer yr hawliadau'n cynyddu i lefelau mae rhai awdurdodau lleol wedi gweld.

[2] Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) yw safon ansawdd tai Llywodraeth Cymru. Cyflwynwyd y WHQS gyntaf yn 2002 a'i nod yw sicrhau bod pob annedd o ansawdd da ac yn addas ar gyfer anghenion trigolion presennol a'r dyfodol. Gosododd Llywodraeth Cymru darged i'r holl landlordiaid cymdeithasol wella eu stoc tai er mwyn bodloni'r safonau WHQS cyn gynted â phosibl, ond erbyn 2020 fan bellaf. Cadarnhawyd yr angen hwn gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae rhai eiddo yn parhau fel rhai a nodir yn 'fethiannau derbyniol'.

Rydym i gyd yn ymwybodol o'r newid yn yr hinsawdd fyd-eang ac effaith stormydd, llifogydd, erydiad arfordirol, a chyfnodau o dywydd poeth yn fyd-eang ac yn lleol yn ddiweddar. Wrth i'r blaned barhau i gynhesu mae digwyddiadau o'r fath yn debygol o ddigwydd yn amlach a chael mwy o effaith pan fyddant yn digwydd.  Mae'r effaith ar yr unigolion a'r cymunedau sy'n cael eu heffeithio yn drasig ond mae effaith hefyd ar yswirwyr o ran costau setlo'r hawliadau sy'n deillio o hynny.

Yn gyffredinol, mae cost hawliadau yn cynyddu.  Gwelwyd cyfraddau chwyddiant uchel ystyfnig a marchnad lafur anodd yn 2022/23; ffactorau sydd wedi arwain at gostau atgyweirio cerbydau ac adeiladau sylweddol uwch dros y 2 flynedd ddiwethaf.  Mae datblygiadau technegol mewn cerbydau hefyd yn golygu bod rhaid newid fwy o bartiau na’r arfer.  Er enghraifft, gall bympar bellach gynnwys llawer o synwyryddion, sydd hefyd angen eu newid yn dilyn mân wrthdrawiad.   Yn yr un modd, mae cost deunyddiau adeiladu wedi cynyddu, a gall dulliau adeiladu modern gynyddu’r tebygolrwydd y bydd mwy o ddifrod yn cael ei achosi.  Mae cost hawliadau am anafiadau, yn enwedig lle mae elfen o ofal parhaus, hefyd yn cynyddu.  Mae’r cyflenwad llafur yn y sector gofal yn parhau i fod yn heriol ac wrth i brognosis wella oherwydd triniaethau gwell, mae cost gofal yn cynyddu.

Bydd yr holl ffactorau hyn yn effeithio ar faint mae yswirwyr yn talu wrth setlo hawliadau a gyflwynir iddynt ac yn gyrru’r cynyddu mewn premiymau mae yswirwyr yn godi.  Ffactor arall sy'n effeithio ar bremiymau yw'r gost y mae'n rhaid i yswirwyr dalu am ail-yswirio.  Ail-yswiriant yw yswiriant y mae yswiriwr yn ei brynu gan yswiriwr arall i warchod ei hun rhag y risg o ddigwyddiad hawliad mawr.  Er enghraifft, gall yswiriwr gynnig yswirio adeilad gwerth £100m ond gall brynu ailyswiriant i dalu am unrhyw golled dros £50m, gan gyfyngu ar eu colled posib i'r £50m cyntaf.  Mae cost ailyswiriant wedi cynyddu'n sylweddol ac ar yr un pryd mae capasiti'r farchnad ailyswiriant wedi lleihau. O ganlyniad, mae yswirwyr yn dethol y risgiau  maent yn barod i yswirio fwy, sy’n gwneud rhai mathau o yswiriant yn anodd ei drefnu.   Mae'r rhain yn cynnwys yswiriant seibr, rhai mathau o indemniad proffesiynol, ac yswiriant ar gyfer safleoedd gwastraff ac ailgylchu.  Pan fydd yswirwyr yn barod i gynnig telerau, maent yn aml yn cynyddu'r premiwm, yn cynyddu'r swm cychwynnol (excess), neu'n cyfyngu’r lefel o indemniad neu golled.

Felly, mae'n debygol y bydd y premiymau y mae'r Cyngor yn talu am yswiriant wrth symud ymlaen yn parhau i gynyddu hyd yn oed os yw’r hawliadau a wnaed ac a dderbyniwyd yn isel. Mae dangos i yswirwyr fod y Cyngor wedi dysgu gwersi yn dilyn unrhyw hawliad sylweddol a bod prosesau a mesurau addas ar waith i reoli risgiau felly yn allweddol os am leihau'r cynnydd mewn premiwm a chreu diddordeb wrth wahodd yswirwyr i dendro yn 2024. Gall rheoli risgiau yn dda hefyd leihau colledion mae’r Cyngor yn hunan yswirio a chaniatáu i'r Cyngor dderbyn mwy o risg drwy gynyddu swm cychwynnol (excess) a’r arhosfa agregau (cap), gan gadw cydbwysedd rhwng y risgiau yr ydym yn yswirio a chost y premiwm.

# ATODIAD A – CRYNODEB HAWLIADAU

| Polisi | Cyfnod | Nifer | | | Cost (£) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Wedi Eu Talu | Wedi Setlo Heb Gost | Heb Ei Setlo | Swm Sydd Wedi Ei Dalu | Swm Wrth Gefn |
| Atebolrwydd Cyhoeddus | 2017/2018 | 25 | 37 | 0 | 68389 | 0 |
| | 2018/2019 | 23 | 54 | 2 | 91840 | 195001 |
| | 2019/2020 | 13 | 40 | 3 | 31961 | 40273 |
| | 2020/2021 | 11 | 43 | 2 | 38276 | 238089 |
| | 2021/2022 | 8 | 23 | 7 | 10848 | 169973 |
| | 2022/2023 | 3 | 18 | 42 | 2904 | 433998 |
| Atebolrwydd y Cyflogwr | 2017/2018 | 2 | 3 | 0 | 24662 | 0 |
| | 2018/2019 | 1 | 0 | 1 | 391 | 169021 |
| | 2019/2020 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | 2020/2021 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| | 2021/2022 | 0 | 1 | 2 | 0 | 17853 |
| | 2022/2023 | 0 | 0 | 1 | 0 | 9597 |
| Cerbydau | 2017/2018 | 17 | 6 | 0 | 97903 | 0 |
| | 2018/2019 | 14 | 20 | 0 | 13887 | 0 |
| | 2019/2020 | 13 | 8 | 1 | 34532 | 11046 |
| | 2020/2021 | 13 | 4 | 0 | 16487 | 0 |
| | 2021/2022 | 13 | 3 | 2 | 13294 | 13839 |
| | 2022/2023 | 18 | 1 | 8 | 24538 | 13993 |
| Eiddo | 2017/2018 | 18 | 16 | 0 | 153594 | 0 |
| | 2018/2019 | 9 | 5 | 0 | 17500 | 0 |
| | 2019/2020 | 5 | 4 | 0 | 51097 | 0 |
| | 2020/2021 | 1 | 0 | 1 | 10000 | 720 |
| | 2021/2022 | 14 | 7 | 4 | 37910 | 20596 |
| | 2022/2023 | 2 | 1 | 5 | 2925 | 53265 |
| Arall | 2017/2018 | 2 | 1 | 0 | 331 | 0 |
| | 2018/2019 | 2 | 0 | 0 | 743 | 0 |
| | 2019/2020 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | 2020/2021 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| | 2021/2022 | 1 | 0 | 0 | 3600 | 0 |
| | 2022/2023 | 1 | 0 | 0 | 1188 | 0 |
| Cyfanswm | 2017/2018 | 64 | 63 | 0 | 344879 | 0 |
| | 2018/2019 | 49 | 79 | 3 | 124362 | 364022 |
| | 2019/2020 | 31 | 52 | 4 | 117590 | 51319 |
| | 2020/2021 | 25 | 49 | 3 | 64764 | 238809 |
| | 2021/2022 | 36 | 34 | 15 | 65653 | 222261 |
| | 2022/2023 | 24 | 20 | 56 | 31554 | 510854 |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio / Cyngor Sir |
| **Dyddiad:** | 29 Mehefin 2023 / 12 Medi 2023 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022-23 – Adroddiad y Cadeirydd |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>Mae gofyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adrodd i'r 'rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethiant' (y Cyngor Sir) asesiad o'i berfformiad a'i weithgareddau yn ystod y flwyddyn er mwyn dangos sut y bu i'r Pwyllgor gyflawni ei gyfrifoldebau. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar weithgareddau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod 2022-23. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Ei swyddogaeth yw darparu adnodd annibynnol a lefel uchel i gefnogi llywodraethu da a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref a darparu sicrwydd annibynnol 'y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' ar ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol a chywirdeb y prosesau adrodd a llywodraethu ariannol.

1.2. Er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol, mae canllawiau CIPFA[1] yn nodi y dylai pwyllgorau archwilio adrodd yn rheolaidd ar eu gwaith i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu', ac o leiaf adrodd yn flynyddol am asesiad o'u perfformiad. Dylai adroddiad cyhoeddus blynyddol ddangos sut mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofyniad hwnnw.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2022-23 cyn ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Sir ar 12 Medi 2023.

[1] Mae Datganiad Sefyllfa'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu (2022) a'r canllawiau cysylltiedig yn nodi barn CIPFA am rôl a swyddogaethau pwyllgor archwilio.




# ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2022-23 – ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS

Pennaeth Archwilio a Risg

MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru

Mehefin 2023

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# TABL CYNNWYS

CYFLWYNIAD 3
CYFANSODDIAD A THREFNIADAU 4
TREFNIADAU ATEBOLRWYDD 6
LLYWODRAETHIANT 8
RHEOLI TRYSORLYS 10
GWERTH AM ARIAN 11
FFRAMWAITH SICRWYDD 12
RHEOLI RISG 14
ATAL TWYLL A LLYGREDD 15
ARCHWILIO MEWNOL 16
ARCHWILIO ALLANOL 18
ADRODDIADAU ARIANNOL 19
DELIO Â CHWYNION 20
ADRODDIAD HUNANASESIAD 21
PANEL ASESU PERFFORMIAD 22
ADOLYGIAD ARBENNIG GAN YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL 23
ATODIAD A: AMLDER CYFARFODYDD A PHRESENOLDEB 24
ATODIAD B: HYFFORDDIANT A FYNYCHWYD GAN YR AELODAU 2022-23 25

# CYFLWYNIAD

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Mae'n darparu adnodd annibynnol a lefel uchel i gefnogi llywodraethiant da a rheolaeth ariannol gyhoeddus gadarn (3.4.8.1.1).

Ei bwrpas yw rhoi sicrwydd annibynnol lawn i'r Cyngor ("*y rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethiant"*) ynghylch digonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd reoli fewnol a chywirdeb y prosesau adrodd ariannol a llywodraethu (3.4.8.1.2).

Mae'n cynnal trosolwg o weithgareddau archwilio mewnol (3.4.8.10) ac allanol (3.4.8.11) a rheoleiddwyr eraill (3.4.8.13), er mwyn helpu i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol ar waith. Y mae hefyd yn adolygu, asesu ac adrodd ar allu'r awdurdod i ddelio gyda chwynion yn effeithiol (3.4.8.14) ac mae'n argymell gwelliannau yn y maes hwn. Yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, bydd hefyd yn derbyn a chyflwyno sylwadau ar adroddiad hunanasesu'r Cyngor (3.4.8.15) ac adroddiad y panel asesu perfformiad (3.4.8.16).

Mae gwahaniaeth clir rhwng rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a rôl y pwyllgorau sgriwtini.  Rôl y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw cael sicrwydd bod systemau rheoli mewnol y Cyngor yn gweithio a bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol, yn hytrach na chraffu ar weithgareddau (3.4.8.1.3).

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol, mae canllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)[1] yn nodi y dylai pwyllgorau archwilio adrodd yn rheolaidd ar eu gwaith 'i'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethiant', a chyflwyno adroddiad ar eu hasesiad o'u perfformiad o leiaf unwaith y flwyddyn. Dylai'r adroddiad cyhoeddus blynyddol ddangos sut mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r adroddiad hwn yn cwrdd â'r gofyniad hwn drwy asesu gweithgareddau'r Pwyllgor yn ystod 2022-23 yn erbyn ei gylch gorchwyl, sydd wedi'i ymgorffori yng Nghyfansoddiad[2] y Cyngor, fersiwn 2.78 a ddiweddarwyd ar 25 Ebrill 2023.

---

[1] Mae Datganiad Sefyllfa: Pwyllgorau Archwilio Awdurdodau Lleol a Heddluoedd (2022) Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a chanllawiau cysylltiedig yn nodi barn CIPFA ynghylch rôl a swyddogaethau'r pwyllgor archwilio.
[2] Cyfeirir at yr adran berthnasol o'r Cyfansoddiad mewn cromfachau.

# CYFANSODDIAD A THREFNIADAU

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi cynnal ei fusnes yn anwleidyddol ac wedi glynu wrth y rheolau ynglŷn â chydbwysedd gwleidyddol (3.4.8.2.1).

Roedd y Pwyllgor yn cynnwys wyth aelod etholedig ac un aelod lleyg, a oedd ym mlwyddyn olaf ei dymor pum mlynedd.   Roedd y Cynghorydd Liz Wood yn absennol am gyfnod byr yn ystod y flwyddyn. Ymunodd y Cynghorydd  Aled Morris Jones â'r Pwyllgor yn ei lle ar sail dros dro. Fe wnaeth pob aelod ddatgan diddordeb lle bo'n briodol  (3.4.8.2.2).

Mae angen i'r Aelod Portffolio Cyllid, cyn belled ag y bo hynny'n bosib, fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor (3.4.8.2.2) a mynychodd chwech or wyth cyfarfod a gynhaliwyd yn ystod 2022-23 Atodiad A.

Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn aelod lleyg ac felly nid oedd yn gynghorydd etholedig nac aelod o grŵp a oedd yn rhan o Bwyllgor Gwaith y Cyngor (3.4.8.2.3).

Mae swyddogion wedi mynychu cyfarfodydd ar gais aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (3.4.8.2.4).

Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn (3.4.8.2.5). Cyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol (cyfarfodydd hybrid) ar wyth achlysur, yn cynnwys dau gyfarfod arbennig i ystyried y Datganiad o Gyfrifon drafft a therfynol ar gyfer 2021-22 ac adroddiad yr Archwilydd Allanol ar y Datganiadau Ariannol (Adroddiad ISA 260). Mae'r aelodaeth a phresenoldeb mewn cyfarfodydd yn ystod 2022-23 wedi bod yn dda (Atodiad A.)

Lle bo angen, mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 wedi darparu cyngor, ac y mae wedi cael mynediad uniongyrchol a dilyffethair i'r Pwyllgor (3.4.8.2.6). Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi comisiynu gwaith yn uniongyrchol gan yr archwilwyr mewnol ar ffurf adroddiadau cynnydd ar archwiliadau unigol (3.4.8.2.7).

Ni fu'n rhaid i'r archwilwyr allanol na mewnol ofyn i'r Cadeirydd ystyried unrhyw fater y dylid ei ddwyn i sylw'r Cyngor ym marn yr archwilwyr (3.4.8.2.8).

Derbyniodd yr aelodau presennol hyfforddiant parhaus (Atodiad B), adroddiadau ar ddeddfwriaeth newydd, canllawiau proffesiynol ac ymchwil. Cynhaliwyd arolwg o wybodaeth a sgiliau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, a chafodd y canlyniadau eu hanfon at y Rheolwr Datblygu i'w cynnwys yn y rhaglen hyfforddi ar gyfer aelodau 2023-24 (3.4.8.2.9).

Yn ystod 2021-22, fe wnaeth y Pwyllgor ystyried a chymeradwyo'r cylch gorchwyl diwygiedig yn dilyn newidiadau yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ym mis Chwefror 2023, fe wnaeth y Pwyllgor adolygu ei gylch gorchwyl i wneud yn siŵr ei fod yn addas ac yn cyd-fynd â'r canllawiau penodol ar gyfer y sector a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ym mis Rhagfyr 2022. Gan nad oedd y canllawiau'n cynnwys newidiadau a oedd yn effeithio ar gylch gorchwyl cyfredol y Pwyllgor, penderfynodd y Pwyllgor eu cymeradwyo heb fod angen unrhyw newidiadau.

# TREFNIADAU ATEBOLRWYDD

Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofyniad i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r cyngor llawn (*'i'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethiant'*) ar ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y pwyllgor archwilio ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor; a'i drefniadau adrodd ariannol, a'i swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol (3.4.8.3.1).

Y mae hefyd yn bodloni'r gofyniad i adrodd ar effeithiolrwydd y pwyllgor o ran cyflawni'i bwrpas a'i gylch gorchwyl cytunedig. Yn ystod 2022-23, cynhaliwyd hunanasesiad gwybodaeth a sgiliau gydag aelodau unigol o'r Pwyllgor er mwyn iddynt allu asesu eu heffeithiolrwydd a nodi unrhyw feysydd i'w datblygu a hyfforddiant. O ganlyniad datblygwyd rhaglen o ddigwyddiadau ar y cyd â'r Rheolwr Datblygu AD (3.4.8.3.2).

Comisiynwyd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) i hwyluso hunanasesiad ansoddol yn 2023-24 gydag aelodau'r Pwyllgor. Bydd hefyd yn cynnwys adborth ar berfformiad y Pwyllgor gyda'r rheiny sy'n ymwneud â'r Pwyllgor neu'n dibynnu ar ei waith, yn cynnwys uwch reolwyr, i werthuso p'un ai a ydi'r Pwyllgor yn ychwanegu gwerth i'r sefydliad ac, os felly, sut (3.4.8.3.2).

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried ei fusnes yn gyhoeddus, ac eithrio, llo bo'n briodol, pan gyfarfu'n breifat i ystyried eitemau o dan Adran 100 (A) (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972[3]. Yn ystod 2022-23, fe ystyriodd y Pwyllgor dair eitem yn breifat:

- Adroddiad Diogelwch Seiber 2022 (Medi 2022)
- Diweddariadau ar y Gofrestr Risgiau Strategol (Medi 2022 a Chwefror 2023)
- Adroddiad Archwilio Mewnol 'Galw Gofal' - Trefniadau Llywodraethu Partneriaeth' (Chwefror 2023)

Cyflwynwyd y Profion Budd y Cyhoedd priodol i'r Pwyllgor a chawsant eu derbyn ganddo.

[3] Eitemau o dan Atodlen 12A, Paragraff 14: Gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol neu fasnachol unigolyn penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno) a Pharagraff18: Gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw gamau a gymerwyd i atal, ymchwilio neu erlyn trosedd.

Ym mis Chwefror 2023, gofynnodd aelod o'r Pwyllgor a oedd angen eithrio'r Gofrestr Risgiau Strategol yn gyfan gwbl rhag cael ei thrafod mewn sesiwn agored oherwydd bod elfennau ohoni o ddiddordeb i'r cyhoedd . Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, gofynnodd y Pennaeth Archwilio a Risg am gyngor gan y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro ynglŷn â'r mater a chytunwyd y byddai'r Gofrestr Risgiau Strategol yn cael ei thrafod mewn sesiwn agored  yn y dyfodol (3.4.8.3.3).

Cafodd yr agenda ac adroddiadau eu cyhoeddi yn unol â'r amserlenni statudol ac roeddent ar gael i'w harchwilio (3.4.8.3.3).

# LLYWODRAETHIANT

Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried Cod Llywodraethu Lleol y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2022. Nododd y Pwyllgor ei fod yn cael ei gyflwyno yn dilyn adolygiad mewnol o'r broses yn ystod 2022-23 drwy'r Grŵp Adolygu Perfformiad a Llywodraethu a'r Tîm Arweinyddiaeth, er mwyn rhoi sicrwydd bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn dal i fod yn gadarn ac yn addas i'r diben a'u bod yn cael eu gweithredu a'u defnyddio'n effeithiol ym mhob agwedd ar  fusnes y Cyngor (3.4.8.4.1/5).

Fe amlygodd y Pwyllgor anghysondebau rhwng y fersiwn Gymraeg a Saesneg o'r ddogfen a holwyd p'un ai a ddylai'r ddogfen, sy'n edrych tua'r dyfodol ac sy'n weithredol am y cyfnod 2023 i 2028, gyfeirio at gynllun cyfredol y Cyngor gan ei fod yn dod i ben yn 2022. Mewn ymateb, cynghorodd y Rheolwr Cynllunio Busnes a Pherfformiad bod yr ymrwymiadau yn y ddogfen yn nodi'r hyn mae'r Cyngor yn gobeithio'i gyflawni, a bod y dystiolaeth bod y rhain wedi cael eu gwireddu yn dod o'r ffynonellau sicrwydd. Nid yw'r dystiolaeth o ran Cynllun newydd y Cyngor ar gyfer 2023 i 2028 ar gael eto.

Ym mis Gorffennaf 2022,  fe wnaeth y Pwyllgor adolygu ac asesu trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn ystod ei adolygiad o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) drafft (3.4.8.4.2). Bu i'r Pwyllgor nodi gwelliannau o ran darllenadwyedd a gosodiad y Datganiad ond nododd hefyd  y byddai fersiwn cryno'n ddefnyddiol i'r cyhoedd. Fe wnaeth y Pwyllgor hefyd gwestiynu'r asesiad cyffredinol yn erbyn egwyddorion craidd y Fframwaith sydd wedi bod yn "Dda" mewn blynyddoedd dilynol a heb symud i'r lefel nesaf. Mewn ymateb, cynghorodd y Prif Weithredwr bod y categorïau'n eang ac y byddai'n rhaid i'r Cyngor allu dangos ymarfer arloesol er mwyn symud i "Rhagorol", rhywbeth sydd ddim bod amser yn hawdd mewn perthynas â llywodraethu.

Hefyd, gofynnodd y Pwyllgor am eglurder ynglŷn â mynd i'r afael â'r materion llywodraethu a nodwyd yn ystod 2021-22 yn enwedig rheiny'n ymwneud â'r cyfrifoldebau newydd a'r newidiadau a gyflwynwyd yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr bod y Ddeddf bellach yn gosod dyletswyddau a chyfrifoldebau newydd ar y Cyngor a bod rhai wedi'u gweithredu tra bo eraill ar waith ac y byddant yn cael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.

Ym mis Ionawr 2023, derbyniodd y Pwyllgor y fersiwn terfynol o'r DLIB a phenderfynodd ei gymeradwyo ar gyfer 2021-22 a'i gyfeirio i'w gymeradwyo gan y Cyngor llawn a'i lofnodi gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr (3.4.8.6.2).

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn mynnu'i fod yn adolygu'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd sydd ar gael ar gyfer partneriaethau neu gydweithio arwyddocaol (3.4.8.4.6) a'i fod hefyd yn adolygu'r sicrwydd sydd ar gael ar gyfer rheoli'r risgiau sydd ynghlwm ag unrhyw bartneriaethau, yn cynnwys proffil risg y Cyngor fel rhan o'r partneriaethau hynny (3.4.8.8.1). Oherwydd y cylch Cyngor newydd, nid oedd adroddiad ar bartneriaethau sylweddol ar gael yn ystod 2022-23. Gan nad oedd adroddiad blynyddol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio ar gael, bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cwblhau darn o waith yn ystod 2023-24 i roi'r sicrwydd hwn i'r Pwyllgor.

# RHEOLI TRYSORLYS

Mae'r Cyngor llawn wedi enwebu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau bod y strategaeth a pholisïau rheoli trysorlys yn cael eu craffu'n effeithiol (3.4.8.5.1). Felly, mae'r Pwyllgor yn ymgymryd â rôl craffu yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys, cyn eu bod yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn (3.4.8.5.2).

Ym mis Medi 2022, fe wnaeth y Pwyllgor adolygu'r **Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2022-22**, a oedd yn rhoi trosolwg o weithgareddau benthyca a buddsoddi'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ac yn amlygu perfformiad y Cyngor yn erbyn y dangosyddion darbodus a osodwyd ganddo. Wrth ystyried yr adroddiad, roedd y pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor yn cynnwys gwariant cyfalaf a thanwariant yn y gyllideb gyfalaf, cynnal pwerau prynu'r Cyngor a chynyddu enillion drwy fuddsoddi. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a'i anfon ymlaen i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith heb sylw pellach (3.4.8.5.1/2/3/4).

Ym mis Rhagfyr 2022, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adolygiad canol blwyddyn o weithgareddau rheoli trysorlys a'r sefyllfa bresennol. Yn dilyn trafodaeth ynglŷn ag amcangyfrifon gwariant cyfalaf y Cyngor, yr hyn sydd wedi achosi oedi o ran y rhaglen gyfalaf a diogelwch rhoi benthyg a benthyca rhwng awdurdodau, penderfynodd y Pwyllgor nodi a derbyn yr adolygiad canol blwyddyn heb sylw pellach. Hefyd, penderfynodd y Pwyllgor argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn gofyn i'r Cyngor Llawn gymeradwyo newid y cyfyngiad benthyca ar gyfer awdurdodau eraill yn codi o £5 miliwn i £10 miliwn (3.4.8.5.1/2/3/4).

Ym mis Chwefror 2023, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r **Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2023-24**, a oedd yn cynnwys y Datganiad Buddsoddi Blynyddol, y Datganiad Polisi Blynyddol ar y Ddarpariaeth Refeniw Isaf, y Datganiad Polisi ar Reoli'r Trysorlys, a'r Cynllun Dirprwyo Rheoli'r Trysorlys. (3.8.4.5.1/4)

Yn dilyn trafodaeth ynglŷn ag ymarferoldeb cyllido'r gyllideb gyfalaf, y cynnydd mewn costau benthyca allanol gan fod y Cyngor wedi cyrraedd y terfynau benthyca mewnol a disgwyliadau cyllido LIC i'r dyfodol a'r gofynion tebygol e.e., amodau sero net, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn a nodi'r Datganiad Rheoli Trysorlys ar gyfer 2023-24 a'i anfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith heb sylw pellach.

# GWERTH AM ARIAN

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu trefniadau cadarn i wneud yn siŵr bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau, a bod trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn cael gwerth gorau am arian (3.4.8.6.1).

Ym mis Gorffennaf 2022, adolygodd y Pwyllgor ddull cyffredinol y Cyngor tuag at sicrhau gwerth gorau am arian wrth adolygu Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft y Cyngor (3.4.8.6.2).

Ym mis Ebrill 2023, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i **Grynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru ar gyfer 2022**, a'r sicrwydd a gafwyd yn sgil yr asesiadau effeithiolrwydd o drefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau gwerth gorau am arian (3.4.8.6.3). Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r Pwyllgor bod Archwilio Cymru wedi cwblhau gwaith yn ystod 2021-22 i gwrdd â dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol i weld a oedd y Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth gorau am arian ar gyfer yr adnoddau a ddefnyddir ganddo. I gwrdd â'r ddyletswydd hon, cwblhaodd Archwilio Cymru brosiectau penodol, gan ddibynnu ar waith archwilio arall, a gwaith rheoleiddwyr megis Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg).

Wrth asesu pa un ai a ydi'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth gorau am arian, cyfeiriodd Archwilio Cymru at ei waith ar ddatganiadau ariannol 2021-22, sy'n nodi bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi barn ddiamod, gwir a theg ar ddatganiadau ariannol y Cyngor.

Cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd bod y Cyngor wedi cwrdd â gweddill ei ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu ei drefniadau i gwrdd â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn cynnwys drafftio ei hunanasesiad blynyddol cyntaf (gweler yr Adroddiad Hunanasesiad isod). O ran ei gynlluniau lleihau carbon, roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn cydnabod bod gan y Cyngor weledigaeth ar gyfer ei uchelgais o ran datgarboneiddio ond mai dim ond megis dechrau oedd y siwrne, a'i fod angen gwneud gwaith pellach i ddeall ei ôl-troed carbon a'r gost ac effaith ei gamau gweithredu arfaethedig o ran carbon.

Penderfynodd y Pwyllgor nodi Crynodeb Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2022 a'r asesiad ynglŷn â pha un ai a oedd y Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth gorau am arian.

# FFRAMWAITH SICRWYDD

Mae cael trosolwg o fframwaith sicrwydd y Cyngor yn galluogi'r Pwyllgor i gymeradwyo'r strategaeth archwilio mewnol yn seiliedig ar risg drwy ganfod i ba raddau y mae'n ddibynnol ar waith archwilio mewnol ar gyfer ei ofynion sicrwydd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ceisio cael eglurder ynglŷn â'r sicrwydd a roddir, gwneud yn siŵr bod cyfrifoldebau dros ddarparu sicrwydd yn cael eu dyrannu'n eglur ac osgoi dyblygu gwaith (3.4.8.7.1/2)

Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i sicrwydd ynghylch rheoli risg, archwilio mewnol, a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn ogystal ag adroddiadau gan yr archwilwyr allanol.

Hefyd, yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau gan y darparwyr sicrwydd llinell gyntaf ac ail linell canlynol:

Ym mis Medi 2022, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan y Prif Swyddog Iechyd a Diogelwch, sef yr **Adroddiad Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Blynyddol**. Cafwyd trafodaeth ynghylch materion yn ymwneud â darparu a mynychu hyfforddiant a'r gallu i adnabod tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, patrymau a/neu bwyntiau dysgu mewn atgyfeiriadau a wneir i'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch  (HSE). Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a chefnogi'r argymhelliad y dylai'r Cyngor ddilyn cynllun strategol ar gyfer rheoli Iechyd a Diogelwch a rhoi Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar waith. Fodd bynnag, bu i'r Pwyllgor hefyd argymell bod yr adroddiadau Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Blynyddol yn cynnwys data ar y nifer o bobl a ddisgwylir ar sesiynau hyfforddi yn ogystal â'r nifer a fynychodd (3.4.8.7.1).

Ym mis Medi 2022, derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad **Diogelwch Seiber TGCh Blynyddol.** Roedd yr adroddiad yn nodi'r bygythiadau seiber cyffredin a wynebir gan y Cyngor ac yn amlinellu'r mesurau lliniarol a gweithredol sydd ar waith i ganfod ac atal gweithgarwch maleisus. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys (3.4.8.7.1).

Ym mis Rhagfyr 2022, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Newid Hinsawdd a oedd yn amlinellu ymateb y Cyngor i adroddiadau gan **Archwilio Cymru a Zurich Risk Engineering ar agwedd y sector cyhoeddus a Chyngor Sir Ynys Môn tuag at newid hinsawdd.** Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r gost o gyrraedd y targed sero net; sicrhau arbedion drwy'r mesurau sydd eisoes wedi cael eu rhoi ar waith e.e., gosod paneli solar yn

adeiladu'r Cyngor; darparu metrigau ar gyfer mesur cynnydd sero net; cymorth ac arbenigedd allanol; a'r her o fuddsoddi mwy mewn mentrau datgarboneiddio pan fo disgwyl i'r sefyllfa o ran y gyllideb waethygu dros y ddwy flynedd nesaf. Ar ôl nodi'r sicrwydd a roddwyd, gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad cynnydd pellach yng ngwanwyn 2023 (3.4.8.7.1/3.4.8.13).

Ym mis Chwefror 2023, derbyniodd y Pwyllgor **adroddiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion a oedd yn nodi'r materion llywodraethu gwybodaeth allweddol mewn perthynas ag ysgolion Ynys Môn** am y cyfnod Tachwedd 2021 i Ionawr 2023. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r trefniadau sydd ar waith i fynd ar drywydd gweithredu'r camau nesaf a monitro cydymffurfiaeth. Holodd y Pwyllgor ynglŷn â'r ddarpariaeth ar gyfer hyfforddi staff ysgol; rôl Cwmni CELyn o ran darparu cyngor arbenigol ar lywodraethu gwybodaeth a diogelu data i awdurdodau lleol; a'r trefniadau ar gyfer caffael pecynnau meddalwedd ar gyfer ysgolion a chydymffurfio â'r gofynion GDPR a diogelu data ar yr un pryd. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo camau nesaf arfaethedig y Swyddog Diogelu Data Ysgolion er mwyn galluogi ysgolion i weithredu yn gwbl unol â'r gofynion diogelu data (3.4.8.7.1).

# RHEOLI RISG

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu rheolaeth risg yn y Cyngor (3.4.8.8.1) yn ystod y flwyddyn.

Ym mis Medi 2022, derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar Gofrestr Risgiau Strategol y Cyngor, a oedd yn amlygu'r newidiadau o ran y gofrestr risgiau'n gyffredinol yn ogystal ag unrhyw risgiau penodol o ran tebygolrwydd ac effaith yn dilyn adolygiad y Tîm Arweinyddiaeth. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r saith risg allweddol coch/critigol sydd yn weddill a amlinellwyd, ac roedd y Pwyllgor yn derbyn y bydd rhai o'r risgiau hyn, oherwydd eu natur, bob amser yn bodoli gan eu bod yn gysylltiedig â phobl, asedau, technoleg gwybodaeth a'r economi ehangach ond bod modd i'r Cyngor eu cadw ar lefel dderbyniol drwy eu nodi, asesu a'u monitro'n rheolaidd. Penderfynodd y Pwyllgor nodi'r newidiadau a wnaed i'r Gofrestr Risgiau Strategol.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad tebyg ym mis Chwefror 2023 ac yn dilyn trafodaeth penderfynwyd nodi'r diwygiadau a wnaed i'r Gofrestr Risgiau Strategol a chymryd sicrwydd bod y Tîm Arweinyddiaeth wedi cydnabod y risgiau wrth gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor a'i fod yn eu rheoli.

Ym mis Ebrill 2023, ystyriodd y Pwyllgor y Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risg yn ogystal â'r Canllawiau Rheoli Risg atodol. Yn dilyn trafodaeth ynglŷn â phennu'r archwaeth risg ar gyfer y gwahanol gategorïau risg o fewn y Datganiad Archwaeth Risg; rheoli risgiau'n gysylltiedig â chontractau, yn enwedig yn y sector adeiladu; gwersi a ddysgwyd sydd wedi dod i'r amlwg, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn y Polisi a Strategaeth Rheoli Risg a nodi eu cynnwys.

# ATAL TWYLL A LLYGREDD

Ym mis Medi 2022, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg **Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd** ar gyfer 2021-22 (3.4.8.9.4). Fel rhan o'r adroddiad hwn, cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg y gyfradd cydymffurfiaeth bresennol (93%) ar gyfer gwybodaeth a dealltwriaeth y staff o'r Polisi a Chanllawiau Chwythu'r Chwiban.  (3.4.8.9.1).

Yn dilyn trafodaeth ynglŷn â defnyddio technoleg i daclo twyll a'r rhan y mae'r Cyngor yn ei chwarae yn y Fenter Twyll Genedlaethol; achosion o dwyll yn ymwneud â'r Gostyngiad yn  y Dreth Gyngor i Aelwydydd Unigol a defnyddio cwmni allanol i ddadansoddi data'r Gostyngiad Person Sengl pob hyn a hyn er mwyn nodi unrhyw anghysondebau a/neu wallau; pwysigrwydd addysgu staff ynglŷn â'r gwahanol fathau o dwyll a diffyg data rhanbarthol a lleol ynglŷn ag achosion o dwyll mewn sectorau penodol, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.

Ym mis Rhagfyr 2022, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg ar y **Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer 2022-25** (3.4.8.9.2/3).

Yn dilyn trafodaeth cydnabuwyd mai twyll seiber ydi'r risg pennaf i'r Cyngor a bod rhaid i'r Cyngor beidio bod yn hunanfodlon oherwydd maint yr awdurdod, ac fe amlygwyd bod bygythiadau seiber yn hollbresennol ac yn esblygu'n barhaus.

Yn dilyn trafodaeth bellach ynglŷn â'r angen am drefniadau rheoli cadarn ar gyfer rheoli bygythiadau seiber mewn ysgolion a sicrhau bod "canfod" twyll yn amcan allweddol yn strategaeth gwrth-dwyll y Cyngor, penderfynodd y Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

# ARCHWILIO MEWNOL

Mae'r pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi goruchwylio trefniadau archwilio mewnol y Cyngor (3.4.8.10.1). Trwy adolygu'r Strategaeth Archwilio Mewnol, yr Adroddiad Blynyddol ar Archwilio Mewnol, a'r Siarter Archwilio Mewnol a diweddariadau rheolaidd gan y Pennaeth Archwilio a Risg, mae'r Pwyllgor wedi goruchwylio annibyniaeth, gwrthrychedd, perfformiad a phroffesiynolrwydd yr adran archwilio mewnol, cefnogi effeithiolrwydd y broses archwilio mewnol a hyrwyddo'r defnydd effeithiol a wneir o archwiliadau mewnol o fewn fframwaith sicrwydd y Cyngor (3.4.8.10.2).

Ym mis Mehefin 2022, derbyniodd y Pwyllgor y **Strategaeth Archwilio mewnol ar gyfer 2022-23** (3.4.8.10.5/6). Yn dilyn trafodaeth ynglŷn â Gwydnwch Ariannol y Cyngor yng nghyd-destun y cynnydd mewn prisiau ynni a deunyddiau ac ar ôl derbyn eglurhad y bydd y gwaith archwilio mewnol yn y maes hwn yn canolbwyntio ar sut mae'r Cyngor yn cynllunio ar gyfer y dyfodol; penderfynodd y Pwyllgor gymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2022-23 a chymeradwyo'r dull a'r blaenoriaethau a amlinellwyd er mwyn cyflawni anghenion sicrwydd y Cyngor.

Ym mis Mehefin 2022, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r **Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2021-22**, yn cynnwys barn y Pennaeth Archwilio a Risg ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol y fframwaith llywodraethu a rheolaeth risg y Cyngor, ynghyd â chrynodeb o'r gwaith a oedd yn cefnogi'r farn honno (3.4.8.10.7/8/9/12/14/15). Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg ei bod hi o'r farn, fel 'prif weithredwr archwilio' Cyngor Sir Ynys Môn, bod fframwaith rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol y sefydliad wedi bod yn ddigonol ac effeithiol yn ystod y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2022.

O fewn yr adroddiad, bu i'r Pwyllgor nodi y cynhelir yr asesiad sicrhau ansawdd allanol nesaf yn ystod yr haf gan Gyngor Sir y Fflint (3.4.8.10.14).

Yn dilyn trafodaeth ar bob math o feysydd, yn benodol trosiant staff, recriwtio a chadw staff a gweithio o bell, bu i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad.

Ym mis Rhagfyr 2022, fe wnaeth y Pwyllgor adolygu a chymeradwyo'r **Siarter Archwilio Mewnol**, sy'n diffinio'r gweithgareddau, pwrpas a chyfrifoldebau o ran archwilio mewnol (3.4.8.10.3). Penderfynodd y Pwyllgor gymeradwyo priodoldeb parhaus y Siarter Archwilio Mewnol a nodi'r mesurau diogelu a roddwyd ar waith i sicrhau na fydd unrhyw rolau a

chyfrifoldebau ychwanegol a ymgymerir gan y Pennaeth Archwilio a Risg y tu allan i'r maes archwilio mewnol yn amharu ar ei hannibyniaeth a gwrthrychedd (3.4.8.10.13).

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi derbyn diweddariad ar weithgareddau archwilio mewnol yn cynnwys canfyddiadau arwyddocaol, meysydd pryder, ymateb rheolwyr a'r camau gweithredu a oedd ar y gweill o ganlyniad i waith archwilio mewnol (Mehefin, Medi, Rhagfyr 2022 a Chwefror ac Ebrill 2023). Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i grynodeb o adroddiadau archwilio penodol, yn cynnwys copïau llawn o'r adroddiadau Sicrwydd Cyfyngedig, ynghyd â'r cynlluniau gweithredu a gytunwyd gyda'r rheolwyr (3.4.8.10.10).

Fe wnaeth y Pwyllgor fonitro'r gwaith o weithredu'r camau gweithredu cytunedig drwy dderbyn dau adroddiad, un ym mis Medi 2022 a'r llall ym mis Ebrill 2023 (3.4.8.10.10/11). Ym mis Medi 2022, cefnogodd y Pwyllgor gynnig y byddai perchnogion materion/risgiau sylweddol neu ambr sydd heb eu datrys 12 mis ar ôl y dyddiad targed, yn cael eu gwahoddi i fynychu cyfarfod or Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gyflwyno gwybodaeth am y rheswm dros yr oedi wrth fynd i'r afael â'r mater/risg.

Fel rhan o'r protocol newydd hwn, ym mis Ebrill 2023, cafodd y Pwyllgor ddiweddariad gan y Rheolwr Gwasanaeth (Tai Cymunedol) mewn perthynas â mynd i'r afael â mater/risg sylweddol neu ambr a nodwyd wrth archwilio'r broses Dyrannu Tai. Ar ôl gwneud ymholiadau ynglŷn ag ychwanegu amserlenni'r broses Ddyrannu Tai i system CRM y Cyngor, penderfynodd y Pwyllgor nodi cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â materion/risgiau archwilio mewnol sydd yn weddill.

Mae'r Pwyllgor a'r Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgysylltu'n effeithiol (3.4.8.10.16). Yn benodol, roedd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob amser ar gael i'r Pennaeth Archwilio a Risg, yn cynnwys y cyfle i gael cyfarfod preifat â'r Pwyllgor ar gais (3.4.8.10.17).

# ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio trefniadau archwilio allanol ac yn ystyried cwmpas a manylder y gwaith archwilio allanol. Ym mis Mehefin 2022, derbyniodd y Pwyllgor Gynllun gan Archwilio Cymru ar gyfer 2021-22, a oedd yn nodi'r gwaith arfaethedig mewn perthynas ag archwilio allanol, y rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer y flwyddyn ynghyd â'r rhaglen ar gyfer y gwaith ardystio grantiau a'r amserlen ar gyfer adroddiadau archwilio (3.4.8.11.1/3).

Ym mis Chwefror 2022, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i lythyr blynyddol yr archwilydd allanol a'r adroddiad ISA 260 '*i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethiant*' (3.4.8.11.1/2). Yn dilyn trafodaeth ar y ddarpariaeth ar gyfer safle gwastraff Penhesgyn; canlyniadau'r ailbrisiad asedau a'r cynnydd yng ngwerth anheddau'r Cyngor; addasiadau i'r cyfrifon drafft a gwelliannau pellach posib o ran archwilio cyfrifon; penderfynwyd nodi adroddiad yr archwilydd allanol ar ei archwiliad o Ddatganiadau Ariannol 2021-22.

Ym mis Ebrill 2023, penderfynodd y Pwyllgor nodi adroddiad Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru ar gyfer 2022, a oedd yn rhoi crynodeb o ganlyniadau pob darn o waith a gwblhawyd.

Yn ystod y flwyddyn derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariadau chwarterol (ym mis Mehefin 2022, Medi 2022 ac Ebrill 2023) ac adroddiadau archwilio allanol, yn cynnwys yr  archwilid o'r Cymhorthdal Budd-dal Tai (Mehefin 2022); Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol Oedolion (Medi 2022); asesiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau a'i weithlu (Gwanwyn ymlaen) (Hydref 2022); a Pharodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2023 (Rhagfyr 2022).

Fe wnaeth y Pwyllgor fonitro'r gwaith o weithredu argymhellion yr adroddiadau archwilio allanol a derbyn adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid ym mis Rhagfyr 2022, a oedd yn nodi sut y mae'r Cyngor wedi ymateb i adroddiadau archwilio allanol ynglŷn â'r Cyngor ac adolygiadau cenedlaethol, a'u hargymhellion cysylltiedig (3.4.8.11.3).

Ni chafodd y Pwyllgor ei gymell i wneud unrhyw argymhellion ynglŷn ag effeithlonrwydd y berthynas rhwng yr archwilwyr mewnol ac allanol ac asiantaethau arolygu eraill neu gyrff perthnasol yn ystod y flwyddyn (3.4.8.11.4).

Er bod cyfle i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gwrdd â'r archwilydd allanol yn breifat ac ar wahân, ni fanteisiwyd ar y cyfle yn ystod y flwyddyn hon (3.4.8.11.5).

# ADRODDIADAU ARIANNOL

Mae'r Pwyllgor yn adolygu a chraffu ar faterion ariannol y Cyngor, ac yn gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â hwy (3.4.8.12.1).

Ym mis Gorffennaf 2022 ac Ionawr 2023, cafodd datganiadau ariannol drafft a therfynol yr awdurdod ar gyfer 2021-22 eu hadolygu gan y Pwyllgor yn y drefn honno, cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn, yn cynnwys y rhagair esboniadol, negeseuon allweddol, tueddiadau, cysondeb â pherfformiad ariannol, addasrwydd polisïau a thriniaethau cyfrifyddu a chydymffurfiaeth â hwy a meysydd dyfarnu sylweddol (3.4.8.12.2).

Ym mis Gorffennaf 2022, wrth ystyried y datganiadau ariannol drafft, trafododd y Pwyllgor lu o ffactorau, yn cynnwys y cynnydd mewn balansau ysgolion, a hynny oherwydd y cyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn rhannol er mwyn helpu ysgolion ag effaith barhaus y pandemig ac i helpu disgyblion ddal i fyny â'r addysg a gollwyd yn ystod y cyfnod hwn; gwerth asedau eiddo'r Cyngor, nad yw'n cynnwys ei rwydwaith priffyrdd oherwydd yr her o bennu union werth y seilwaith priffyrdd; a'r heriau yn ymwneud â chynllunio a darogan y gyllideb oherwydd bod cyllid yn cyrraedd yn hwyr a'r sefyllfa economaidd bresennol.

Yn dilyn trafodaeth bellach ar y rhwymedigaethau pensiwn a'i effaith ar y cyfrifon yn ogystal â thanwariant yng nghyllideb gyfalaf a refeniw'r Cyngor, penderfynodd y Cyngor nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft anarchwiliedig ar gyfer 2021-22.

Ym mis Ionawr 2023, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad yr archwilydd allanol *'i'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethiant'* ar faterion a oedd yn deillio o'r cyfrifon archwiliedig, a p'un ai y dylid eu dwyn i sylw'r Cyngor (3.4.8.12.3). Yn dilyn trafodaeth (gweler Archwilio Allanol uchod), penderfynodd y Pwyllgor nodi'r Adroddiad Archwilio Allanol ar y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2021-22.

# DELIO Â CHWYNION

Mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb dros adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol (3.4.8.14.1).

Ym mis Medi 2022, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i **Adroddiad Blynyddol Pryderon a Chwynion 2021-22** y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a oedd yn nodi'r materion a godwyd o dan Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022. Yn dilyn trafodaeth ynglŷn â pherfformiad y Cyngor o ran ymdrin â chwynion ac eglurhad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mai gwasanaethau sy'n effeithio ar bobl yn bersonol megis Adnoddau, Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r prif feysydd sy'n debygol o ddenu cwynion; penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad.

Hefyd ym mis Medi 2022, derbyniodd y Pwyllgor **Lythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar gyfer 2021-22**. Roedd y ddogfen yn amlinellu'r gwaith safonau cwynion a gwblhawyd gan OGCC yn ystod y 12 mis ac yn darparu crynodeb o berfformiad y Cyngor yn y maes hwn. Ar ôl ystyried a thrafod Llythyr Blynyddol 2021-22, penderfynodd y Pwyllgor ei nodi a'i dderbyn ac awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i ysgrifennu at OGCC i gadarnhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi rhoi ystyriaeth ffurfiol i'w Llythyr Blynyddol ac i roi sicrwydd y bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cwynion a thrwy hynny roi'r wybodaeth sydd ei hangen i Aelodau graffu ar berfformiad y Cyngor (3.4.8.14.2).

# ADRODDIAD HUNANASESIAD

Yn ystod pob blwyddyn ariannol, bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiad hunanasesiad drafft gan y Cyngor [a fydd yn cael ei ddrafftio yn unol â Phennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (perfformiad a llywodraethiant prif gynghorau)] (3.4.8.15.1).

Ym mis Gorffennaf a Hydref 2022, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r **Adroddiad Hunanasesiad Blynyddol drafft ar gyfer 2021-22**, sef adroddiad hunanasesiad corfforaethol cyntaf y Cyngor, a luniwyd er mwyn bodloni'r ddyletswydd newydd ar gynghorau yng Nghymru yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i adolygu eu perfformiad (3.4.8.1.4)

Croesawyd yr adroddiad gan y Pwyllgor fel asesiad cadarnhaol a ddangosai nifer o gryfderau. Cafwyd trafodaeth fanwl ynglŷn â goblygiadau'r trefniadau gweithio hybrid ar y defnydd a fydd yn cael ei wneud o asedau adeiladau yn y dyfodol; cyfraddau trosiant staff; camddehongli'r cronfeydd wrth gefn uwch yng nghyd-destun asesu'r defnydd o adnoddau fel 'da'; y posibilrwydd o gael Archwilio Mewnol i arfarnu'r ddogfen hunanasesu yn y dyfodol; ac arddull ac edrychiad yr adroddiad (3.4.8.4.4).

Penderfynodd y Pwyllgor gytuno â chynnwys adroddiad hunanasesu 2021-22 ac argymell bod y Cyngor Llawn yn ei ystyried, yn amodol ar ystyried y pwyntiau uchod (3.4.8.15.1/2/3/4).

# PANEL ASESU PERFFORMIAD

O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol rhaid cynnal asesiad perfformiad rhwng etholiadau cyffredinol i ethol cynghorwyr i'r cyngor. Fe all y Cyngor ddewis penodi mewn nag un panel asesu yn ystod cylch etholiadol, ond nid yw hynny ofynnol o dan y ddeddf (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021).

Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ei ymateb drafft i'r panel asesu ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac mae'n rhaid iddo wedyn adolygu'r ymateb drafft ac argymell unrhyw newidiadau i'r ymateb i'r panel asesu.

Ni chynhaliwyd asesiad perfformiad gan banel yn ystod 2022-23 (3.4.8.4.3/3.4.8.16).

# ADOLYGIAD ARBENNIG GAN YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL

Fe all yr Archwilydd Cyffredinol gynnal adolygiad arbennig o'r Cyngor (os yw'n ystyried bod y Cyngor yn methu, neu y gallai fod yn methu, â bodloni'r gofynion perfformiad).

Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael yr adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Rhaid i ymateb drafft y Cyngor fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac mae'n rhaid iddo ei adolygu. Fe all y Pwyllgor argymell newidiadau i'r ymateb, yn cynnwys camau arfaethedig y Cyngor. Os na caiff argymhellion y Pwyllgor eu mabwysiadu gan y Cyngor cyn cyhoeddi'r ymateb, rhaid nodi'r argymhellion ynghyd â'r rhesymau pam na chafodd y newidiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor eu gwneud gan y Cyngor (3.4.8.17.1/2/3).

Ni chynhaliwyd adolygiad arbennig o'r Cyngor gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ystod 2022-23.

# ATODIAD A: AMLDER CYFARFODYDD A PHRESENOLDEB

| Aelodau | 29/06/22 | 26/07/22 | 28/09/22 | 20/10/22 | 08/12/22 | 18/01/22 | 07/02/23 | 18/04/23 | Cyfanswm cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 8 |
| Cyng. Euryn Morris (Dirprwy Gadeirydd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Ymddiheuro | ✓ | 7 |
| Cyng. Geraint Bebb | ✓ | Ymddiheuro | ✓ | Na | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 6 |
| Cyng. Neville Evans | ✓ | Ymddiheuro | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Na | 6 |
| Cyng. Dyfed Wyn Jones | ✓ | Ymddiheuro | ✓ | ✓ | Ymddiheuro | ✓ | Ymddiheuro | ✓ | 5 |
| Mr William Parry (Aelod Lleyg) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Na | ✓ | ✓ | 7 |
| Cyng. Dafydd Roberts | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 8 |
| Cyng. Keith Roberts | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 8 |
| Cyng. Margaret M. Roberts | ✓ | ✓ | Ymddiheuro | ✓ | ✓ | ✓ | Ymddiheuro | ✓ | 6 |
| Ms Sharon Warnes (Aelod Lleyg) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 8 |
| Mr Michael Wilson (Aelod Lleyg) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Na | ✓ | ✓ | 7 |
| Cyng Liz Wood | ✓ | ✓ | ✓ | Na | Ymddiheuro | ✓ | Na | ✓ | 5 |
| Cyng. Aled Morris Jones (wedi'i benodi ar gyfer un cyfarfod yn unig) | - | - | - | - | - | - | ✓ | - | 1 |
| Cyng. Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid) | ✓ | ✓ | Ymddiheuro | Ymddiheuro | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 6 |
| Cyfanswm ar gyfer y Pwyllgor[4] | 13 | 10 | 11 | 10 | 11 | 11 | 10 | 12 | |

Dychwelyd i Adran

[4] Yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor, mae'r pwyllgor yn cynnwys wyth aelod etholedig ac un aelod lleyg.  Ni fydd yr aelodau etholedig yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, ond rhaid i'r Deilydd Portffolio Cyllid fynychu pob cyfarfod, cyn belled ag y bo modd.

# ATODIAD B: HYFFORDDIANT A FYNYCHWYD GAN YR AELODAU 2022-23

| | Penodol i'r Pwyllgor | | Mandadol | | | | | | | | Cyfanswm Presenoldeb / Cwblhawyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Anwythiad | Datganiadau Ariannol | Cwynion | Rheoli Trysorlys | GDPR | Ymwybyddiaeth Seiber[5] | Ymwybyddiaeth Diogelu Sylfaenol | Trais yn erbyn menywod, camdriniaeth ddomestig a thrais | Prevent* | Caethwasiaeth fodern* | |
| Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd) | 23/06/22 | 13/07/22 | 09/09/22 | 14/09/22 | 05/09/22 | 12/05/22 | | Dewisol | 12/09/19 | Dewisol | 88% |
| Cyng. Euryn Morris (Dirprwy Gadeirydd) | 23/06/22 | 13/07/22 | 09/09/22 | 14/09/22 | 12/06/22 | 18/05/22 | 20/09/22 | 12/06/22 | 12/06/22 | Ar waith | 90% |
| Cyng. Geraint Bebb | 23/06/22 | 13/07/22 | 09/09/22 | Ymddiheuro | 06/09/22 | 12/05/22 | Absennol | 29/09/22 | Heb ddechrau | Ar waith | 60% |
| Cyng Neville Evans | 23/06/22 | Ymddiheuro | 09/09/22 | 14/09/22 | 06/09/22 | 11/05/22 | 20/09/22 | Heb ddechrau | Heb ddechrau | Heb ddechrau | 60% |
| Cyng. Dyfed Wyn Jones | 23/06/22 | 13/07/22 | Ymddiheuro | Absennol | 06/09/22 | 11/05/22 | 26/09/22 | Heb ddechrau | Heb ddechrau | Heb ddechrau | 50% |
| Mr William Parry (Aelod Lleyg) | Ymddiheuro | Absennol | 09/09/22 | Absennol | | | | Dewisol | Dewisol | Dewisol | 14% |
| Cyng Dafydd Roberts | 23/06/22 | 13/07/22 | Absennol | 14/09/22 | 11/20/22 | 12/05/22 | 20/09/22 | 01/04/18 | 12/10/22 | 12/10/22 | 90% |
| Cyng Keith Roberts | 23/06/22 | 13/07/22 | 09/09/22 | 14/09/22 | 07/09/22 | 11/05/22 | 20/09/22 | Heb ddechrau | Heb ddechrau | Heb ddechrau | 70% |
| Cyng Margaret M. Roberts | 23/06/22 | Ymddiheuro | 21/07/21 | Ymddiheuro | Absennol | 11/05/22 | 20/09/22 | Heb ddechrau | Heb ddechrau | Heb ddechrau | 40% |
| Ms Sharon Warnes (Aelod Lleyg) | 23/06/22 | 13/07/22 | 09/09/22 | 14/09/22 | 25/01/20 | 12/05/22 | | Dewisol | Dewisol | Dewisol | 86% |
| Mr Michael Wilson (Aelod Lleyg) | 23/06/22 | 13/07/22 | 09/09/22 | 14/09/22 | 22/02/19 | 12/05/22 | | 21/12/17 | Dewisol | Dewisol | 88% |
| Cyng Liz Wood | 23/06/22 | 13/07/22 | Absennol | Absennol | Absennol | 11/05/22 | Absennol | Heb ddechrau | Heb ddechrau | Heb ddechrau | 30% |
| Cyfanswm | 11/12 (92%) | 9/12 (75%) | 9/12 (75%) | 7/12 (58%) | 9/12 (75%) | 11/12 (92%) | 6/12 (50%) | 4/12 (33%) | 3/12 (25%) | 1/12 (8%) | |

Dychwelyd i Adran

Tudalen 122

[5] Roedd yr hydoddiant ymwybyddiaeth seiber yn rhan o'r hyfforddiant anwytho ar gyfer y garfan newydd o Gynghorwyr ym mis Mai 2022
*Dewisol ar gyfer aelodau lleyg.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Yn adrodd i** | Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 29 Mehefin 2023 |
| **Pwnc** | Asesiad Ansawdd Allanol o Gydymffurfiaeth gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniad yr asesiad ansawdd allanol pum mlynedd ar gydymffurfiaeth gwasanaethau archwilio mewnol y Cyngor gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, ac fe'i cwblhawyd gan Gyngor Sir Y Fflint. | |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn gofyn i adolygydd annibynnol cymwys, o du allan i'r sefydliad, gynnal asesiad allanol o'r holl wasanaethau archwilio mewnol o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

1.2 Mae'r ddau ddull posibl ar gyfer asesiadau allanol sydd wedi'u nodi yn y Safonau yn cynnwys un ai asesiad allanol llawn neu hunanasesiad mewnol sy'n cael ei ddilysu gan adolygydd allanol.

1.3 Etholwyd aelodau o Grŵp Prif Archwilwyr Cymru i fabwysiadu'r dull hunanasesu, gydag aelod arall o'r Grŵp yn cwblhau'r dilysiad.

1.4 Bu i dîm o Gyngor Sir y Fflint, gan gynnwys y prif weithredwr archwilio a gefnogwyd gan y Prif Archwilydd, gwblhau'r dilysiad. Mae eu hadroddiad wedi'i atodi.

1.5 Roedd y dilysiad yn cadarnhau fod gwasanaeth archwilio mewnol Cyngor Sir Ynys Môn yn 'Cydymffurfio'n Gyffredinol' gyda'r gofynion. Mae 'Cydymffurfio'n Gyffredinol' yn adlewyrchu'r lefel uchaf o gydymffurfiaeth yn dilyn asesiad allanol.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n nodi'r sicrwydd a ddarparwyd gan ganlyniad yr asesiad ansawdd allanol ar gydymffurfiaeth y Cyngor gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a gwblhawyd gan Gyngor Sir y Fflint.

# Archwilio Mewnol Sir y Fflint



**Sicrwydd**:

**Yn Cydymffurfio yn Gyffredinol:** Mae'r arfarnwr wedi casglu bod strwythurau, polisïau a gweithdrefnau perthnasol y gwasanaeth archwilio mewnol, yn ogystal â'r prosesau a ddefnyddir i'w gweithredu, yn cydymffurfio â gofynion Safonau neu elfennau unigol y Cod Moeseg ym mhob agwedd o bwys. Ar gyfer yr adrannau a'r prif gategorïau, mae hyn yn golygu bod cydymffurfiaeth gyffredinol â'r rhan fwyaf o'r Safonau a'r elfennau unigol yn y Cod Moeseg, a bod o leiaf rywfaint o gydymffurfiaeth â'r lleill, o fewn yr adran/categori. Efallai fod cyfleoedd sylweddol i wella, ond nid yw'r rhain yn cynrychioli sefyllfaoedd lle nad yw'r gwasanaeth wedi gweithredu Safonau'r Cod Moeseg, lle nad yw wedi'u gweithredu'n effeithiol, neu lle nad yw wedi cyflawni'r amcanion datganedig. Fel y nodir uchod, nid yw cydymffurfio'n gyffredinol yn golygu bod angen cydymffurfio'n gyfan gwbl/yn berffaith, y sefyllfa ddelfrydol, ymarfer llwyddiannus, ac ati.

# Adroddiad Archwilio

**Teitl:** Asesiad Allanol Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus – Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn

**Dyddiad Cyhoeddi:** 19 Mai 2023

**Caiff gwaith Archwilio Mewnol ei wneud gan gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.**

## 1.0 Rhagarweiniad

1.1 Daeth Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) i rym ar 1 Ebrill 2013 ac roeddent yn ei gwneud yn ofynnol bod asesiad allanol yn cael ei gynnal ar yr holl wasanaethau archwilio mewnol, o leiaf unwaith bob pum mlynedd gan adolygwr cymwys ac annibynnol o du allan i'r sefydliad. Mae'r safonau wedi'u hadolygu ers 01 Ebrill 2017 i gynnwys safonau rhyngwladol newydd a diwygiedig ac addasiadau dilynol i'r gofynion a'r dehongliadau ychwanegol i'r sector cyhoeddus. Mae'r asesiad allanol wedi'i feincnodi yn ôl safonau diwygiedig 2017.

1.2 Mae'r ddau ddull posib' o fynd ati i gynnal asesiadau allanol a amlinellir yn y Safonau yn cynnwys naill ai asesiad allanol llawn neu hunanasesiad mewnol sy'n cael ei ddilysu wedyn gan adolygydd allanol.

1.3 Penderfynodd Aelodau Grŵp Prif Archwilwyr Mewnol Cymru (WCIAG) fabwysiadu'r dull hunanasesu gydag aelod arall o'r WCIAG yn gwneud y gwaith dilysu.

## 2.0 Diben

2.1 Diben yr asesiad allanol yw helpu i wella darpariaeth y gwasanaeth archwilio i Gyngor Sir Ynys Môn. Mae'r asesiad wedi'i fwriadu i fod yn broses gefnogol sy'n dynodi cyfleoedd i ddatblygu sy'n helpu yn y pen draw i wella gwerth y swyddogaeth archwilio.

## 3.0 Canlyniadau

3.1 Yn gryno, mae 304 o gwestiynau ar yr arfer orau yn hunanasesiad Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Cynhaliodd Pennaeth Archwilio a Risg adolygiad hunanasesu o gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ym mis Medi 2022 i'w ddefnyddio fel sail i'r dilysiad allanol.

3.2 Ar ôl i Gyngor Sir y Fflint ddilysu'r asesiad, mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn yn '**Cydymffurfio yn Gyffredinol**' â'r gofynion. 'Cydymffurfio yn Gyffredinol' yw'r lefel uchaf o gydymffurfiaeth yn dilyn asesiad allanol.

## 4.0 Effaith diffyg cydymffurfio a chamau i'w cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth

4.1 Mae'n rhaid datgelu unrhyw ddiffyg cydymffurfio â'r Safonau a'u heffaith i Uwch Reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Un maes o gydymffurfiaeth rannol a welwyd yn yr asesiad ansawdd allanol, ac mae manylion hwn yn Adran 5.

Yn gyffredinol, mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn yn cydymffurfio â'r Safonau ym mhob maes arwyddocaol ac yn gweithredu'n annibynnol ac yn wrthrychol.

## 5.0 Cynllun Camau Gwella

| Rhif | Cysylltiad â Hunanasesiad PSIAS / Safonau PSIAS a'r Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol | Maes Gwella |
|---|---|---|
| 1. | Safon 1311 PSIAS – Asesiadau Mewnol | Mae Safon 1311 PSIAS yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau mewnol gael eu gwneud yn rhan o'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella (QAIP) sy'n cynnwys:<br>• Monitro perfformiad gweithgarwch mewnol yn barhaus.<br>• Hunanasesiadau neu asesiadau achlysurol gan unigolion eraill o fewn y sefydliad sy'n meddu ar wybodaeth ddigonol am arferion archwilio mewnol.<br>Er bod tystiolaeth a ddarparwyd i gefnogi cwestiynau 102–111 hunanasesiad PSIAS yn awgrymu bod gwaith monitro parhaus yn cael ei wneud ar weithgarwch archwilio mewnol, nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i darparu (h.y. wedi cynnal hunanasesiadau rhwng asesiadau ansawdd allanol) i gadarnhau bod hunanasesiadau achlysurol wedi'u cynnal.<br>Er bod gwaith monitro perfformiad parhaus yn canolbwyntio yn gyffredinol ar safonau perfformiad o fewn PSIAS, mae cwmpas hunanasesiadau achlysurol yn ehangach, wrth ystyried cydymffurfiaeth â Chenhadaeth a Diffiniad Archwilio Mewnol, Egwyddorion Craidd Ymarfer Archwilio Mewnol, y Cod Moeseg a'r Safonau Priodoledd.<br>Dylid darparu tystiolaeth o hunanasesiadau achlysurol gan ddefnyddio templed hunanasesiad PSIAS. Dylid cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r hunanasesiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghyd ag unrhyw gynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â meysydd gwella dynodedig. |

## 6.0 Awgrymiadau Arferion Gorau

6.1 Rydym wedi manteisio ar y cyfle i gynnwys ambell awgrym am arferion gorau. Mae'r rhain yn seiliedig ar ganllawiau a ddarparwyd yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a chanllawiau gan Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol. Er nad yw'r camau hyn efallai wedi'u nodi yn safonau PSIAS na Nodyn Cymhwyso Llywodraeth Lleol (LGAN), maent yn gyfleoedd i ddatblygu ac ystyrir y byddai eu gweithredu'n cefnogi gwelliant parhaus.

| Rhif | Cysylltiad â Hunanasesiad PSIAS / Safonau PSIAS a'r Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol | Awgrymiadau Arferion Gorau |
|---|---|---|
| 1. | Hunanasesiad PSIAS (Cwestiwn 30) | Mae templed hunanasesiad PSIAS yn cadarnhau bod angen i'r Siarter Archwilio Mewnol ddiffinio'r term 'Bwrdd', gan ddweud bod disgwyl i'r pwyllgor archwilio gyflawni swyddogaeth y bwrdd yn y rhan fwyaf o achosion[1].<br><br>Er bod gan Bennaeth Archwilio a Risg (PAR) swyddogaeth adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mae Siarter Archwilio Mewnol Ynys Môn ar hyn o bryd yn diffinio'r 'Bwrdd' fel y 'Weithrediaeth'.<br><br>Byddem yn awgrymu diweddaru'r Siarter Archwilio Mewnol i adlewyrchu'r swyddogaeth adrodd, gan nodi'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel y Bwrdd. |
| 2. | Canllaw Gweithredu'r Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol (IPPF), Safon 1111 – Rhyngweithio Uniongyrchol â'r Bwrdd | Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg (PAR) wedi cadarnhau bod cylch gorchwyl Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Ynys Môn yn cyfeirio at gwmpas am gyfarfod preifat blynyddol rhwng y PAR a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ond nid yw'r sesiynau preifat hyn yn cael eu cynnal ar hyn o bryd.<br><br>Er nad yw'n ofynnol yn y PSIAS ac nad yw'r LGAN yn cyfeirio ato, mae Canllaw Gweithredu'r IPPF ar gyfer Safon 1111, Rhyngweithio Uniongyrchol â'r Bwrdd, yn awgrymu cynnal cyfarfod preifat blynyddol rhwng y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Prif Weithredwr Archwilio heb Uwch Reolwyr yn bresennol.<br><br>Byddai cyfarfod preifat yn gyfle i drafod materion neu bynciau sensitif sy'n wynebu'r gwasanaeth archwilio mewnol neu'r sefydliad. Mae sesiynau preifat yn caniatáu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ofyn cwestiynau sy'n ehangach na'r cynllun archwilio mewnol a chael golwg ddefnyddiol ar bethau gan y Pennaeth Archwilio. Roedd trafod â Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn rhan o'r broses asesu allanol yn awgrymu bod awch am gyfarfod preifat blynyddol. |

[1] *Mae LGAN Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn awgrymu, mewn achosion lle mae angen penderfynu pa grŵp i'w ddiffinio fel y 'Bwrdd', y gallai Prif Weithredwyr Archwilio adolygu cylch gorchwyl pob grŵp perthnasol a mapio canlyniadau'r adolygiad i'r PSIAS a'r safonau hynny sy'n cyfeirio at y Bwrdd (LGAN CIPFA, Pennod 3, t.13).*

| Rhif | Cysylltiad â Hunanasesiad PSIAS / Safonau PSIAS a'r Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol | Awgrymiadau Arferion Gorau |
|---|---|---|
| 3. | Safon 1110 PSIAS – Annibyniaeth Sefydliadol | Mae Safon 1110 PSIAS yn mynnu bod y Prif Weithredwr Archwilio'n cadarnhau annibyniaeth sefydliadol y gweithgarwch archwilio mewnol i'r Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn.<br>Mae tystiolaeth i gefnogi Cwestiwn 154 yn yr hunanasesiad PSIAS yn datgan bod 'annibyniaeth y gweithgarwch archwilio mewnol wedi'i gynnwys yn y Siarter a'r Adroddiad Blynyddol, sy'n mynd ger bron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob blwyddyn'. Er hynny, ni welwyd unrhyw gyfeiriad at annibyniaeth y gweithgarwch archwilio mewnol wrth adolygu Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2021–22.<br>Er bod y Siarter Archwilio Mewnol yn diffinio sut mae sefydlu a chynnal annibyniaeth archwilio mewnol, mae'n ofynnol hefyd i'r Prif Weithredwr Archwilio gadarnhau annibyniaeth sefydliadol i'r Bwrdd, o leiaf unwaith y flwyddyn (Safon 1110 PSIAS). Er nad yw'r PSIAS na'r LGAN yn nodi'n benodol y dylid cadarnhau annibyniaeth sefydliadol yn adroddiad blynyddol archwilio mewnol, dyna fyddai'r arfer orau a byddai'n cyd-fynd â'r ffordd mae awdurdodau lleol eraill yn cadarnhau eu hannibyniaeth sefydliadol. |
| 4. | Hunanasesiad PSIAS (Cwestiwn 153) | Mae templed hunanasesiad PSIAS yn cadarnhau bod angen i'r cynllun yn seiliedig ar risg gynnwys dull sydd wedi'i ddatblygu'n ddigonol o ddefnyddio ffynonellau sicrwydd eraill ac unrhyw waith y gallai fod ei angen i wneud y ffynonellau hynny'n ddibynadwy.<br>Mae'r PAR wedi cadarnhau bod map sicrwydd wrthi'n cael ei ddatblygu. Mae'r drydedd llinell sicrwydd wedi'i llenwi ac mae'r map sicrwydd gan y Tîm Perfformiad ar hyn o bryd, er mwyn gallu llenwi'r llinell gyntaf a'r ail linell sicrwydd.<br>Er bod prosesau cyfredol i ddatblygu'r cynllun archwilio mewnol ar sail risg yn cydymffurfio â'r PSIAS, byddai cwblhau map sicrwydd yn sicrhau bod unrhyw fylchau sicrwydd neu unrhyw feysydd lle mae gor-sicrwydd yn fwy amlwg. |

## 7.0 Rhestr Ddosbarthu

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Marion Pryor | Pennaeth Archwilio a Risg, Cyngor Sir Ynys Môn |
| Marc Jones | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, Cyngor Sir Ynys Môn |
| Dilwyn Evans | Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Cyngor Sir Ynys Môn |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 29 Mehefin 2023 |
| **Pwnc** | Adolygiad o’r Blaenraglen Waith ar gyfer 2023-24 |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>Darparu Blaenraglen Waith ar gyfer 2023-24 i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. | |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae Blaenraglen Waith ynghlwm yn Atodiad A, ynghyd â rhaglen hyfforddiant yn Atodiad B.

1.2 Mae’r rhaglen wedi’i datblygu gan ystyried cylch gorchwyl y Pwyllgor a’i gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## 2.0 ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- yn ystyried a yw’r Blaenraglen Waith a gynigir ar gyfer 2023-24 yn bodloni cyfrifoldebau’r Pwyllgor yn unol â’i gylch gorchwyl.

## Atodiad A – Blaenraglen Waith 2023-24

| Swyddogaeth Graidd | 29 Mehefin 2023 | 27 Gorffennaf 2023 | 21 Medi 2023 | Tachwedd 2023[1] | 08 Rhagfyr 2022 | 08 Chwefror 2024 | 18 Ebrill 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Atebolrwydd (3.4.8.3) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2023-24 (3.4.8.3.2)<br><br>Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2022-23 (3.4.8.3.1) | | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2023-24 (3.4.8.3.2)<br><br>Hunan Asesiad y Pwyllgor (3.4.8.3.2) | | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2023-24 (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2023-24 (3.4.8.3.2)<br><br>Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 (3.4.8.3.2) |
| Llywodraethiant (3.4.8.4) | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft (3.4.8.4.1/2/3) | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol (3.4.8.4.1/2/3) | Cod Llywodraethiant Lleol (3.4.8.4.1/3)<br><br>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ac Adfywio 2022-23 (3.4.8.4.4) | | |
| Rheoli Trysorlys (3.4.8.5) | | | Adroddiad Blynyddol 2022-23 (3.4.8.5.1/2/3/4) | | Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3) | Strategaeth a Dangosyddion Darbodus 2024-25) (3.4.8.5.3/4) | |
| Fframwaith Sicrwydd (3.4.8.7) | Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2022-23 (3.4.8.7.1) | | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth | | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn ysgolion | | |

[1] Dyddiad terfynol i'w gadarnhau

| Swyddogaeth Graidd | 29 Mehefin 2023 | 27 Gorffennaf 2023 | 21 Medi 2023 | Tachwedd 2023[1] | 08 Rhagfyr 2022 | 08 Chwefror 2024 | 18 Ebrill 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Diweddariad Newid Hinsawdd (3.4.8.7.1) | | 2022-23 (3.4.8.7.1)<br><br>Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2022-23 (3.4.8.7.1)<br><br>Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2022-23 (3.4.8.7.1) | | 2022-23 (3.4.8.7.1) | | |
| Rheoli Risg (3.4.8.8) | | | Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | | | Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | Adolygiad Blynyddol o Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) |
| Atal Twyll a Llygredd (3.4.8.9) | | | Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-23 (3.4.8.9.4)<br><br>Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban Blynyddol 2022-23 (3.4.8.9.1) | | Adolygiad Blynyddol o Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2023-26 (3.4.8.9.2/3) | | |
| Archwilio Mewnol (3.4.8.10) | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol | | Adroddiad Diweddaru | | Adroddiad Diweddaru | Adroddiad Diweddaru | Adroddiad Diweddaru |

| Swyddogaeth Graidd | 29 Mehefin 2023 | 27 Gorffennaf 2023 | 21 Medi 2023 | Tachwedd 2023[1] | 08 Rhagfyr 2022 | 08 Chwefror 2024 | 18 Ebrill 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022-23<br>(3.4.8.10.6/7/8/9/12/14/15)<br>(3.4.8.6)<br><br>Asesiad Ansawdd Allanol o Gydymffurfiaeth gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus<br>(3.4.8.10.1/2/9/12/14) | | Archwilio Mewnol<br>(3.4.8.10.10/ 11)<br>(3.4.8.6)<br><br>Materion/ Risgiau sy'n Weddill<br>(3.4.8.10.11) | | Archwilio Mewnol<br>(3.4.8.10.10/ 11)<br>(3.4.8.6)<br><br>Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol<br>(3.4.8.10.3/13) | Archwilio Mewnol<br>(3.4.8.10.10/ 11)<br>(3.4.8.6) | Archwilio Mewnol<br>(3.4.8.10.10 /11)<br>(3.4.8.6)<br><br>Materion/Risgiau sy'n Weddill<br>(3.4.8.10.11)<br><br>Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol 2024-25<br>(3.4.8.10.1/2/5/6) |
| Archwilio Allanol<br>(3.4.8.11) | Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch4)<br>(3.4.8.11.3)<br><br>Cynllun Archwilio Blynyddol Amlinellol 2023<br>(3.4.8.11.1/3) | | | Adroddiad Archwilio Cyfrifon<br>(3.4.8.11.2)<br>(3.4.8.12.3) | | Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023<br>(3.4.8.11.3) | |
| Adrodd Ariannol<br>(3.4.8.12) | | Datganiad Cyfrifon Drafft 2022-23<br>(3.4.8.12.1/2) | | Datganiad Cyfrifon Terfynol 2022-23<br>(3.4.8.12.1/2) | | | |
| Rheoleiddwyr ac Archwilwyr Eraill (3.4.8.13) | | | | | | | |
| Delio â Chwynion<br>(3.4.8.14) | | | Adroddiad Blynyddol Pryderon, | | | | |

| Swyddogaeth Graidd | 29 Mehefin 2023 | 27 Gorffennaf 2023 | 21 Medi 2023 | Tachwedd 2023[1] | 08 Rhagfyr 2022 | 08 Chwefror 2024 | 18 Ebrill 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cwynion a Chywthu Chwiban 2022-23 (3.4.8.14.1/2) Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2022-23 (3.4.8.14.1/2) | | | | |
| Adroddiad Hunanasesu (3.4.8.15) | Adolygiad o'r Adroddiad Corfforaethol Hunanasesu Blynyddol Drafft (3.4.8.15.1/2/3) | | | | | | |
| Asesiad o berfformiad gan Banel (3.4.8.16)[2] | | | | | | | |



[2] O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad o berfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor. Gall y cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel.

# Atodiad B – Rhaglen Hyfforddiant

## Hyfforddiant benodol i'r pwyllgor

| Maes | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu | Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli Risg | Hybrid | Julie Jones, Rheolwr Risg ac Yswiriant | Hydref 2023 | |
| Rheoli Trysorlys | Hybrid | Richard Bason, Cynghorydd Rheoli'r Trysorlys, Link Group | Medi 2023 | |

## Hyfforddiant gorfodol

| Maes | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu | Wedi ei Gwblhau |
|---|---|---|---|---|
| Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Seiber Ninjas ar gyfer Cynghorwyr | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Ddiogelu | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Atal/Prevent (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Caethwasiaeth Fodern (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |